# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 12FED CHWEFROR, 2026**

**(NODER: CYNHELIR CYFARFOD BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB)**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679 667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 4 Chwefror 2026)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Beca Brown | Jina Gwyrfai |
| Dawn Lynne Jones | Gareth Tudor Jones |
| Olaf Cai Larsen | Gwynfor Owen |
| Huw Rowlands | Dyfrig Siencyn |
| Rhys Tudur | Sian Williams |
| Geraint Wyn Parry | [sedd wag] |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Gwilym Jones |
| Beth Lawton | Dewi Owen |
| John Pughe Roberts | Richard Glyn Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Gweno Glyn Williams | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Sharon Roberts | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elise Poulter | NEU |
| Gwilym Jones | NASUWT |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 26

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11/12/25 fel rhai cywir.

**5. BUDD Y CYNLLUN TWF I WYNEDD** 27 - 55

I ystyried budd yr Cynllun Twf i Wynedd.

**6. ARDOLL YMWELWYR** 56 - 169

I ystyried effaith yr ardoll ymwelwyr ar Wynedd.

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**11/12/25**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, Geraint Parry, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn a Sian Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Gwilym Jones (NASUWT) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6 -** Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad) a Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 -** Cynghorydd Richard Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Roland Wyn Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant) a Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 -** Cynghorydd Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau) a Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gwynfor Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Gareth Tudor Jones a Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen. Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Beth Lawton fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen. Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu enw'r Cynghorydd Dawn Lynne Jones i'r rhestr o ymddiheuriadau.

**5. STRATEGAETH YSGOLION**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Addysg yr adroddiad gan nodi bod y ddogfen ddrafft gerbron yn cwmpasu gweledigaeth yr adran addysg ar ran yr ysgolion dros y blynyddoedd nesaf. Nodwyd bod y strategaeth flaenorol bellach wedi dyddio ac yn dod i ben yn 2025, a bod angen ei diweddaru oherwydd newidiadau sylweddol dros y cyfnod. Eglurwyd bod y ddogfen yn ceisio adlewyrchu'r ffaith bod yr heriau sy'n wynebu'r sir wedi newid ac yn dwysáu, gan nodi bod y strategaeth yn cyfeirio at effeithiau toriadau, heriau recriwtio a bygythiad newidiadau demograffig pellgyrhaeddol ar draws y sir.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am y cyflwyniad. Holwyd am fwy o fanylion ynghylch sut mae heriau plant sy'n agored i dlodi yn mynd i gael ystyriaeth o fewn y strategaeth, gan bwysleisio pwysigrwydd bod y cohort hwn yn cael llais o fewn y strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod awdit wedi'i gynnal i geisio cael ysgolion cost-gyfeillgar.
- Bod data wedi'i gasglu ynghylch y mater hwn ac y bydd yn cael ei rannu gydag ysgolion o fewn y mis er mwyn galluogi ysgolion i ymateb a chyfarch yr heriau, ac i uchafu'r mater a'i roi ar flaen y rhestr flaenoriaethau.
- Bod yr adran yn cydnabod bod profiadau plant o gefndiroedd difreintiedig yn waeth o lawer os nad ydynt yn cael eu cefnogi drwy'r ysgolion.
- Bod lle i roi pennawd penodol o ran plant sy'n agored i dlodi, a sylw i sut y dylid cyfarch anghenion plant o gefndiroedd difreintiedig, i ba raddau mae'r trefniadau presennol yn cyfarch hyn a sut y byddai newid y trefniadau yn gwella'r sefyllfa.
- Bod llawer o grantiau yn cael eu rhoi i ysgolion i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig, ond o dan y trefniadau presennol mae'n ofynnol i benaethiaid a chyrff llywodraethol ddefnyddio arian ychwanegol ar ffurf grant i gefnogi pawb, nid o reidrwydd targedu unigolion, gan fod y sefyllfa'n anodd ar y cyfan.

Mynegwyd balchder gweld y mater o ddiogelu yn cael ei gyfarch o fewn y strategaeth. Mynegwyd barn y dylai diogelu fod yn uwch o fewn y strategaeth

na phennawd pedwar, o ystyried pwysigrwydd diogelu. Holwyd sut mae adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' wedi siapio'r strategaeth. Mewn ymateb, cytunwyd bod diogelu yn fater hynod bwysig. Nodwyd nad oedd y rhestr yn adlewyrchu unrhyw drefn blaenoriaeth. Cydnabuwyd bod lle i newid trefn y strategaeth er mwyn rhoi diogelu ar frig y rhestr.

Cadarnhawyd bod y drafft hwn o'r Strategaeth Ysgolion wedi ei lunio cyn cyhoeddi'r adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder'. O ran y dysgu o'r Adolygiad Ymarfer Plant, pwysleisiwyd yr angen i'r awdurdod a'r tîm diogelu a llesiant roi fwy o gefnogaeth i'r ysgolion. Pwysleisiwyd ymhellach yr her sy'n bodoli i'r adran gefnogi 94 o ysgolion o bob maint. Nodwyd bod nifer o ysgolion yn disgyn i gategorïau llai o ran maint, sy'n arwain at lai o adnoddau a chyllideb. Pwysleisiwyd bod angen mwy o adnoddau ar gyfer gwella'r gefnogaeth i'r ysgolion. Nodwyd bod modd, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, edrych dros y Strategaeth Ysgolion unwaith eto drwy lens yr adroddiad er mwyn cyfoethogi'r strategaeth yn ei chyfanrwydd.

Pwysleisiwyd bod y Strategaeth Ysgolion deng mlynedd hon am chwarae rhan fawr yn adfer hyder rhieni'r sir yn niogelwch eu plant o fewn ysgolion.

Holwyd ynghylch recriwtio a chadw athrawon, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn pynciau arbenigol. Holwyd a oedd strategaeth neu gynllun penodol ar waith ar gyfer recriwtio athrawon. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod recriwtio a chadw staff addysg yn her genedlaethol ac yn ehangach na Chymru a nad oedd y sefyllfa'n unigryw i'r sir.
- Bod yn anodd mesur yn llwyr effaith y prinder ar safonau dysgu ac addysgu ar draws y sir, ond cydnabuwyd bod y prinder yn effeithio ar brofiad dysgwyr ac ar allu ysgolion i gynnal parhad.
- Bod rhai athrawon, yn enwedig yn y sector uwchradd, yn wynebu sefyllfaoedd lle byddai angen addysgu mwy nag un pwnc y tu hwnt i'w harbenigedd a bod hynny'n gallu bod yn rhwystr i recriwtio a chadw athrawon.
- Mynegwyd pryder ynghylch arweinyddiaeth a bod prinder yn y genhedlaeth nesaf o arweinwyr, dirprwy benaethiaid, penaethiaid ac arweinwyr pwnc yn peri risg i wydnwch ysgolion.
- Bod prinder penaethiaid adrannau yn y sector uwchradd yn arbennig o heriol a bod ymadawiad arweinydd cryf yn gallu arwain yn gyflym at ostyngiad mewn safonau.
- Tynnwyd sylw at her recriwtio mewn rhai ardaloedd daearyddol, a nodwyd bod anhawster penodol yn codi wrth lenwi bylchau tymor byr pan fydd staff yn absennol oherwydd salwch.
- Bod trefniadau wedi bodoli mewn rhai ardaloedd megis Meirionnydd i ystyried staff nad oeddent yn rhugl yn y Gymraeg (ond yn ymrwymo i ddysgu) er mwyn llenwi bylchau. Nodwyd bod hynny'n codi pryder i'r adran.
- Bod angen sicrhau addysgu parhaus i ddisgyblion a bod cynlluniau ar waith i gefnogi iaith athrawon a hyrwyddo defnydd y Gymraeg fel rhan o'r ymateb i'r her.

Mynegwyd pryder ynghylch diogelu ac ymddygiad anghymdeithasol, a holwyd am y weithdrefn pan fydd digwyddiadau difrifol yn codi ar safle ysgol, gan gynnwys digwyddiadau lle mae perygl i ddiogelwch. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cymunedau ysgolion ar y cyfan yn wynebu ymddygiad gynyddol heriol.
- Bod trefniadau clir ar waith pan fo pryder diogelwch a bod cam naturiol yn cynnwys sicrhau diogelwch ar unwaith ar safle'r ysgol.
- Bod cysylltu â'r heddlu yn digwydd lle bo angen a bod hynny'n rhan o'r ymateb pan fo'r sefyllfa'n mynnu.
- Bod camau gweithredu pellach yn cael eu dilyn gan ysgolion yn unol â threfniadau a bod cymorth ar gael drwy swyddogion cymorth, timau diogelu a lles, iechyd a diogelwch, a swyddogion perthnasol o fewn y gwasanaeth.
- Bod ymddygiad heriol a digwyddiadau'n aml yn adlewyrchiad o broblemau cymdeithasol a chymunedol ehangach a bod angen gwaith gyda theuluoedd a chymunedau ochr yn ochr â gwaith ysgolion.

Pwysleisiwyd yr angen i warchod athrawon o fewn y strategaeth, gan nodi mai hwy yw asgwrn cefn ein hysgolion. Nodwyd nad oedd y strategaeth yn rhoi digon o bwyslais ar iechyd a lles athrawon, a bod angen rhoi mwy o gefnogaeth i athrawon o fewn y strategaeth. Tynnwyd sylw at y baich gweinyddol, a nodwyd bod llwyth gwaith, paratoi, asesu a marcio yn parhau'n fater sylweddol ar draws sectorau. Cwestiynwyd a oedd modd lleihau'r baich gweinyddol hwn oddi ar athrawon. Nodwyd bod angen edrych ar strategaeth i ddenu mwy o myfyrwyr o'r prifysgolion i fod yn athrawon, drwy sicrhau bod athrawon yn derbyn cyflog teg a bod eu hamgylchiadau gwaith yn groesawus ac yn effeithiol. Cwestiynwyd a oedd modd defnyddio gwybodaeth i fonitro a gweld os oes patrwm yn dod i'r amlwg o ran iechyd athrawon mewn rhai ysgolion, a chwestiynwyd a allai'r wybodaeth honno helpu i dargedu cymorth. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Bod lles athrawon a cymhorthyddion yn thema graidd i'r strategaeth.
- Bod y strategaeth yn ceisio gwella'r sefyllfa o fewn ysgolion ar y cyfan, a byddai hyn o ganlyniad yn gwella sefyllfa lles athrawon.
- Bod heriau llwyth gwaith yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion a arbenigedd oherwydd amgylchiadau gwahanol.
- Bod pwysau gwaith papur yn cael ei greu'n bennaf gan gyrff llywodraethol a phenaethiaid a bod yr adran addysg yn ceisio peidio â rhoi pwysau gwaith ychwanegol ar athrawon.
- Bod fforwm lles penaethiaid yn bodoli, sy'n gweithio ar greu strategaethau i leihau pwysau gwaith ar benaethiaid.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg:

- Mai athrawon a staff ysgol oedd asgwrn cefn addysg.
- Bod bwriad gan Blaid Cymru i lenwi'r bwlch rhwng beth sy'n cael ei gynnig i athrawon yn Lloegr ac yng Nghymru pe baent yn cael eu hethol i'r Senedd.
- Bod sgyrsiau yn cael eu cynnal ynghylch cyflogau cymhorthyddion, yn benodol nad ydynt yn cael eu talu yn ystod cyfnod y gwyliau, ond pwysleisiwyd mai mater cenedlaethol yw hyn.

Holwyd ynghylch llywodraethiant ysgolion a pham nad oedd adran yn y strategaeth ar rôl llywodraethwyr, yn enwedig y rôl y gallant ei chwarae mewn sefyllfaoedd lle mae problem yn codi ynghylch penaethiaid neu uwch dîm rheoli. Cwestiynwyd beth oedd y weledigaeth ar gyfer rôl llywodraethwyr dros y degawd nesaf. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nid oedd bwriad i eithrio llywodraethiant o'r strategaeth a bod adolygiad o drefniadau llywodraethiant ysgolion yn mynd rhagddo yn y chwe mis nesaf gan Lywodraeth Cymru.
- Bod recriwtio llywodraethwyr yn her sylweddol gan ei fod yn rôl gwirfoddol sydd yn creu baich amser a chyfrifoldeb mawr.
- Bod angen grymuso trefniadau cefnogi llywodraethwyr a bod gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni hyn.
- Bod camau'n cael eu cymryd i ychwanegu capasiti cefnogol, gan gynnwys penodi Swyddog Cefnogi Ysgolion ychwanegol.
- Bod llywodraethwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd delio â materion adnoddau dynol, agweddau cyllidol a materion diogelu.
- Bod gwerth rôl llywodraethwyr yn parhau'n glir gyda lleisiau rhieni a'r gymuned leol yn cyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm a chyfeiriad ysgolion.
- Bod parodrwydd i ychwanegu adran benodol ar lywodraethiant i'r strategaeth wrth ei mireinio gan amlinellu'r bwriad i ddatblygu'r trefniadau dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.
- Bod cefnogaeth genedlaethol yn allweddol i sicrhau trefn fwy cadarn a llai beichus i lywodraethwyr.

Cyfeiriwyd at ffonau symudol, seibrfwlio a diogelwch digidol fel materion diogelu ymarferol, a nodwyd enghreifftiau o sefyllfaoedd lle bu'n rhaid i'r heddlu fod yn rhan o ymateb ysgol oherwydd digwyddiadau difrifol yn gysylltiedig â'r maes hwn. Nodwyd bod achosion wedi'u crybwyll lle bu'n rhaid i rai plant aros gartref oherwydd effaith seibrfwlio a ddechreuodd yn yr ysgol, a nodwyd bod natur seibrfwlio yn golygu bod yr effaith yn parhau y tu hwnt i oriau ysgol. Holwyd a oedd modd i'r awdurdod gefnogi trefniant sir gyfan i wahardd ffonau symudol mewn ysgolion. Holwyd a ddylid ystyried dylanwadu ar lefel genedlaethol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nid oedd gan yr Awdurdod y pŵer i wahardd ffonau symudol ar draws ysgolion, a nodwyd mai penderfyniad cyrff llywodraethol unigol yw gweithredu polisi o'r fath.
- Byddai cefnogaeth a chyngor ar gael i unrhyw ysgol a fyddai'n dewis gweithredu polisi i gyfyngu neu wahardd ffonau symudol.
- Nid oedd bwriad yn bresennol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno polisi cenedlaethol i wahardd y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion, a phwysleisiwyd bod defnydd cyfrifol yn rhan hanfodol o'r ateb gan fod ffonau yn rhan annatod o fywyd bob dydd.
- Bod gwahardd ffonau symudol yn gallu ymddangos yn syml ond nad yw'n datrys pob problem yn ymarferol, a nodwyd enghreifftiau o drefniadau mewn gwledydd eraill lle defnyddir pocedi clo i storio ffonau drwy'r dydd, gyda rhai disgyblion yn ymateb drwy ddod â mwy nag un ffôn.
- Bod angen sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall effaith eu gweithredoedd ar eraill ac i fod yn gyfrifol wrth defnyddio ffonau symudol.

- Cydnabuwyd bod y niwed yn gallu bod yn sylweddol ac yn aml yn digwydd yn rheolaidd.

Cyfeiriwyd at ddata demograffig y ddogfen fel sail bwysig i'r drafodaeth, a nodwyd bod y data'n portreadu effaith diboblogi a'r canlyniadau ar ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd bod 14.7% o ostyngiad yn y boblogaeth oedran 16-24 oed yn y sir rhwng 2011 a 2021. Pwysleisiwyd bod y duedd yn cael effaith tymor hir ar y gallu i recriwtio o fewn yr sector addysg. Nodwyd bod nifer o bobl ifanc yn gadael i astudio ac yn dewis peidio â dychwelyd i weithio yn y sir.

Holwyd ynghylch y berthynas rhwng y strategaeth hon a'r gwaith Polisi Iaith Addysg. Cwestiynwyd a oedd y sefyllfa recriwtio yn peryglu'r gallu i wireddu uchelgais darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Holwyd ynghylch cyllido'r system drochi a'r costau cysylltiedig. Holwyd a oedd angen mwy o adnoddau ar gyfer elfennau penodol o'r strategaeth er mwyn cyflawni'r uchelgais. Mynegwyd barn y dylai'r pwyllgor graffu'r strategaeth recriwtio athrawon yn y dyfodol agos gan fod yr her yn enfawr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod grantiau ar gael i ddenu unigolion i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nodwyd nad oedd hynny o reidrwydd yn rhoi mantais ariannol unigryw i'r sir o'i chymharu ag ardaloedd eraill.
- Bod angen mwy o gyfran o'r ddarpariaeth hyfforddi a denu ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg.
- Bod yr her recriwtio yn sylweddol, yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- Bod y Polisi Iaith Addysg drafft yn ddogfen ar wahân ac ar fin symud ymlaen drwy brosesau penderfynu.
- Bod pryderon ynghylch cyllido trochi yn cael eu rhannu a bod dymuniad i weld y system yn cael ei hariannu ar sail y gost wirioneddol.
- Bod llawer o feysydd o fewn addysg a'r Cyngor yn galw am fwy o gyllid, megis trafnidiaeth, a nodwyd bod cyfyngiadau sylweddol ar y gallu i weithredu heb adnoddau ychwanegol.
- Bod gohebiaeth wedi'i hanfon at Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru yn ei wahodd i Wynedd i weld y canolfannau trochi.

Nodwyd sylw bod y gwaith a ddisgwylir gan gyrff llywodraethol yn lawer iawn i wirfoddolwyr ymdrin ag ef, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Nodwyd bod llawer o ofyn ar amser llywodraethwyr ac, i ryw raddau, bod hyfforddiant yn ychwanegu at y gofyn hwn.

Mynegwyd barn bod y Strategaeth Ysgolion yn un gymeradwy iawn, ond bod pellter rhwng yr amcanion a realiti sefyllfa ysgolion, yn benodol ysgolion uwchradd. Cydnabuwyd bod y realiti hwn yn cael ei cydnabod o fewn y strategaeth. Nodwyd bod heriau cyllido cludiant yn her sylweddol i amcanion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant. Gofynnwyd i ailedrych ar effaith toriadau cludiant i ddisgyblion fynd i ysgol o ran cydraddoldeb a chynhwysiad, gan fod hyn yn cael effaith fwy sylweddol ar blant o gefndiroedd difreintiedig. Mynegwyd y farn bod angen canolbwyntio o fewn y strategaeth ar lythrennedd gan ei fod yn elfen bwysig i alluogi pobl ifanc i lwyddo yn y dyfodol.

Nodwyd sylw bod diffyg yn bodoli o ran cadw athrawon. Cyfeiriwyd at ddata gan Gyngor y Gweithlu Addysg sy'n dangos o'r cohort o athrawon a oedd newydd gymhwyso yn 2015, bod 40% wedi gadael y proffesiwn addysg. Mynegwyd bod swyddi hybrid yn llawer mwy deniadol na swyddi mwy caeth. Pwysleisiwyd nad arian yn unig yw'r her, ond bod angen edrych ar y ffordd y mae staff addysg yn gweithio hefyd er mwyn denu a chadw mwy o athrawon.

Holwyd ynghylch y prif grwpiau ymgynghorol ar gyfer y strategaeth, wrth nodi y dylid ychwanegu Estyn at y rhestr hon. Cwestiynwyd pam nad oedd rhieni wedi'u hymgysylltu mewn unrhyw ffordd ffurfiol na thrwy holiadur. Mynegwyd barn nad oedd mewnbwn llais y rhieni yn y strategaeth ysgol, tu hwnt i'r corff llywodraethol. Mewn ymateb, nodwyd bod y strategaeth ar ffurf ddrafft a bod ymgysylltu'n parhau a bod ysgolion wedi'u hannog i gwblhau holiaduron a chyflwyno ymatebion. Nodwyd bod cyfathrebu rheolaidd wedi digwydd gyda'r ysgolion i annog cyfraniad a bod parodrwydd i gynnwys rhieni yn fwy uniongyrchol wrth symud ymlaen. Cytunwyd bod llais rhieni yn bwysig i gyfeiriad y gwaith a na fyddai rhwystrau i gynnwys rhieni yn y cam nesaf o fireinio.

Holwyd ynghylch trefniadau'r Gwasanaeth Cefnogi Ysgolion yn dilyn newidiadau rhanbarthol. Holwyd am eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth, capasiti'r timau, a'r goblygiadau o symud i drefn newydd. Nodwyd bod ysgolion yn teimlo bwlch ar ôl diwedd y Gwasanaeth Effeithlonrwydd Ysgolion (GwE) o ran herio ysgolion, cefnogi staff, datblygu arweinwyr a darparu hyfforddiant perthnasol ac o safon i athrawon a chymorthyddion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai penderfyniad Llywodraeth Cymru oedd dod â gwasanaeth rhanbarthol GwE i ben.
- Bod cyfnod o ansicrwydd wedi parhau wrth aros am fframwaith genedlaethol newydd ar gyfer gwella a chefnogi ysgolion.
- Bod y fframwaith newydd wedi'i addo ers wythnosau a bod disgwyl ei dderbyn cyn y Nadolig.
- Bod cyfeiriad y system yn newid yn sylweddol.
- Bod y drefn newydd yn symud i fodel lle byddai ysgolion yn cael eu hwyluso i gefnogi ei gilydd. Roedd hyn yn codi heriau ymarferol o ystyried prinder arweinwyr, her recriwtio, a chyfyngiadau amser ac adnoddau staff ysgolion.
- Credwyd na fyddai'r drefn newydd yn hollol addas ar gyfer Gwynedd ac felly bod tîm o swyddogion cefnogi yn bodoli'n lleol, ond bod capasiti'n parhau'n her oherwydd nifer uchel o ysgolion a lledaeniad daearyddol.
- Bod y sefyllfa yn y sector uwchradd yn fwy heriol oherwydd anhawster penodi swyddogion ychwanegol.
- Bod swyddogion medrau ar gael ar gyfer meysydd megis llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, a nodwyd bod y trefniant hwn wedi'i fabwysiadu i ddiogelu arbenigedd a chwrdd â galw ysgolion am gefnogaeth bwnc benodol.
- Bod ansicrwydd yn parhau ynghylch a yw'r capasiti'n ddigonol i gefnogi pob ysgol yn y tymor hir.
- Bod nodyn briffio yn cael ei baratoi i Aelodau i egluro'r trefniadau a'r rolau, a nodwyd bod hynny'n ymateb i'r angen am eglurder ymarferol.

Mynegwyd barn bod yr egwyddorion o fewn y strategaeth yn rhy aneglur. Cwestiynwyd a oedd hynny'n fwriadol o ystyried niferoedd disgyblion, ac nad oedd cyfeiriad at y nifer o oedrannau y dylai athrawon ddysgu o fewn un dosbarth.

Cytunwyd bod gormod o gyfrifoldebau yn cael eu rhoi ar ysgwyddau llywodraethwyr a bod hyn yn rhwystro'r awdurdod i gynllunio yn strategol ar draws y sir, yn enwedig o ran penodiadau penaethiaid. Awgrymwyd bod lle i gael sgwrs ar lefel gweithgor ynghylch profiadau llywodraethwyr.

Tynnwyd sylw at yr angen i gynnwys ysgolion ffydd yn y drafodaeth a bod eu safbwyntiau yn berthnasol i gwblhau'r strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod trafodaethau eisoes yn digwydd gyda arweinwyr ysgolion ffydd a y byddai eu barn yn cael ei chynnwys wrth symud ymlaen.

Mynegwyd barn y dylai'r strategaeth fod yn fwy penodol gan nodi mesuryddion llwyddiant a mesur hyn sydd wedi'u cyflawni. Mewn ymateb, derbyniwyd bod diffyg pendantrwydd ac uniondeb ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni o fewn cyfnodau penodol gan fod sefyllfaoedd ysgolion yn dynamig. Nodwyd bod bwriad adolygu stad ysgolion wrth i ddangosyddion gael eu hadolygu a chymharu bob mis Ionawr.

Mynegwyd barn bod elfennau o'r strategaeth yn mynd i drawsnewid sut mae addysg yn cael ei chyflwyno i nifer fawr o bobl ifanc. Rhagwelir y bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau plant sy'n dadgofrestru, yn enwedig o fewn teuluoedd dosbarth gweithiol. Tynnwyd sylw at ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gan nodi bod angen sicrhau bod llais y cohort hwn, a llais eu rhieni neu eiriolwyr, yn rhan gadarn o'r strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc eisoes yn digwydd drwy fforwm plant a phobl ifanc.
- Bod bwriad i sicrhau bod ystod eang o blant o wahanol gefndiroedd a heriau yn cael cyfle i gyfrannu.
- Bod y Comisiynydd Plant yn fodlon gyda'r camau mae'r adran yn eu cymryd i sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog.
- Bod angen cynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu.
- Bod her yn bodoli ynghylch derbyn adnoddau anghenion dysgu ychwanegol digonol.
- Bod niferoedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynyddu yn genedlaethol.

Apeliwyd am fwy o le amlwg o fewn y strategaeth i'r Gymraeg, gan nodi ei bod ar waelod y dudalen gwerthoedd, nid oedd wedi ei gynnwys yn y weledigaeth ar dudalen chwech, nid oedd mesuryddion llwyddiant ar gyfer yr iaith, ac nad oedd sôn am yr iaith Gymraeg o dan egwyddorion y sector.

Nodwyd bod yr holl ddata o fewn y strategaeth wedi'u seilio ar dueddiadau poblogaeth hyd at y flwyddyn 2026, ond bod gwefan Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos rhywfaint o gynnydd yn y duedd yn 2032 a 2042.

Nodwyd bod cysylltiadau ehangach yn bodoli rhwng tai, economi a niferoedd plant, a nodwyd bod angen datblygiadau sylweddol i wrthdroi'r dirywiad. Mynegwyd barn bod angen edrych tuag at y dyfodol o ran y data poblogaeth. Pwysleisiwyd yr angen i warchod ysgolion bychain cefn gwlad sydd mewn trafferthion o ganlyniad i'r dirywiad demograffig rhag cael eu cau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y duedd ddemograffig yn sefydlog, ac felly mae angen cynllunio yn unol â realiti'r sefyllfa.
- Cydnabuwyd bod lle i gryfhau'r sylw at yr iaith Gymraeg, ond pwysleisiwyd bod y Strategaeth Iaith Addysg yn ddogfen ar wahân ac yn hynod o uchelgeisiol.
- Bod mwy a mwy o ysgolion yn disgyn i fewn i warchodaeth.
- Bod teimlad o annhegwch o safbwynt rhai ysgolion mwy o gymharu ag amgylchiadau ysgolion llai, gan fod rhan o'u cyllideb yn ariannu ysgolion o fewn gwarchodaeth. Pwysleisiwyd bod y strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r teimladau hynny drwy egwyddorion a dull cynllunio teg.
- Bod y cyd-destun demograffig yn gwneud y drafodaeth yn anodd ond yn angenrheidiol.

Holwyd ynghylch y posibilrwydd o gael lleoliad Uned Gyfeirio Disgyblion yn Ne Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod cynllun yn y biblinell ar gyfer lleoliad ychwanegol yn Ne Gwynedd.

Nodwyd bod defnydd o systemau digidol i nodi pryderon diogelu yn arfer rhagorol ym mwyafrif ysgolion y sir, a chadarnhawyd y disgwylid y byddai hyn yn wir ar draws pob ysgol erbyn mis Mawrth 2026. Cwestiynwyd a oedd yr adran addysg am ariannu'r rhain. Mewn ymateb, cadarnhawyd byddai'r adran addysg yn ariannu'r systemau digidol hyn.

**PENDERFYNWYD**

1. **Croesawu'r strategaeth a derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Bod y Pwyllgor Craffu yn argymell i'r Aelod Cabinet Addysg fod angen cynnwys gwybodaeth bellach am ddiogelu, tlodi, tegwch cymdeithasol, ysgolion ffydd, mynediad i lais rhieni, cynhwysiad, y Gymraeg, lles staff a llywodraethiant yn y Strategaeth Ysgolion.**
3. **Bod gwybodaeth am y Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion yn cael ei dosbarthu i'r aelodau.**
4. **Gofyn i'r Adran Addysg sicrhau bod diogelu yn cael ei integreiddio i gynllunio'r adran.**
5. **Bod y Cabinet yn ymwybodol o bwysigrwydd lles staff i ddenu a chadw staff ac yn gwneud yr hyn sy'n bosibl i hyrwyddo lles ac amodau ffafriol.**
6. **Gofyn i'r Adran Addysg roi ystyriaeth lawn i argymhellion newydd Llywodraeth Cymru ynglŷn â llywodraethiant pan ddaw'r rhain i law.**

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Addysg yr adroddiad. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Holwyd ynghylch data'r Gyfundrefn Drochi, yn benodol faint sy'n dechrau'r cwrs 10 wythnos ond nad ydynt yn ei gwblhau. Gofynnwyd am ddata ynghylch faint sy'n tynnu'n ôl o'r broses a faint o geisiadau sy'n cael eu gwrthod, gan nodi y byddai hynny'n rhoi darlun mwy cyflawn na'r wybodaeth bresennol sy'n canolbwyntio ar lefel y sgiliau ar ddiwedd y cwrs. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r data yn cael ei ddarparu ac nad oedd tystiolaeth ar hyn o bryd fod tynnu'n ôl yn broblem fawr, ond cydnabuwyd y gallai amgylchiadau unigol amrywio.

Cwestiynwyd a oes bwriad datblygu lleoliadau llai neu ddarpariaeth fwy pwrpasol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn trefniadau prif lif oherwydd niwroamrywiaeth, iechyd meddwl neu gorbryder. Cwestiynwyd a oes modd cyfuno unrhyw unedau o'r fath gyda safleoedd ysgolion llai sy'n wynebu heriau o ran niferoedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cynhwysiant yn egwyddor graidd, ac nad oedd y weledigaeth yn golygu symud dysgwyr i unedau ar wahân fel ateb awtomatig.
- Mai'r man cychwyn oedd cryfhau capasiti ysgolion prif lif a addasu'r ddarpariaeth, gyda lefelau staffio priodol a hyfforddiant er mwyn gallu darparu cefnogaeth effeithiol.
- Bod angen mwy o adnoddau er mwyn addasu ysgolion prif lif i'w gwneud yn addas ar gyfer plant o bob gallu.
- Bod hi'n dod yn anoddach cefnogi plant o bob angen o fewn ysgolion prif lif am amryw o resymau, megis anghenion sy'n fwyfwy dwys.
- Bod costau cludiant a phrofiad y plentyn o ran cymysgu gydag eraill yn ffactorau pwysig wrth ystyried darpariaeth ar wahân.

Cwestiynwyd pam nad oedd cyfeiriad amlwg at yr adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' o fewn y ddogfen gerbron, gan nodi mai dyma'r cyfarfod craffu addysg ac economi cyntaf ers cyhoeddi'r adroddiad ac y gallai'r diffyg cyfeiriad beri pryder i'r cyhoedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod ymateb i'r adroddiad yn cymryd dros 80 y cant o amser yr adran ar hyn o bryd, gyda ffocws dros sawl tîm i ymateb i'r adroddiad.
- Bod pethau eraill y mae'r adran yn eu gwneud ar yr un pryd gyda'r un lefel o adnoddau, ei gwneud yn gynyddol heriol i'w cyflawni.
- Bod adnoddau ychwanegol wedi'u sicrhau ar gyfer ymateb i'r adroddiad a bod trefniadau adrodd i'r Bwrdd Rhaglen, gyda chraffu pellach ar waith y Bwrdd Rhaglen i ddigwydd yn fuan.
- Bod angen sicrhau bod y gwaith ymateb yn fwy gweladwy o fewn adroddiadau ffurfiol.
- Bod cyfle i'r Pwyllgor drafod yr ymateb i'r adroddiad yn llawn yn gynnar yn Ionawr 2026.

Cwestiynwyd ynghylch y cynnydd mewn addysg yn y cartref ers y pandemig, gan fynegi pryder am ddiogelu ac am sut y gellid sicrhau bod plant yn derbyn addysg addas. Chodwyd y posibilrwydd y gallai'r duedd barhau i gynyddu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cynnydd yn lefelau dadgofrestru yn duedd genedlaethol a bod sefyllfa Gwynedd yn debyg i'r canolrif yn genedlaethol.
- Bod newid yn y contract cymdeithasol yn dilyn y pandemig wedi chwarae rhan.
- Bod sefyllfaoedd lle mae plant yn gwrthod mynychu neu'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn gallu arwain at rieni yn dewis dadgofrestru fel yr opsiwn haws.
- Bod carfan o rieni sy'n addysgu yn y cartref yn gwneud hynny am y rhesymau cywir ac yn ei wneud yn briodol, ond cydnabuwyd fod carfan yn dadgofrestru am amryw o resymau amhriodol, megis osgoi canlyniadau mynychu gwael.
- Bod ymweliadau yn cael eu cynnal a chefnogaeth yn cael ei gynnig lle bo hynny'n bosibl ond fod cyfyngiadau pan nad yw teuluoedd yn ymgysylltu. Nad oedd gan y Cyngor bwerau i orfodi mynediad i gartref plentyn.
- Bod yr adran yn rhannu'r pryder ynghylch y cynnydd ac yn gwneud popeth o fewn ei gallu i liniaru'r effeithiau, ac i gwestiynu pam bod rhieni yn dadgofrestru plant ac i atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf.
- Bod y cynnydd yn peri pryder o ran diogelu ac y byddai'r adran yn croesawu unrhyw gamau gan y llywodraeth i roi mwy o bwerau i'r Cyngor i allu ymweld â phlant o fewn y cartref er mwyn cyfathrebu â hwy yn uniongyrchol.

Cwestiynwyd a oedd y plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn bennaf o deuluoedd lleol neu o deuluoedd oedd wedi symud i Wynedd. Nodwyd na ellid rhoi ateb pendant o fewn y cyfarfod i'r cwestiwn hwn.

Holwyd a yw'r ffaith nad yw tua 30% o ddisgyblion yn manteisio ar brydau ysgol am ddim yn peri pryder, gan gwestiynu pam fod y mesur wedi'i ddangos yn wyrdd o fewn yr adroddiad. Holwyd a yw'r patrwm yn amrywio rhwng ysgolion neu'n gyson ar draws y sir. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod dymuniad i bob plentyn fanteisio ar y cynnig fel ffordd o sicrhau pryd maethlon bob dydd.
- Bod y dangosydd yn wyrdd oherwydd gwelliant ers y flwyddyn flaenorol, ond cydnabuwyd bod lle amlwg i wella.
- Bod nifer o resymau posibl, gan gynnwys dewisiadau unigol a phatrymau amrywiol lle mae rhai disgyblion yn cymryd cinio ysgol ar rai dyddiau a bocs bwyd ar ddyddiau eraill.
- Bod patrymau'n amrywio ar draws y sir.
- Bod trefniadau ar waith i gasglu barn a boddhad disgyblion ar y prydau, ond bod ymatebion wedi bod yn isel yn ddiweddar, a nodwyd bod bwriad i roi hwb i'r gwaith hwnnw er mwyn deall rhwystrau a gwella'r ddarpariaeth.

Nodwyd dryswch ynghylch pwy oedd awdur yr adroddiad. Mewn ymateb, nodwyd mai'r Aelod Cabinet Addysg oedd awdur yr adroddiad a byddai'r wybodaeth yn cael ei chywiro yn y ddogfen.

Nodwyd awgrym i anfon gwybodaeth yn dymhorol ac yn achlysurol at Gynghorwyr sy'n llywodraethwyr, er mwyn galluogi llywodraethwyr i holi penaethiaid am faterion addysgol o bwys a'u cyfeirio i roi sylw i faes penodol mewn cyfarfod llywodraethwyr, er mwyn eu galluogi i weithredu fel ffrind beirniadol gan dynnu sylw at feysydd allweddol megis diogelu, lles, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn bwynt dilys a bod cyfle i gryfhau'r cysylltiad hwn. Nodwyd y byddai'r cais yn cael ei flaenoriaethu erbyn y flwyddyn newydd.

Codwyd pryder ynghylch y cysylltiad posibl rhwng cynnydd mewn presenoldeb a chynnydd mewn dadgofrestru. Cwestiynwyd ynghylch effaith erlyn teuluoedd yn y llys o ganlyniad i bresenoldeb isel, gan nodi'r perygl y gallai teuluoedd bregus ddewis dadgofrestru ar ôl derbyn rhybuddion, gyda goblygiadau pellach o ran cefnogaeth a diogelu. Pwysleisiwyd bod llawer o rieni yn dadgofrestru eu plentyn oherwydd nad oes darpariaeth addas ar ei gyfer o fewn ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod dealltwriaeth fod rhai rhieni mewn sefyllfaoedd anodd iawn ac yn teimlo nad oes ganddynt opsiwn arall.
- Bod angen i'r tîm lles arfer y gallu i gymryd camau cyfreithiol fel cam olaf, gan bwysleisio nad yw hynny'n digwydd yn ysgafn ac y byddai ystyriaeth eang yn cael ei rhoi i anghenion meddygol, iechyd meddwl a ffactorau eraill cyn cyrraedd y cam hwnnw.
- Bod cynnydd mewn presenoldeb yn dilyn erlyniad mewn nifer o achosion, er na fyddai hynny'n wir ym mhob achos.
- Mai'r nod yw sicrhau bod plant yn fwy diogel drwy fynychu'n rheolaidd.
- Bod swyddogion o fewn y tîm lles yn cynnal ymweliadau ac yn cynnig cymorth i deuluoedd plant sydd wedi dadgofrestru.
- Bod teuluoedd sy'n cysylltu am gymorth yn aml yn gallu cael llwybr cefnogi mwy cadarn tuag at ddychwelyd i'r ysgol lle bo hynny'n briodol.
- Bod trefniadau cydweithio gydag asiantaethau eraill i adnabod teuluoedd nad ydynt yn ymgysylltu, ac y byddai cysylltiadau yn cael eu gwneud â Gwasanaethau Plant yn unol â'r angen.
- Bod meithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd yn rhan ganolog o'r daith a bod y gwaith yn parhau i ddatblygu.

Codwyd pryderon ynghylch y Gwasanaeth Ieuenctid, gan holi faint o fonitro sy'n digwydd o ran y clybiau cymunedol. Cwestiynwyd pam bod niferoedd isel yn mynychu rhai clybiau cymunedol, ac a oedd hynny oherwydd nad oedd y clybiau'n cynnig y ddarpariaeth fwyaf priodol i blant y gymuned. Cwestiynwyd sut y dylid dehongli canrannau boddhad uchel mewn cymhariaeth â'r ffigurau cyfranogiad, ac a yw'r gwasanaeth yn cael adborth y plant sy'n mynychu yn unig yn hytrach na phlant o fewn ysgolion sy'n dewis peidio â mynychu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y canrannau yn adlewyrchu boddhad y rhai sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Bod y ffigurau cyfranogiad yn gymharol uchel yng nghyd-destun maint y boblogaeth o bobl ifanc ar hyn o bryd, gan nodi effaith y gostyngiad

demograffig, ond cydnabuwyd bod lle i wella a bod dyhead i gynyddu ymgysylltiad.

- Bod gwaith yn cael ei wneud drwy ysgolion i ddeall beth mae pobl ifanc ei eisiau o'r ddarpariaeth, a nodwyd bod y gweithgareddau yn cynnwys elfen gymdeithasol a hamddenol yn ogystal ag elfen addysgol.
- Bod gwallau hanesyddol wedi digwydd, ond bod gwelliannau'n cael eu gweld, gyda chynnydd yn nifer y clybiau cymunedol a gwaith ar y gweill i ymestyn darpariaeth i ragor o ardaloedd.
- Bod angen sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â dymuniadau pobl ifanc.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cwestiynau ar ddysgu o adra, dad-gofrestru, defnydd o unedau, cinio ysgol, trefniadau monitro, clybiau ieuenctid a diogelu.**
2. **Nodi pwysigrwydd rhoi proffil uchel i ddiogelu mewn dogfennaeth er pwrpas rhoi cysur i'r cyhoedd, a bod y mater yn cael ei flaenoriaethu gan yr awdurdod.**
3. **Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg i:**
    - **ystyried cynnal ymarferiad i ganfod pam nad yw cymaint o blant yn manteisio ar ginio ysgol am ddim.**
    - **ystyried a oes ffyrdd o roi gwybodaeth i lywodraethwyr ynglŷn â sut i holi mewn cyfarfodydd cyrff llywodraethol ysgolion yn effeithiol.**
    - **sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd i osgoi dad-gofrestru yn ein hysgolion.**

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ECONOMI

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yr adroddiad gan nodi, ers ym mis Mehefin, bod y gwasanaethau yn parhau i wneud cynnydd da tuag at dargedau a phrosiectau blaenoriaeth y Cyngor o fewn ei bortffolio. Nodwyd bod nifer o'r prosiectau ar y trywydd iawn i gyflawni canlyniadau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Nodwyd bod gwaith ar y cyd wedi bod yn digwydd gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol cyfagos i baratoi adroddiad ar gyfer ymgynghori i gyflwyno ac i sefydlu ardoll twristiaeth o fis Mawrth 2026 ymlaen. Nodwyd y bwriad i gynnal trafodaeth fanylach gyda'r Pwyllgor Craffu ym mis Chwefror ar ôl asesu effaith unrhyw gynnig ar economi a chymunedau Gwynedd. Nodwyd bod lefelau boddhad cwsmeriaid gyda gwasanaethau llyfrgelloedd ac archifau yn parhau'n uchel, a nodwyd bod grantiau hyd at £300,000 wedi'u cynnig i 69 o sefydliadau ledled Gwynedd i hyrwyddo diwylliant a digwyddiadau. Nodwyd bod gwasanaethau adfywio a chefnogaeth gymunedol wedi sicrhau buddsoddiad o £9.8m ar gyfer prosiectau amrywiol ar draws y sir, a nodwyd bod £370,000 wedi'i ddyrannu drwy gynllun peilot cronfeydd cynghorau tref a chymuned o dan amserlen dynn gan y Llywodraeth. Nodwyd bod 55 o gynghorau wedi ymateb i'r cynllun, a nodwyd gobaith y byddai'r gronfa ar gael eto yn 2026-27 gyda mwy o rybudd i gynghorau allu ymateb.

Nodwyd bod Wythnos Busnes Gwynedd ym mis Hydref wedi rhoi cyfle i wrando ar faterion sy'n bwysig i fusnesau yn ystod cyfnod economaidd heriol ac i ddathlu llwyddiannau busnesau mawr a bach. Nodwyd bod £900,000 wedi'i ddyrannu mewn grantiau i fusnesau, a nodwyd y byddai'r rownd nesaf yn cael ei chyhoeddi yr wythnos ganlynol. Nodwyd bod gwaith cefnogi cyflogaeth wedi cynorthwyo 48 o bobl yng Ngwynedd i oresgyn rhwystrau i waith. Nodwyd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi cyhoeddi bod cais Parth Deallusrwydd Artiffisial Gogledd Cymru wedi bod yn llwyddiannus a bod safle Trawsfynydd wedi'i enwi fel rhan o'r cais. Yn ddibynnol ar sicrhau caniatâd cynllunio, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig yr un buddion i'r safle â'r safleoedd porthladd rhydd ym Môn. Nodwyd bod y datblygiad hwn yn rhoi hwb i ddatblygu'r parc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd. Nodwyd y gobaith i gyflwyno manylion yr achos busnes i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

Nodwyd bod cynnydd da wedi'i wneud gyda datblygiadau Parc Padarn a bod canolfan groeso wedi'i chwblhau, ond bod gostyngiad yn nifer y defnyddwyr Byw'n Iach yn peri pryder. Nodwyd bod Bwrdd Byw'n Iach yn ymateb yn rhagweithiol drwy addasu'r cyfleusterau a'r cynnig. Nodwyd bod lleihad yn nifer y plant sy'n cael gwersi nofio trwy'r ysgol yn parhau i gyfrannu at ostyngiad cyffredinol, a nodwyd bod gwaith ar y cyd gyda Byw'n Iach a'r Adran Addysg yn parhau i annog ysgolion a phlant i fynychu, gan nodi bod cynnydd bychan wedi'i weld yn ystod y misoedd diweddar. Diolchwyd i staff morwrol a'r harbyrau am weithio'n galed drwy stormydd y gaeaf er mwyn sicrhau bod arfordiroedd a phorthladdoedd y sir yn ddiogel.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Holwyd ynghylch realaeth y rhagolygon cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r parc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, a holwyd a fyddai sefydlu safle 'Small Modular Reactor' (SMR) fel Wylfa wedi dod â mwy o swyddi i'r ardal. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cynigion hanesyddol wedi bod yn gysylltiedig â'r posibilrwydd o ddatblygiad SMR ar y safle.
- Bod y darlun polisi wedi newid, gyda Llywodraeth y DU yn symud i gyfeiriad gwahanol o ran ariannu a blaenoriaethu, gan olygu nad oedd cynnig tymor byr i ddatblygu SMR yn Nhrawsfynydd.
- Bod ffocws y gwaith presennol ar gadw a sicrhau parhad y gwaith dadgomisiynu ar y safle dros y blynyddoedd nesaf, gyda thua dau gant o swyddi yn gysylltiedig â'r gwaith hwn ar hyn o bryd.
- Bod rhaglen y dadgomisiynu yn ymestyn hyd at tua 2060.
- Bod datblygu hwb y parc gwyddoniaeth yn cael ei ystyried fel cyfle i arloesi, denu syniadau newydd a nodi cyfleoedd amrywiol i greu cyflogaeth yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r seilwaith a'r sgiliau sydd eisoes ar y safle.
- Bod cyfle i rannu rhagor o fanylion gyda'r Pwyllgor ar y cynlluniau yn y flwyddyn nesaf.

Holwyd beth arall oedd y gwasanaeth yn ei wneud i ddenu cyflogaeth i Wynedd, gan holi'n benodol am ddatblygiad canolfan fwyd ar safle Glynllifon o dan raglen Twf Gogledd Cymru. Cwestiynwyd ymhellach a fyddai'r cyfleoedd yn cynnig swyddi cyflog byw yn hytrach na swyddi cyflog isel. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cynllun yn symud ymlaen ond bod angen ei addasu am ddau reswm, sef ystyriaethau cynllunio a newidiadau mewn amgylchiadau sefydliadol.
- Bod adborth cynllunio wedi dangos na fyddai'r elfen o gael unedau bwyd ar y safle o'r cynnig gwreiddiol yn debygol o gael cefnogaeth oherwydd effaith ar fioamrywiaeth a bywyd gwyllt, ond nodwyd nad oedd hynny'n golygu y byddai'r elfen honno'n diflannu'n llwyr gan y byddai opsiynau ar safleoedd amgen yn cael eu hystyried y tu allan i Glynllifon.
- Bod y cynnig bellach yn cael ei ddatblygu drwy dri cham, gyda'r cam cyntaf yn ymwneud â thechnoleg newydd ar gyfer parlwr godro.
- Bod buddsoddiad sylweddol (tua £2m) yn y parlwr godro er mwyn addysgu pobl ifanc a ffermwyr lleol ynghylch technoleg y dyfodol.
- Bod cam dau o'r datblygiad yn cynnwys sefydlu canolfan laeth defaid, gan nodi y byddai'n gyntaf o'i fath yng Nghymru, gyda'r bwriad o annog twf sector sy'n ehangu mewn rhannau o Ewrop.
- Bod cam tri o'r datblygiad yn cynnwys datblygu hwb arloesi gwledig, gyda'r cais cynllunio ar fin cael ei gwblhau, a nodwyd y byddai'r ganolfan hon drws nesaf i'r coleg ac yn arbenigo mewn technoleg ar gyfer amaethyddiaeth y dyfodol.
- Bod y cynllun cyfan yn fuddsoddiad o dros £10 miliwn.

O ran denu buddsoddiad yn ehangach, nodwyd:-

- Bod y strategaeth economaidd yn ceisio nodi meysydd twf dros y blynyddoedd nesaf er mwyn creu sail i ddenu buddsoddiad.
- Bod datblygiadau megis parth deallusrwydd artiffisial yn debygol o gynyddu diddordeb cwmnïau i leoli yn yr ardal.
- Bod trafodaethau'n digwydd gyda nifer o gwmnïau sydd â diddordeb mewn lleoli eu hunain yng Ngwynedd.
- Bod angen sicrhau bod sgiliau ar gael yn lleol, a nodwyd y bwriad i weithio gyda cholegau er mwyn sicrhau bod digon o bobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer y meysydd hyn.

Holwyd ynghylch monitro a dylanwadu ar ansawdd swyddi o fewn cynlluniau grant, gan gyfeirio at ddisgwyliadau megis talu'r cyflog byw a hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnesau sy'n derbyn cefnogaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod amodau penodol yn cael eu gosod fel rhan o grantiau'r Cyngor, a nodwyd bod dau amod allweddol yn cynnwys talu'r cyflog byw a hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg. Nodwyd bod y rhain yn cael eu monitro tra bo'r rhaglen yn fyw, ond nodwyd nad oedd modd monitro ymhellach ar ôl i'r cyfnod grant (tua tair blynedd) ddod i ben. Nodwyd bod y grantiau yn darparu lefel o ddylanwad ar fusnesau, ond nodwyd bod ansicrwydd ynghylch parhad y cronfeydd ar ôl mis Mawrth.

Holwyd ynghylch digwyddiadau mawr a chymunedol ar draws y sir gan nodi bod rhai digwyddiadau wedi tyfu i'r fath raddau fel bod gofynion iechyd a diogelwch, trefniadau gweithredol a'r ddibyniaeth ar wirfoddolwyr yn ei gwneud hi'n anodd cynnal y digwyddiadau, er gwaethaf eu budd economaidd i ardaloedd lleol. Cwestiynwyd a oedd modd i'r adran gefnogi'r grwpiau sy'n trefnu'r digwyddiadau hyn ar draws y sir. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gwasanaeth wedi cydnabod pwysigrwydd digwyddiadau pan fyddant yn cael eu rheoli'n ddiogel.
- Bod swydd cydlynydd digwyddiadau wedi'i phenodi i gefnogi trefnwyr drwy'r broses o sicrhau trefniadau diogel, gan gynnwys cyfeirio at y grŵp diogelwch digwyddiadau lle bo angen.
- Bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) ar gael i gefnogi digwyddiadau ar draws y sir, a bod hyn hefyd yn rhoi dylanwad i hyrwyddo egwyddorion megis gwirfoddoli lleol, dwyieithrwydd, a thwristiaeth gynaliadwy.
- Bod ansicrwydd ynghylch cyllid ar ôl mis Mawrth, gan nodi nad oedd cyllideb fewnol y Cyngor i gefnogi digwyddiadau yn y tymor nesaf, ac y byddai'r sefyllfa'n dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU.
- Bod sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal i gefnogi trefnwyr, gan gynnwys sesiwn ar dywydd garw, a nodwyd y byddai sesiwn arall yn cael ei chynnal ar ddiogelwch mynydd a'r arfordir mewn partneriaeth â gwasanaethau achub.
- Bod trefnu digwyddiadau yn faes heriol gyda nifer o rwystrau, a bod y rôl cynghori yn bwysig i helpu trefnwyr i lywio'r gofynion a chysylltu â'r adrannau cywir, gan nodi bod grŵp traws-adrannol yn trafod digwyddiadau er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng budd a risg.

Nodwyd pryderon ynghylch effaith newidiadau i daliadau amaethyddol a'r goblygiadau i economïau pentrefi gwledig, gan gyfeirio at bwysau ar y diwydiant llaeth gan fewnforio rhyngwladol, ansicrwydd prisiau, a'r effaith ar fusnesau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth. Awgrymwyd i'r adran sefydlu grŵp tasg a gorffen yn y flwyddyn newydd i edrych ar y goblygiadau i Wynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod y pryderon yn cael eu codi'n rheolaidd gan undebau amaethyddol a bod y strategaeth economaidd yn adlewyrchu gwerth y sector i economi Gwynedd. Nodwyd parodrwydd i drafod ymhellach pa gamau y gall awdurdod lleol eu cymryd o fewn cyd-destun ffactorau masnachol rhyngwladol sydd y tu hwnt i reolaeth leol.

Pwysleisiwyd yr angen i gael hyfforddiant lleol i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth yn ymwneud â Wylfa, a nodwyd profiad personol o'r angen i deithio pell i hyfforddiant yn y gorffennol. Mewn ymateb, nodwyd bod canolfan arbenigol peirianneg ac adeiladu wedi'i ddatblygu yn Llangefni yn wreiddiol mewn cysylltiad â Wylfa a bod y cyfleuster yno i gefnogi hyfforddiant ar gyfer adeiladu a pheirianneg ar gyfer y sector niwclear. Nodwyd bod cyfarfod swyddogion ynghylch Wylfa wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol, ac y byddai'r pwyntiau am hyfforddiant lleol yn cael eu codi yn y trafodaethau hynny.

Holwyd am ddatblygiad 10 uned newydd ym Minffordd. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwaith adeiladu wedi dechrau a bod ymholiadau wedi'u derbyn, ond nad oedd cytundebau ffurfiol yn cael eu rhoi hyd nes y byddai'r gwaith adeiladu

wedi'i gwblhau. Nodwyd bod cysylltiad posibl hefyd rhwng Minffordd a'r parc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, a nodwyd y gallai'r ddau ddatblygiad greu cyfleoedd i fusnesau gyd-leoli. Nodwyd bod busnesau lleol yn parhau i chwilio am le ychwanegol ac nad oedd digon o safleoedd wedi bod ar gael yn hanesyddol yn yr ardal. Nodwyd gobaith y byddai'r unedau'n addas i ateb y galw.

Holwyd ynghylch y gwasanaeth morwrol ym Morfa Bychan, yn benodol y problemau parcio dros nos ar y traeth a'r ffaith nad oedd gan swyddogion y pwerau i orfodi. Cwestiynwyd a oedd posibilrwydd o gyflwyno is-ddeddf i reoli'r sefyllfa. Mewn ymateb, nodwyd bod y traeth ym Morfa Bychan ymhlith y prysuraf yn y sir, a nodwyd bod trefniadau wardeiniaid tymhorol yn helpu i leihau rhai o'r problemau dros gyfnod yr haf. Nodwyd bod diffyg pwerau gorfodi sylweddol yn parhau, ac nad oedd disgwyl y byddai'n realistig cyflwyno is-ddeddf yn y tymor byr gan fod y broses yn hir ac yn gymhleth. Nodwyd y byddai angen ystyried trefniadau eraill gan nodi nad oedd ateb hawdd, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf er bod y pwysau'n ddueddol o ostwng. Pwysleisiwyd bod buddsoddiad i wella'r isadeiledd a chynyddu capasiti ar y safle wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd er mwyn lleihau effaith ar y pentref. Ymhelaethwyd y byddai'r gwasanaeth yn adolygu'r opsiynau yn rheolaidd wrth baratoi ar gyfer y tymor nesaf.

Mynegwyd barn bod gwrthgyferbyniad rhwng y darlun demograffig sy'n dangos lleihad sylweddol a'r drafodaeth ar yr un pryd am niferoedd uchel o swyddi yn cael eu creu o fewn y sector adeiladu a pheirianneg. Mynegwyd pryder ynghylch posibilrwydd mewnlif gweithlu a'r effaith ar dai a chynllunio cymunedol. Cwestiynwyd a oedd y sir mewn sefyllfa i flaengynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn.

Mewn ymateb, nodwyd bod angen rhoi'r datblygiadau yn eu cyd-destun a nodwyd nad oedd cynlluniau ar raddfa Wylfa yn cael eu rhagweld yng Ngwynedd yn y blynyddoedd nesaf. Nodwyd bod y parc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, yn y camau cynnar, yn debygol o olygu niferoedd llawer llai o swyddi, gyda tharged mwy realistig yn y tymor byr yn ymwneud â chreu cyfleoedd i bobl leol yn wyneb gostyngiad disgwyliedig mewn gwaith dadgomisiynu dros amser. Nodwyd bod datblygiad canolfan ddata posibl yn cael ei ystyried, ond y byddai'r gwaith adeiladu dros gyfnod o tua chwe i wyth mlynedd yn hytrach nag ar unwaith. Pwysleisiwyd bod cynllunio'r gweithlu a'r sgiliau yn ffactor hanfodol ym mhob cynllun a na fyddai datblygiadau o'r fath yn ymarferol heblaw bod y gweithlu ar gael. Cadarnhawyd bod datblygiadau ar Ynys Môn yn debygol o gael effaith ar yr ardaloedd cyfagos, a bod hynny'n rhan o'r ystyriaeth ehangach.

Mynegwyd pryder ynghylch effaith penderfyniadau trethi diweddar ar fusnesau twristiaeth a lletygarwch, gan nodi enghreifftiau o gynnydd sylweddol mewn biliau treth a'r perygl o golli swyddi a chynnal cadwyn gyflenwi lleol, gan gynnwys cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd. Mewn ymateb, nodwyd bod y mater yn real ac yn effeithio ar fusnesau gwledig. Pwysleisiwyd mai'r hyn y gallai'r Cyngor ei wneud yn ymarferol oedd defnyddio'r dystiolaeth fel rhan o achos busnes clir dros becyn cefnogi mwy i fusnesau. Nodwyd bod grantiau busnes

yn dod i ben ac nad oedd sicrwydd o gyllid ar ôl mis Ebrill, a bod y cyfuniad o ddiwedd grantiau a phwysau trethi yn cryfhau'r ddadl dros geisio cronfa cefnogi busnesau yn y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Gofyn i'r Adran Economi a Chymuned roi grŵp at ei gilydd yn fuan yn y flwyddyn newydd i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant amaethyddol.**

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CYLLID

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid yr adroddiad, gan dynnu sylw at y dangosyddion coch ac ambr. Nodwyd bod un mesur o fewn y Gwasanaeth Incwm yn parhau yn y categori coch, sef balans gwerth dyledion amrywiol dros chwe mis oed ar ddiwedd Hydref 2025, a nodwyd bod y ffigwr ychydig o dan £3.2m. Ymhelaethwyd bod hyn yn gynnydd o £1.377m ers diwedd y mis blaenorol a bod £1.2m o'r cynnydd hwnnw yn deillio o ddyledion gan y Bwrdd Iechyd ac awdurdod lleol arall. Nodwyd bod dyled yr awdurdod lleol arall wedi deillio o gamgymeriad gweinyddol o fewn y Cyngor pan roddwyd rhif archeb anghywir ar anfoneb. Cadarnhawyd bod y mater hwn wedi'i ddatrys a bod y ddyled wedi'i thalu.

Nodwyd bod dyled y Bwrdd Iechyd yn parhau yn her a bod y gwasanaeth oedolion mewn trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd gyda'r gobaith y byddai'r ddyled yn gostwng. Tynnwyd sylw at fesurydd perfformiad 'Cyfradd casglu Treth Cyngor y flwyddyn gyfredol' y gwasanaeth casglu trethi a oedd yn adrodd yn ambr gan nodi bod y gwasanaeth wedi wynebu problemau sylweddol oherwydd niferoedd staff ar salwch tymor hir. Ymhelaethwyd bod y sefyllfa'n gwella a bod y gwasanaeth yn ymddangos fel pe bai wedi troi cornel ac yn dod yn ôl ar y trywydd iawn. Mynegwyd pryder bod cyfraddau casglu treth gyngor ac annomestig yn is yng Ngwynedd nag yn hanesyddol ac o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, ond nodwyd amheuaeth a oedd y ffordd yr oedd yr ystadegau'n cael eu hadrodd yn adlewyrchu'r darlun llawn. Nodwyd, o'r wybodaeth fewnol, bod cyfradd casglu sylfaenol y dreth gyngor yn weddol normal, ond nodwyd bod y diffygion yn ymwneud yn bennaf â chasglu'r premiwm treth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Pwysleisiwyd bod hyn yn gallu altro'r ffigurau ar y cyfan. Nodwyd y bwriad i edrych ar y mater dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf er mwyn rhoi darlun mwy cytbwys o'r sefyllfa.

Nodwyd, o ran y Cynllun Digidol, bod y gwaith yn symud ymlaen yn dda, ond nodwyd pryder penodol ynghylch y risgiau yn ymwneud â chostau trwyddedu meddalwedd, yn enwedig o ystyried y defnydd cynyddol disgwyliedig o ddeallusrwydd artiffisial. Nodwyd disgwyliad ehangach o fewn y sector technoleg gwybodaeth y gallai prisiau godi ar ôl i ddefnydd sefydlogi, a nodwyd bod hyn yn fater y byddai'r gwasanaeth yn cadw llygad barcud arno yn y dyfodol.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn fodlon gyda pherfformiad cyffredinol yr adran, er bod ychydig o heriau i'w gweld mewn rhai gwasanaethau. Pwysleisiwyd bod cynlluniau ar waith i ymdrin â'r heriau hynny gyda'r gobaith y byddai canlyniadau gwell yn dilyn yn fuan.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Holwyd ynghylch dyled y Bwrdd Iechyd. Cwestiynwyd a oedd y broblem yn deillio o wrthdaro ynghylch anfonebu neu gytundebau dyled, neu a oedd yn adlewyrchu prosesau gwael neu oedi talu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y broblem wedi bodoli ers blynyddoedd.
- Bod elfen o oedi yn gysylltiedig â systemau, ond hefyd bod mwyafrif y dyledion yn ymwneud â'r Gwasanaeth Oedolion.
- Bod anghytundeb yn codi'n rheolaidd ynghylch pwy ddylai dalu pa gyfran o ofal unigolyn.
- Bod rheolau a chontractau i bennu cyfraniadau'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ond bod trafodaethau ar y cyfraniadau hyn yn cyfrif am llawer o'r ddyled.
- Bod swyddogion o fewn yr Adran Cyllid a'r Gwasanaeth Oedolion yn gweithio i gynnal y berthynas ac i roi pwysau ar y Bwrdd Iechyd.
- Bod profiad ar draws y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru bod y Bwrdd Iechyd, ar adegau, yn talu'r awdurdod sy'n pwyso ar y diwrnod hwnnw, gan adael y gweddill yn aros.
- Bod trafodaethau ar lefel prif weithredwyr a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn digwydd i sicrhau bod y chwe awdurdod yn cydweithio'n agosach i roi pwysau cyson ar y Bwrdd Iechyd.

Holwyd a oedd gwir obaith y byddai'r ddyled yn gostwng o ystyried ei bod yn waeth nag mewn blynyddoedd blaenorol, neu a fyddai'n arwain at ddileu dyledion yn y pen draw. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod rhai dyledion yn agos at y trothwy lle gallent ddod o dan drefniadau statudol ar gyfer eu dileu oherwydd eu hoedran, a mai dyna pam yr oedd y gwasanaeth yn ceisio cadw'r dyledion yn fyw er mwyn osgoi'r sefyllfa honno.
- Bod hyn yn gallu bod yn rhwystredig gan y gallai'r trafodaethau ymddangos yn agos at ddatrysiad ac yna gallai'r sefyllfa lithro yn ôl.
- Bod risg sylweddol o orfod dileu rhywfaint o ddyled y Bwrdd Iechyd, ond hyd yn oed heb ddyled y Bwrdd Iechyd, bod cyfanswm y dyledion yn dal yn uwch na'r hyn a ddymunir.
- Bod tîm o swyddogion cefnogi Ffordd Gwynedd ac un swyddog arall yn gweithio ar wella trefniadau ac effeithiolrwydd casglu dyledion.
- Bod gobaith y byddai'r ddyled yn gostwng wrth i'r camau hyn ddod i rym.

Holwyd ynghylch defnydd deallusrwydd artiffisial ac a oedd cynllun gweithredu a phrotocol ar waith ar gyfer ei ddefnyddio o fewn y Cyngor, gan nodi'r posibilrwydd o ddefnyddio'r dechnoleg i ddarparu gwasanaethau'n

rhatach ac yn fwy effeithlon. Cwestiynwyd a yw'r Cyngor eisoes yn defnyddio deallusrwydd artiffisial ar gyfer tasgau megis llunio adroddiadau cymhleth, a nodwyd y dymuniad am reolaeth glir ar ei ddefnydd a chynllun i'w wreiddio yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod deallusrwydd artiffisial yn dod yn fwy sefydlog o fewn y Cynllun Digidol a bod prosiect penodol wedi'i sbarduno yn ystod y misoedd diwethaf.
- Bod y prosiect yn ceisio creu astudiaethau achos o'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial o fewn gwasanaethau'r Cyngor, gyda'r bwriad i ddatblygu'r achosion defnydd hynny yn y lle cyntaf ac yna cynnal gwaith manylach i sicrhau defnydd diogel a defnydd sy'n gwneud synnwyr busnes.
- Bod y gwaith yn cael ei gynnal ar y cyd â chwmni trydydd parti ac y disgwylid datblygu hyd at chwe astudiaeth achos.
- Bod defnydd cyfyngedig o ddeallusrwydd artiffisial eisoes yn digwydd, gyda nifer fach o swyddogion yn defnyddio Microsoft Copilot.
- Bod y gwasanaeth wedi bod yn ofalus yn y dechrau oherwydd amheuon ynghylch gallu'r meddalwedd gyda'r Gymraeg, ond nodwyd bod hynny bellach wedi gwella'n sylweddol.
- Bod swyddogion technegol wedi creu ambell i ddatrysiad i ddarllen a chategoreiddio e-byst er mwyn blaenoriaethu gwaith yn gyflymach.
- Bod ymchwil a phrofi yn parhau ond nad oedd y defnydd wedi'i ymestyn yn eang eto, gan nodi'r bwriad i symud ymlaen yn raddol.
- Bod y prosiect astudiaethau achos yn fwriadol i greu achos busnes ac i adnabod cyfleoedd arbedion posibl dros amser.
- Bod cyllid ychwanegol wedi'i glustnodi i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn cyn gwneud cais pellach am gyllid i'w ehangu.

Holwyd ynghylch llithriad mewn rhai prosiectau o fewn y Cynllun Digidol, a chwestiynwyd a oedd unrhyw brosiect yn peri mwy o bryder na'i gilydd, gan gynnwys enghraifft lle methwyd recriwtio i'r prosiect i arddangos y Cyngor fel cyflogwr digidol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y swydd Hyfforddai Trawsnewid Digidol wedi ei hysbysebu ddwywaith i geisio penodi swyddog ar lefel ôl-raddedig, ond nodwyd nad oedd y profiad angenrheidiol ar gael yn y farchnad ar y pryd.
- Bod y rhaglen brentisiaethau gradd yn parhau a bod y gwasanaeth bellach ar y seithfed prentis, a bod bwriad i fynd allan eto y flwyddyn ganlynol i geisio sicrhau'r adnodd penodol a fethwyd yn flaenorol.
- Mai'r prosiect a fyddai'n peri'r pryder mwyaf pe bai'n llithro yw'r system rheoli adnoddau dynol a chyflogau, gan nodi ei fod yn hanfodol i allu talu staff ac aelodau.
- Bod y system bresennol yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2026 a bod gwaith paratoi a chynllunio manwl eisoes wedi'i wneud.
- Bod llythyrau yn cael eu hanfon at ddarparwyr potensial a bod cyfnod tawelu wedyn cyn cadarnhau penodiad.
- Bod disgwyl gallu cadarnhau hynny cyn y Nadolig gyda'r bwriad i ddechrau gwaith gosod ar unwaith yn y flwyddyn newydd.

- Bod y cwmnïau a ystyriwyd yn gwmnïau profiadol sydd wedi gweithio gyda nifer o gynghorau, a mynegwyd hyder yn safon yr opsiynau a welwyd.

Cwestiynwyd ynghylch cyfradd cwblhau gwaith archwilio mewnol o fewn cynllun gwaith 2025-26, gan nodi bod 47 darn o waith o fewn y cynllun, gyda 16 wedi'u cwblhau erbyn 31 Hydref (34%). Holwyd a oedd hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ddisgwylir ar gyfer y cyfnod. Mewn ymateb, nodwyd bod proffil y cynllun yn wahanol gan fod llawer o'r gwaith yn gysylltiedig â chynghorau cymuned drwy gytundeb. Nodwyd bod misoedd cynnar y flwyddyn ariannol yn tueddu i ganolbwyntio ar y gwaith hwnnw cyn canolbwyntio wedyn ar waith Cyngor Gwynedd. Nodwyd felly nad yw'r gyfradd yn dilyn llinell syth drwy'r flwyddyn. Mynegwyd hyder y byddai'r cynllun yn cael ei gwblhau. Pwysleisiwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro'r gwaith.

Cwestiynwyd ynghylch carreg filltir oedd yn nodi y dylai'r Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr a Phennaeth Cyllid gyfarfod yn chwarterol i reoli effeithiau toriadau cyllidol cenedlaethol, gan nodi nad oedd hyn wedi digwydd yn hanner cyntaf y flwyddyn. Holwyd a oedd risg i'r Cyngor o ganlyniad. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd cred bod risg sylweddol, a nodwyd bod adroddiadau ar y sefyllfa'n parhau i gael eu cyflwyno. Ymhelaethwyd bod adroddiad wedi mynd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref, ac y byddai adroddiadau pellach yn mynd i'r ddau bwyllgor ym mis Ionawr. Nodwyd bod gwireddu'r cynlluniau arbedion dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn uchel o ran canran, er nad oedd bob amser wedi cyrraedd 100%. Pwysleisiwyd bod y gwaith ymarferol yn parhau yn y cefndir er mai dyhead oedd cynnal mwy o gyfarfodydd ffurfiol.

Holwyd ynghylch y newyddion diweddar ynghylch cyllido'r Cyngor, yn benodol a ellid rhoi amcangyfrif o sut y byddai'n newid y rhagolygon ariannol. Mewn ymateb, nodwyd bod angen ailystyried y sefyllfa ar ôl y cyhoeddiadau diweddar a bod pob adran wedi cael cais i ystyried pa arbedion fyddai'n bosibl. Nodwyd mai'r ddealltwriaeth oedd y gallai gweithredu'r newidiadau ym mis Ebrill 2027 fod yn fwy realistig na mis Ebrill 2026, oherwydd yr amser sydd ei angen i wireddu'r cynlluniau. Nodwyd y bwriad i gynnal gweithdai yn y flwyddyn newydd er mwyn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Aelodau. Pwysleisiwyd y byddai'r broses gosod cyllideb yn mynd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 5 Chwefror, i'r Cabinet ar 10 Chwefror, ac i'r Cyngor yn gynnar ym mis Mawrth. Nodwyd, o ran lefel cynnydd yn y dreth gyngor, bod angen gwneud mwy o waith cyn gallu rhoi ffigwr terfynol, ond nodwyd y posibilrwydd o fod o gwmpas tua 5% heb orfod gwneud toriadau sylweddol. Nodwyd, cyn y datganiadau diweddar, bod posibilrwydd y byddai angen edrych ar tua 12% heb wneud toriadau, ond bod y darlun bellach wedi gwella.

Pryderwyd bod llawer o ffermwyr yn cael hi'n anodd cyrraedd y trothwy 182 diwrnod ar gyfer eiddo hunanarlwyo er mwyn bod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig. Cydnabuwyd bod amryw o bobl wedi apelio yn ei erbyn, a chwestiynwyd pa mor llwyddiannus yw'r apeliadau hyn ac a oedd hyn yn

mynd i fod yn fwy o broblem yn y blynyddoedd nesaf. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y trothwy wedi newid yn ddiweddar, gan nodi bod y drefn flaenorol yn caniatáu newid i'r system ardrethi annomestig ar ôl gosod am 70 diwrnod y flwyddyn.
- Bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r trothwy i 182 diwrnod, gan olygu bod yn rhaid gosod am tua hanner blwyddyn er mwyn bod o fewn y drefn ardrethi annomestig; fel arall, byddai'r eiddo yn dychwelyd i drefniadau treth cyngor.
- Bod yr apeliadau cyntaf yn parhau ac mai drwy Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth y mae'r penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch pa restr sy'n berthnasol, ac felly nid penderfyniad i'r Cyngor yw hynny.
- Bod adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr ar eithriadau ychwanegol posibl.
- Cyfeiriad at bolisi o dan ddarpariaeth 13A a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd, gan nodi bod hynny'n caniatáu i'r Cyngor edrych ar eithriadau ychwanegol posibl y gallai'r Cyngor ddewis eu cyflwyno, gan ystyried y risgiau.
- Bod y gwaith yn derbyn sylw gan y gwasanaeth cyllid a'r gwasanaeth cyfreithiol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 3:30 yp

__________________________

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 12fed o Chwefror 2026 |
| **TEITL** | Budd y Cynllun TWF i Wynedd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Mater yn codi o graffu perfformiad |
| **AWDUR** | Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Uchelgais Gogledd Cymru |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mehefin 2025, wrth graffu adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, nodwyd pryder nad yw Gwynedd yn derbyn y budd disgwyliedig o'r Cynllun Twf sydd yn cael ei weithredu gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at gynlluniau penodol i Wynedd a oedd bellach wedi eu haddasu gan dynnu sylw'n benodol at gynllun amgen a oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer safle Trawsfynydd.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Pa fudd sydd wedi dod i Wynedd o ganlyniad i'r Cynllun Twf?
- Beth yw'r trefniadau ar gyfer blaenoriaethu prosiectau?
- Pa ffactorau sydd yn cael eu hystyried wrth flaenoriaethu prosiectau?
- Beth yw'r bwriad o ran cynllun amgen i safle Trawsfynydd?
- Beth yw'r weledigaeth ar gyfer yr hirdymor?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1. Dyma adroddiad blaen perfformiad ar gyfer Gynllun Twf Gogledd Cymru.

3.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

3.3. Mae'r adroddiad yn crynhoi uchafbwyntiau chwarter 2 (Mehefin i Medi 2025).

**3. Cefndir / Cyd-destun**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:

- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2
- Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2025

4.4. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ddau Achos Busnes. Yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect Llaeth Defaid Cymru (Hwb Economi Wledig Glynllifon) a'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch.

4.4.3. Cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd ddau gais am newid, un ar gyfer buddsoddiad Cynllun Twf pellach yn y prosiect Canolfan Peirianneg Opteg a Menter, ac un ar gyer newid cwmpas y prosiect Anturiaethau Cyfrifol.

4.4.4. Lansiwyd y Gronfa Ynni Glan ar y 10fed o Orffennaf gyda digwyddiad yn Ganolfan Peirianneg Grŵp Llandrillo Menai yn Rhyl.

4.4.5. Proseswyd y benthyciad cyntaf ar gyfer prosiect Cydnerth.

4.4.6. Cwblhawyd y Cytundeb Cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin, gyda'r caffael ar gyfer penodi prif gontractwr wedi cychwyn.

4.4.7. Llofnodwyd y contract Gwaith Lliniaru Ecolegol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a dechreuwyd y gwaith clirio safle cychwynnol ar gyfer adeiladu dwy ysgubor ystlumod.

4.4.8. Mae diweddariad Chwarter 2 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn goch ar ddiwedd y chwarter, ac yn cael ei adolygu. Y prosiectau sydd ar hyn o bryd yn adrodd yn goch yw:

- Hwb Hydrogen Caergybi – prosiect yn cael ei adolygu, gyda materion allweddol a risgiau yn parhau i gael ei datrys.
- Porth y Gorllewin – Prosiect yn cael ei adolygu, wrth aros am asesiad o'r adroddiad WELTaG Lite.
- Warren Hall – Prosiect yn cael ei adolygu, wrth aros i'r achos diogelwch maes awyr gael ei asesu a'i gytuno'n llawn.
- Porth Caergybi – Prosiect yn cael ei adolygu, gan fod angen cwblhau trafodaethau â defnyddiwr terfynol ardaloedd porthladd newydd cyn symud ymlaen.

4.5. Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2025

4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Roedd un newid i’r risgiau gweddilliol y chwarter hwn. Gostyngodd y risg gweddilliol ar gyfer 'Fforddiadwyedd’.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog yn gyffredinol yn ystod y chwarter diwethaf, mae’r proffil risg yn parhau yn uchel gyda pedwar o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys buddsoddiad sector breifat, amcanion gwariant, cynllunio a chaniatâd statudol, ac cyd-destun economaidd.

**5. Ymgynghori**

5.1. Mae’r Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarterol wedi ei gyflwyno i Fwrdd Portffolio, Uchelgais Gogledd Cymru ac yna ei gymeradwyo gan Is-Bwyllgor Lles Economaidd, Uchelgais Gogledd Cymru.

5.2. Derbyniwyd Sylwadau Swyddogion Statudol gan y Swyddog Monitro a’r Swyddog Cyllid Statudol ar yr Adroddiad.

5.3. Mae’r Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarterol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac pwyllgorau craffu awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1. Cwblheir Asesiad yn erbyn Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer pob prosiect fel rhan o ddatblygu'r Achosion Busnes.

6.2. Mae  Uchelgais Gogledd Cymru, drwy ei raglenni a'i brosiectau ynghyd â'r prosesau a roddwyd ar waith yn sicrhau bod y Cynllun Twf yn cyflawni effaith gadarnhaol yn erbyn y 7 nod llesiant.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.1. Cwblheir Asesiad Effaith Unigol ar gyfer pob prosiect fel rhan o ddatblygu'r Achos Busnes.

7.2. Bydd gan y Cynllun Twf effaith niwtral ar gydraddoldeb yn erbyn yr 11 nodwedd warchodedig. Mae'r holl raglenni a'r prosiectau yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau ranbarthol, ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl sydd o dan anfantais oherwydd rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran.

7.3. Bydd cyflawni rhaglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf yn cael effaith bositif ar y Gymraeg, gan fynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhanbarth.

## 8. Camau Nesaf

Bydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'r Is-Grŵp Lles Economaidd yn parhau i gydweithio efo partneriaid yn y rhanbarth a'r ddau Lywodraeth, er mwyn gweithredu'r portffolio o brosiectau fydd yn arwain at greu swyddi a twf cynhwysol. Bydd adroddiad chwarterol ar berfformiad yn cael ei baratoi i'r pwyllgor ei ystyried os yn dymuno.

**Atodiadau**

*Atodiad 1:* *Adroddiad Perfformiad Chwarter 2*
*Atodiad 2:* *Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2025*

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cynllun Twf Gogledd Cymru
# Adroddiad Perfformiad Chwarterol

2025-26 Chwarter 2
(Gorffennaf - Medi 2025)



# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| 02 | Dashfwrdd Cyflawni Prosiect | 4 |
| 03 | Dashfwrdd Buddion | 5 |
| 04 | Perfformiad y Rhaglen Cysylltedd Ddigidol | 6 |
| 05 | Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel | 8 |
| 06 | Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo | 10 |
| 07 | Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 13 |
| 08 | Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 15 |
| 09 | Olrhain Cynnydd y Prosiectau | 17 |
| 10 | Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 19 |
| | ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf | 20 |

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Y chwarter hwn, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ddau achos busnes. Yr Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer prosiect Llaeth Defaid Cymru Hwb Economi Wledig Glynllifon, a'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor ddau gais am newid, un ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn y Cynllun Twf ar gyfer prosiect y Ganolfan Peirianneg ac Opteg Menter, a'r llall ar gyfer newid cwmpas y prosiect ar gyfer Antur Gyfrifol. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor adroddiad i ymestyn cwmpas y Rhaglen Tir ac Eiddo i gynnwys prosiectau trafnidiaeth.

Lansiwyd y Gronfa Ynni Glân ar 10 Gorffennaf gyda digwyddiad yng Nghanolfan Peirianneg Grŵp Llandrillo Menai yn Y Rhyl. Mynychodd dros 90 o randdeiliaid y digwyddiad, gydag anerchiad gan Rebecca Evans, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae Mynegiadau o Ddiddordeb ar agor ar gyfer y gronfa, gyda gweithgareddau hyrwyddo ar y gweill.

Yn ystod mis Awst fe wnaethom lansio'r cyfle i ddau **Ymgynghorydd Anweithredol ar gyfer y Bwrdd Cynghori Busnes.** Aethom ati i chwilio am ddau arweinydd sector preifat i siapio dyfodol ein economi rhanbarthol drwy greu Bwrdd Ymgynghori Busnes newydd, cyfle prin i chwarae rhan amlwg yn nhwf y rhanbarth - gan helpu i sefydlu'r Bwrdd, recriwtio ei aelodau, a darparu'r arweinyddiaeth strategol fydd yn arwain buddsoddiad a datblygiad economaidd trawsnewidiol. Mae cyfweliadau wedi cael eu cynnal yn ystod mis Medi, gydag argymhelliad i'r penodiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llesiant Economaidd ym mis Hydref.

Fe wnaethom brosesu'r taliad cyllid cyntaf ar gyfer y prosiect Cydnerth. Fe wnaethom gwblhau'r Cytundeb Cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer **Parc Bryn Cegin, Bangor**, ac mae'r ymarferiad caffael i benodi prif gontractwr wedi'i lansio.

Mae'r contract Gwaith Lliniaru Ecolegol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros wedi'i lofnodi ac mae'r gwaith clirio safle cychwynnol ar gyfer adeiladu dwy ysgubor ystlumod wedi dechrau.

Mae'r Rhaglen Ddigidol wedi parhau gydag ymgysylltiad â'r farchnad ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch yn paratoi ar gyfer cwblhau dyluniad y cynllun grant. Mae'r caffael ar gyfer y pyrth LoRaWAN sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect LPWAN wedi'i gwblhau gyda phryniannau cychwynnol a gosod porth dilynol i fynd ymlaen yn gynnar yn y chwarter nesaf.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda phrosiectau rhestr wrth gefn, gyda'r nod o gyflwyno pedwar prosiect rhestr wrth gefn i'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ddechrau mis Hydref.

Yn ystod mis Gorffennaf fe wnaethom groesawu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i Ogledd Cymru. Mae cyfleoedd ar gael i drafod yr heriau a'r cyfleoedd yn y rhanbarth, ac ymweld â rhai safleoedd seilwaith allweddol yn cynnwys Porthladd Caergybi, Prosperity Parc a Pharc Cybi.
Roedd yn gyfle i ni dynnu sylw at y potensial sydd yn ein rhanbarth, heddiw ac yn y dyfodol.

Roedd gennym stondin yn Eisteddfod Wrecsam, oedd wedi'i lleoli ym Mhentref Wrecsam ar y maes. Roedd gennym gyfle i siarad gyda nifer o bobl ar ein stondin ddoe, gan gynnal gweithgareddau deniadol oedd yn hybu'r rhanbarth, ar gyfer plant.

Fe lansiom ymgyrch recriwtio i ddod â chapasiti ychwanegol i'r tîm. Mae Catherine Evans wedi dechrau yn ei swydd fel ein Rheolwr Ymgysylltu cyntaf yn y Rhaglen Ddigidol. Bydd y gwaith o recriwtio i'r rolau eraill yn parhau hyd ddiwedd y flwyddyn.



**Alwen Williams**

**Cyfarwyddwr Portffolio**
**Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 DASHFWRDD CYFLAWNI PROSIECTAU

| | Prosiectau Gweithredol (cyllid wedi neilltuo) | Wedi cymeradwyo ddim eto yn weithredol (cyllid wedi neilltuo) | Datblygu Achosion Busnes (cyllid wedi neilltuo) | O dan adolygiad (cyllid wedi glustnodi) | Rhestr wrth gefn (dim cyllid wedi glustnodi) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer prosiectau | 6 | 6 | 3 | 4 | 21 |
| Dyraniad Cyllid Cynllun Twf (£234.85*) | £55.84m | £51.52m | £14.93m | £61.95m | £50.61m |
| Cyfanswm Buddsoddiad | £127.46m | £160.43m | £35.01m | £312.59m | £359.36** |
| Swyddi | 836 | 461 | 1,048 | 1,268 | 920** |

** Nid yw'r cyllid Cynllun Twf sy'n cael ei ddangos yma yn cynnwys £5.15m sydd wedi'i ddyrannu tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio*

*** Mae'r ffigyrau yn cynrychioli cydbwysedd y targed sydd i'w gyflawni gan y prosiectau ar y Rhestr Wrth Gefn*

# 03 DASHFWRDD BUDDION

## Swyddi Grewyd (Targed 4,000 o swyddi newydd)

| Swyddi Newydd | Swyddi Adeiladwaith | Swyddi ddiogelwyd |
|---|---|---|
| 49 | 49 | TBC |

## Buddsoddiad (Targed: £1bn Cyfanswm Buddsoddiad)

| Buddsoddiad Cynllun Twf | Cyfanswm Buddsoddiad | Refeniw wedi sicrhau |
|---|---|---|
| £23,164,812.52 | £25,040,328.17 | £5,067,058.09 |

## Buddion ehangach

| Incwm Cyfalaf wedi'i Drosoleddu | Gofod Llawr wedi'i Ddatblygu | Unigolion wedi ymgysylltu |
|---|---|---|
| £81,016.80 | 2,349m² | 1,499 |
| **Camau gweithredu i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol** | **Myfyrwyr yn cwblhau cymhwysterau** | **Unigolion sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddi CPD** |
| 18 | 32 | 229 |

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r dasg o recriwtio Rheolwr Ymgysylltu cyntaf y prosiect 4G+ wedi'i gwblhau ac mae'r ail wedi dechrau yn ystod y chwarter hwn gyda phenodiad wedi'i wneud ar ddechrau mis Hydref. Gwasanaeth dylunio cynllun grant wedi'i ddatblygu - ymarferiad caffael ar y gweill ac i fod i'w gwblhau ym mis Hydref.<br>• Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r farchnad ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch wedi parhau, yn barod ar gyfer cwblhau'r dyluniad cynllun grant.<br>• Mae'r caffael ar gyfer y pyrth LoRaWAN sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect LPWAN wedi'i gwblhau gyda phryniannau cychwynnol a gosod porth dilynol i fynd ymlaen yn gynnar yn chwarter 3.<br>• Bellach, mae gan y Rhaglen Uwch Berchennog Cyfrifol newydd, Ian Jones, Prif Swyddog Economi a Chynllunio Dros Dro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. |



**Cyng. Nia Jeffreys**
**Aelod Arweiniol**



**Ian JonesDavid Fitzsimon**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Stuart Whitfield**
**Rheolwr Rhaglen**

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Mae 50% o'r gwariant ar gyfer cam olaf yr offer wedi'i gwblhau, gyda'r eitemau i ddod yn ddyledus erbyn mis Mawrth 2026. | • Cyflawni offer pellach.<br>• Lansio ymgysylltiad busnes rhanbarthol strwythuredig. | | • Cam olaf y prynu ar y gweill.<br>• Mae'r prosiect y tu ôl i'r targed o ran cael grantiau ychwanegol. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **4G+** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Caffael a dechrau dyluniad y cynllun grant.<br>• Recriwtio i rôl y Rheolwr Ymgysylltu. | • Recriwtio i rôl yr ail Reolwr Ymgysylltu.<br>• Cwblhau dyluniad y Cynllun Grant a lansiad y cynllun. | | • Mae'r gwaith o Recriwtio a dyluniad y Cynllun Grant ar y trywydd iawn.<br>• Mae'r gosodiad cychwynnol o seilwaith cell bychan wedi'i gwblhau a'r comisiynu am ddigwydd yn Chwarter 3, gydag ail weithrediad yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **Di-wifr Uwch** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cymeradwyo Achos Busnes Llawn | • Cwblhau dyluniad y Cynllun Grant.<br>• Recriwtio Rheolwr Prosiect a Rheolwr Ymgysylltu. | | • Recriwtio ar y gweill ar gyfer y rôl Rheolwr Ymgysylltu a recriwtio'r Rheolwr Prosiect wedi'i gynllunio ar gyfer Ch3. |
| | **LPWAN** | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Caffael pyrth LoRaWAN.<br>• Cynlluniau defnydd LoRaWAN terfynol i gael eu cyflwyno. | • Pryniannau cychwynnol a gosod pyrth.<br>• Cynlluniau defnydd LoRaWAN terfynol i gael eu cyflwyno. | | • Mae LPWAN yn bwrw ymlaen gyda chynllunio rhwydwaith a pharatoi'r caffael uwch a chyfalaf. |


# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL



## Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Cydnerth** - Cwblhawyd y benthyciad cyntaf ym mis Gorffennaf ac mae gwaith adeiladu ar y gweill.<br>• **Ynni Lleol Blaengar (Cronfa Ynni Glân)** - Lansiwyd y gronfa ar 10 Gorffennaf ac mae bellach ar agor i Ddatganiadau o Ddiddordeb. Digwyddiadau hyrwyddo parhaus ar y gweill. |



Cyng. Gary Pritchard
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Meghan Davies
Rheolwr Rhaglen

- Gwyrdd: Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Coch: Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Cwblhawyd y benthyciad cyntaf ym mis Gorffennaf<br>• Gwaith adeiladu ar y gweill<br>• Monitro buddion ar y gweill | • Taliad yr ail daliad cyllid wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref 2025. | | • Mae'r prosiect wedi symud i gyflawni ac mae'n mynd rhagddo'n dda. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Dilyniant gwaith dylunio cam 4 RIBA<br>• Datblygiad parhaus yr Achos Busnes Llawn | • Parhau i ddatblygu Achos Busnes Llawn.<br>• Cyflwyno gwaith dylunio cam 4 RIBA.<br>• | | • Mae'r prosiect yn ambr oherwydd oedi wrth aros am benderfyniad ar gyllid Porthladd Rhydd Llywodraeth y DU. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar yr Achos Busnes Llawn. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Cronfa wedi'i lansio ac ar agor ar gyfer Mynegi Diddordeb<br>• Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltiad<br>• Bwrw ceisiadau ymlaen draw i'r dyfarniad<br>• | • Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltu, gan gynnwys recordio podlediad.<br>• Dilyniant ceisiadau hyd at ddyfarnu. | | • Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo a'r gronfa wedi'i lansio. |
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Prosiect yn cael ei adolygu | • Trafodaeth barhaus rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn symud yn agosach at ganlyniad i sicrhau a throsglwyddo cronfeydd gwerth £4.8m Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.<br>• Ymateb ar ymgynghoriad cymorth-daliadau Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, Adran Trafnidiaeth i ddatgloi'r cytundeb cymeriant (*offtake*), byddant yn agor ar gyfer rownd ychwanegol o ymgynghori. | • Menter Môn yn parhau i ymgysylltu i ddenu cymeriant<br>• Cadarnhad posib gan DESNZ o ran £4.8m | | • Mae'r statws RAG yn parhau'n goch a materion allweddol sy'n parhau yn cynorthwyo gyda'r datrysiad: Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, Adran Trafnidiaeth; Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net £4.8m; |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

## Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
| --- | --- |
| | • **Parc Bryn Cegin, Bangor -** Datryswyd yr ymholiad dros gymorth cymhorthdal gan ganiatáu i'r Cytundeb Cyd-fenter gael ei gwblhau ddiwedd mis Awst a chaffael y prif gontractwr i ddechrau yn gynnar ym mis Medi.<br>• **Porth Wrecsam** – Cwblhawyd yr ymgynghoriad cyn cais a chyflwynwyd Cais Cynllunio Amlinellol hybrid ar gyfer y Prosiect ym mis Medi.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** – Dechreuodd adeiladu pecyn o waith lliniaru ecolegol ar y safle ym mis Gorffennaf ac mae'r rhain yn anelu at eu cwblhau ym mis Mawrth 2026. |



Cyng. Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

- Gwyrdd: Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Coch: Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Prosiect yn cael ei adolygu | • Mae adroddiad drafft WELTaG Lite wedi'i gyhoeddi gan WSP ac mae'r argymhellion drafft yn cael eu hystyried gan bartneriaid y Prosiectau. | • Bydd adroddiad terfynol WeLTAG Lite gan WSP yn cael ei gyhoeddi. | | • Mae'r sgôr goch yn adlewyrchu sefyllfa'r prosiect sy'n cael ei adolygu hyd nes y bydd adroddiad WELTaG Lite yn cael ei asesu a phenderfyniad y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar y prosiect yn mynd rhagddo. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Prosiect yn cael ei adolygu | • Rhannwyd adroddiad achos diogelwch Maes Awyr terfynol gydag Airbus UK. LlC a'u hymgynghorwyr i ddilyn i fyny gyda chyfarfod ag Airbus i gytuno ar y cynnwys a'r achos diogelwch ar gyfer datblygu ar Warren Hall. | • Airbus UK wedi cymeradwyo adroddiad ymgynghorydd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol. | | • Sgôr risg y prosiect yn goch, wrth aros i'r achos diogelwch maes awyr gael ei asesu a'i gytuno'n llawn gan Airbus UK. Y sgôr hefyd yn adlewyrchu'r amserlen cyflawni bresennol a'r ansicrwydd ynghylch cyflwyno buddiannau. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Mae'r trafodaethau ar gyfer y Gwaith Dymchwel ac Adfer Cam 1 rhwng y Cyngor a'u partner datblygu wedi parhau.<br>• Dechreuodd Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros adeiladu pecyn o Waith Lliniaru Ecolegol ym mis Gorffennaf ar ôl cwblhau'r Drwydded Ystlumod ar gyfer y safle gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. | • Cam 1 yn galluogi gwaith i ddechrau ym mis Hydref hyd at fis Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwaith dymchwel a chlirio ddechrau ym mis Ionawr 2026. | | • Mae'r sgôr risg yn parhau i fod yn ambr oherwydd y risgiau iechyd a diogelwch ar y safle oherwydd cyflwr yr adeiladau. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch costau oherwydd yr amgylchedd gwaith heriol a'r anhawster o asesu gwaith yn gywir. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • Cafwyd cytundeb ar y mater rheoli cymhorthdal.<br>• Y Cytundeb Cyd-fenter wedi'i gwblhau.<br>• Dechreuodd y broses dendro i benodi prif gontractwr. | • Gwahoddiad i Dendro i'w gwblhau ar ddiwedd mis Hydref a phrif gontractwr i'w benodi ym mis Rhagfyr. | | • Sgôr risg gwyrdd wedi'i gadw ar gyfer y prosiect gan ei fod ar yr amserlen ar gyfer dechrau ar y safle ar gyfer Mawrth/Ebrill 2026. Disgwylir o hyd i'r amserlen adeiladu fod yn 12 mis. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Prosiect yn cael ei adolygu | • Mae Stena wedi gofyn am oedi datblygiad y prosiect tra'n disgwyl am ganlyniad eu trafodaethau masnachol gyda'r sector ynni ar y môr. | • Ymgysylltu parhaus ar Lefel Uwch Reolwyr rhwng Stena/Uchelgais Gogledd Cymru/Cyngor Ynys Môn/Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i egluro bwriadau Stena. | | • Mae sgôr risg yn parhau i fod yn goch gan fod trafodaethau gyda defnyddwyr terfynol ardaloedd porthladd newydd i'w cwblhau cyn i'r prosiect fynd rhagddo. |
| **Porth Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cais Cynllunio Amlinellol Hybrid wedi'i gyflwyno gan y Tîm Ymgynghoriaeth ym mis Medi 2025.<br>• Cyflwynwyd ymholiad cyn-cais ym mis Gorffennaf 2025 a chwblhawyd yr ymgynghoriad ym mis Awst 2025.<br>• Tendr a gwerthusiad tîm proffesiynol gan y Cyngor i gynorthwyo i benodi partner datblygu a chyflawni'r prosiectau Achos Busnes Llawn sy'n mynd rhagddynt yn ystod mis Medi. | • Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol gan y Cyngor i ddechrau gyda phenodi ymgynghorydd.<br>• Cynnydd pellach ar sefydlu'r safle yn cael ei ragweld. | | • Mae'r sgôr risg yn wyrdd gan bod y prosiect yn mynd rhagddo i gam cais Achos Busnes Amlinellol/Cynllunio Amlinellol. Cynnydd cyson yn cael ei gynnal. |

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

## Nod y Rhaglen

Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn uchafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cyfleusterau cefnogol i sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau i ragori ac i fod gyda'r gorau yn y byd. Bydd y Rhaglen hefyd yn sicrhau ffyniant drwy fanteisio i'r eithaf mewn modd cynaliadwy ar ein hamgylchedd a'n tirwedd.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
| --- | --- |
| | • **Antur Gyfrifol -** Cyflwynodd tîm y prosiect Gais am Newid i'r Is-bwyllgor ym mis Gorffennaf i amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y gofynion a osodwyd yn y cam Achos Busnes Amlinellol, dileu'r elfen eFws, y llwybr cyflawni ar gyfer yr Achos Busnes, a chynnig cychwynnol ar gyfer cysyniad amnewid posib i'w ddatblygu a'i gyflwyno mewn mwy o fanylder yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cymeradwywyd yr holl argymhellion gan y Bwrdd.<br>• **Rhwydwaith Talent Twristiaeth -** Mae dilyniant y gwaith adeiladu yn parhau ar safle Portmeirion. Mae Zip World wedi profi ychydig o oedi oherwydd gwaith uwchraddio sydd ei angen ar y cyflenwad trydan ar gyfer y safle. Mae Theatr Clwyd bron â chwblhau'r gwaith adeiladu.<br>• **Hwb Economi Wledig Glynllifon -** Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru wedi'i gymeradwyo gyda'r Is-bwyllgor wedi dirprwyo awdurdod. Mae caffael ar gyfer yr elfen hon yn agosáu at ei gwblhau, gan nodi cam allweddol ymlaen wrth gyflawni'r prosiect. |



**Cyng. Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**



**Sioned Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Elliw Hughes**
**Rheolwr Rhaglen**

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hwb Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd | • BJC Llaeth Defaid Cymru wedi'i gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd.<br>• Caffael ar gyfer prif adeilad Llaeth Defaid Cymru wedi'i gwblhau.<br>• Ymatebion a dderbyniwyd ar ITTs ac ymarfer peirianneg cost ar y gweill.<br>• Cynllunio a chaniatâd ar gyfer Llaeth Defaid Cymru wedi'u cwblhau. | • Llofnodwyd Cytundeb Ariannu ar gyfer Llaeth Defaid Cymru.<br>• Costau prosiect wedi'u terfynu.<br>• Achos Cyfiawnhad Busnes drafft Datblygu Llaeth.<br>• Cynllunio ar gyfer cyflwyno'r Hwb.<br>• Achos Busnes llawn ar gyfer y prosiect cyfan.<br>• Hawliad Cyntaf i'w gyflwyno. | | Sgôr ambr oherwydd cymeradwyaeth cais am newid prosiect a'r prif risgiau a nodwyd:<br>• Cynllunio ar gyfer yr Hwb<br>• Oedi yn y broses gaffael<br>• Goblygiadau ariannol costau cynyddol<br>• Amserlenni |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Mae hawliadau'n parhau ar y trywydd iawn. 7 o Hawliadau wedi'u hawdurdodi.<br>• Gwaith adeiladu'n datblygu'n dda ym Mhortmeirion<br>• Trafodaethau is-ganolfannau terfynol yn mynd rhagddo<br>• Lansiad meddal brandio Academi Croeso | • Llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>• Llofnodi Cytundeb Cyllido cefn-wrth-gefn gyda Zip World<br>• Lansiad Swyddogol Academi Croeso yn Theatr Clwyd. | | Sgôr ambr yn sgil nodi'r prif risgiau a ganlyn:<br>• Cytundeb cefn-wrth-gefn heb eu llofnodi gyda'r sbocsen arall.<br>• Cynnydd araf gyda'r sbocsen newydd. |
| **Anturiaethau Cyfrifol**<br>ZipWorld | Datblygu'r Achos Busnes Llawn. | • Cyflwyno Asesiad Effaith Treftadaeth i Gyngor Gwynedd / CADW<br>• Tynnu'r rhwydwaith eFws o'r prosiect<br>• Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid<br>• Paratoi dogfennau Cais am Newid<br>• Caewyd yr ymarferiad caffael ar gyfer dyluniad y Siglen. | • Cais am newid ar gyfer Uwchgynllun Forest World<br>• Caniatâd cynllunio ar gyfer y Siglen<br>• Diweddariad ar y llwybr caffael<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid ymhellach | | Sgôr ambr oherwydd y risgiau canlynol:<br>• Newid yng nghwmpas y prosiect<br>• Heriau caniatâd cynllunio<br>• Oedi gyda'r amserlenni |

# 07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

## Nod y Rhaglen

Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae prosiect y Ganolfan Peirianneg ac Opteg Menter yn agosáu at ei gwblhau. Mae adeilad newydd Plas Coch wedi'i enwi'n swyddogol fel CanfodAU. Mae caffael yr eitemau offer sy'n weddill yn parhau. Cymeradwywyd cyllid ychwanegol i alluogi cynnig gwell a lleihau oedi amser.<br>• Mae'r prosiect **Canolfan Biodechnoleg Amgylcheddol** yn dilyn yr amserlenni arfaethedig, gyda'r cyfleusterau labordy yn Henfaes bellach wedi'u hadnewyddu'n llawn, ond mae offer arall heb gyrraedd hyd yma. Mae tanwariant wedi'i nodi ac ymweliad safle wedi'i gynnal i drafod cyfleoedd. |



Cyng. David Hughes
Aelod Arweiniol



Tony Ward
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

- Gwyrdd: Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Coch: Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Wrecsam | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Mae enw swyddogol adeilad Plas Coch wedi'i ddatgelu fel CanfodAU.<br>• Digwyddiad ar y cyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol i hyrwyddo'r prosiect.<br>• Cymeradwyaeth a roddwyd i gais newid sy'n canolbwyntio ar Optic am arian ychwanegol.<br>• Dymchwel adeilad yn safle Plas Coch i gael tystysgrifau adeilad terfynol ar gyfer yr adeilad EEOC.<br>• Cyfnod dylunio terfynol ar gyfer adnewyddu OpTIC.<br>• Cyflwyno cais cynllunio labordy hydrogen | • Cwblhau'r adroddiad arfarnu ar gyfer offer Plas Coch.<br>• Cymeradwyo'r Cynllun Cyfiawnhad Busnes ar gyfer offer Plas Coch.<br>• Cymeradwyo cynllunio labordy hydrogen.<br>• Caffael ar gyfer y labordy hydrogen<br>• Caffael ar gyfer offer optig.<br>• Dechrau adnewyddu Optic. | | • Prosiect yn cael ei gyflwyno ac ar y trywydd iawn<br>• Dim materion arwyddocaol yn y prosiect, prosiect yn bwrw ymlaen yn dda. Peth oedi gyda'r prosiect yn sgil cwblhau'r caffael/contract yn derfynol |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Prosiect yn cael ei gyflwyno | • Ymweliad safle â Henfaes i weld gwaith adnewyddu labordai ac offer yn llawn.<br>• Trafod opsiynau ar gyfer y tanwariant a nodwyd ar gyfer y prosiect - mae hyn oherwydd costau is na'r disgwyl a llinell gyllideb wrth gefn. | • Gweithgarwch caffael i gloi ar gyfer eitemau.<br>• Cais am newid ar gyfer y tanwario sydd wedi'i nodi.<br>• Ymweliad Safle: | | • Prosiect yn nesáu at gwblhau'r cam cyflawni.<br>• Tanwariant wedi'i adnabod yn y prosiect a allai effeithio ar broffil yr hawliad. |

# 08 OL-RHAIN CYNNYDD Y PROSIECTAU

| Prosiect | | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllunio llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | 4G+ | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | |
| Campysau Cysylltiedig | LPWAN | Dim angen caniatâd | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | |
| | Do-wifr uwch | Dim gofynion caniatâd ar lefel y cynllun grant | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | ◷ | |
| Cydnerth (Morlais) | | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | |
| Egni | | ✓ | ✓ | ◷ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | | Dim gofynion caniatâd ar lefel y gronfa | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Hwb Hydrogen Caergybi | | ✓ | ✓ | ◷ | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | | ◷ | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | | ◷ | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | | ✓ | ✓ | ◷ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | |
| Porth Wrecsam | | ◷ | | | | ✓ | ✓ | ◷ | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | | ◷ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Anturiaethau Cyfrifol | | ◷ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | ✓ | ✓ | ✓ | ◷ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

# 09 TRACIWR AMCANION – TROSOLWG O GYFLAWNI

| | | | Targedau Achos Fusnes Portffolio 2024 | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd | | | Gwir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/ FBC** | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | | 33 | 2.96 | FBC | 40 | 2.96 | 25 | 2.15 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | 4G+ | 82 | 10.04 | FBC | 29 | £10.15 | 0 | 0.05 |
| | Campysau Cysylltiedig | LPWAN | 20 | 39.04 | BJC | 20 | 1.14 | 0 | 0 |
| | | Di-wifr Uwch | 165 | | OBC | 200 | 37.6 | 0 | 0 |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | | 233 | 13.87 | FBC | 230 | 13.8 | 5 | 5.36 |
| | Egni | | 49 | 3.94 | OBC | 49 | 3.94 | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | | 177 | 102.00 | FBC | 193 | 70 | 2 | 0.13 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | | 20 | 28.77 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | | 360 | 43.36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | | 445 | 69.76 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | | 70 | 94.70 | FBC | 70 | 74.34 | 0 | 0 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | | 47 | 6.62 | FBC | 54 | 17.91 | 0 | 0 |
| | Porth Caergybi | | 647 | 170.70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Wrecsam | | 150 | 14.37 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | | 92 | 16.79 | BJC (rhannol)) | 106 | 19.29 | 0 | 0 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | 68 | 19.03 | FBC | 68 | 19.03 | 0 | 3.0 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | | 175 | 12.40 | OBC | 290 | 16.7 | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithygynhyrchu Uwch | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | 78 | 18.12 | FBC | 90 | 18.12 | 2 | 10.74 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | 65 | 3.46 | BJC | 180 | 3.46 | 8 | 1.48 |
| Cyfanswm Portffolio Cynllun Twf | | | | 5.15 | | | 5.15 | 7 | 2.18 |
| Growth Deal Portfolio Total | | | Targedau | | 2 OBC 12 FBC | Wedi gymeradwyo | | Cyflawni | |
| | | | 3,576 | 1,123 | | 1,619 | 313.59 | 49 | 25.54 |

*Cyfanswm buddsoddiad a ddengys yma yn cynnwys costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio ond nid y rhestr prosiectau wrth gefn
**OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn
***Mae'r data yn cynnwys gwybodaeth gymeradwy OBC ac FBC.

# 12 PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF: PROFFIL DYRANIAD CYLLID CYFALAF

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 25/26 (£m) | YTD Gwirioneddol | Amrywiad(£m)* | Rhesymeg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Yn aros am yr hawliad terfynol ar gyfer y prosiect DSP, achosion busnes y safleoedd Cysylltiedig Allweddol a Choridorau a Champysau Cysylltiedig wedi'u cymeradwyo, a byddant yn dechrau hawlio yn ystod y flwyddyn. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.98 | 0.00 | -0.98 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.80 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 4.43 | 5.36 | 0.93 | Mae'r cais am arian benthyciad cyntaf ar gyfer y prosiect Cydnerth wedi'i brosesu. Lansiwyd y prosiect Ynni Lleol Blaengar yn mis ac wedi cychwyn gwario. |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 1.97 | 0.00 | -1.97 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Uchelgais Gogledd Cymru | 3.00 | 0.13 | -2.87 | |
| Tir ac Eiddo | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Uchelgais Gogledd Cymru | 3.47 | 0.00 | -3.47 | Bydd Prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru a Pharc Bryn Cegin yn symud i'r cam cyflawni ac yn dechrau hawlio yn 2025/26. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Uchelgais Gogledd Cymru | 3.93 | 0.00 | -3.93 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Mae'r BJC Llaeth Defaid Cymru wedi'i gymeradwyo. Mae'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth wedi dechrau hawlio. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 2.85 | 0.62 | -2.23 | |
| | Anturiaethau Gyfrifol | Zip World | 2.30 | 0.00 | -2.30 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 4.28 | 0.93 | -3.35 | Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer EEOC a phrosiect CEB. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.25 | 0.39 | 0.14 | |
| | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1.35** | **0.41** | **-0.94** | |
| | | **Cyfanswm** | **29.61** | **7.84** | **-21.77** | |

* Proffil 2025/26 - Wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd
** Ddim ond yn cynnwys prosiectau sydd wedi'u proffilio neu y mae disgwyl iddynt wario yn ystod y flwyddyn ariannol

# ATODIAD A – CRYNODEB O BROSIECTAU'R CYNLLUN TWF

| | | | |
|---|---|---|---|
| idol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn gyda'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawfi 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffibroptic sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit. |
| | Campysau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| | Egni | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd. |
| | Ynni Lleol Blaengar | Uchelgais Gogledd Cymru | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | Bydd y prosiect yn adeiladu cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynhyrchu oddeutu 2000+kg/y dydd o hydrogen gwyrdd, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru. |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Uchelgais Gogledd Cymru | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Uchelgais Gogledd Cymru | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg. |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol Porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad cynaliadwy o ardal fywiog wedi'i hadfywio, sy'n creu canolbwynt i gefnogi buddsoddiad busnes a hwb trafnidiaeth aml-ddull gyda chysylltiadau at deithio llesol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | Prosiect aml-elfen fel rhan o becyn twristiaeth gynaliadwy ac eco-dwristiaeth gan gynnwys Car Cebl newydd a chynaliadwy, Slate Explorer gan gynnwys platfform gwylio i ymwelwyr a Rhwydwaith eFws. |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

# ATODIAD B – CRYNODEB O BROSIECTAU WRTH GEFN

| Prosiect | Noddwr | Crynodeb |
|---|---|---|
| Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | Darparu 2,200 metr sgwâr o ofod busnes yng ngogledd Ynys Môn gan greu o leiaf 59 o swyddi a throsoli twf y Porthladd Rhydd ac ynni carbon isel. |
| Safleoedd Porth Peboc | Cyngor Sir Ynys Môn | Datgloi 6,750 metr sgwâr o ofod busnes yn Llangefni, gan greu o leiaf 186 o swyddi a gwneud y mwyaf o fanteision Porthladd Rhydd Ynys Môn. |
| Venue Cymru | Cyngor Bwrdeistrefol Conwy | Prosiect a fydd yn ehangu cyfleusterau Venue Cymru, yn rhoi hwb i swyddi, yn torri carbon, ac yn denu sioeau a chynadleddau mawr a buddsoddiad diwylliannol. |
| Prosiect Prince Knauf | Knauf | Adeiladu ffatri gwlân mwynol 110kt gyda ffwrnais arc tanddwr (SAF), yn bennaf i wasanaethu marchnadoedd y DU ac Iwerddon. |
| Society 5.0 - Prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu | Prifysgol Wrecsam | Gwella'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter a galluogi i'r diwydiant gael mynediad at ragor o adnoddau peirianneg hynod-fanwl o'r radd flaenaf. |
| Porthladd Mostyn | The Port of Mostyn Ltd | Uwchraddio'r angorfa ac adfywio'r hen safle diwydiannol. |
| Cronfa Eiddo | Uchelgais Gogledd Cymru | Grant Datblygu Eiddo Masnachol i gau bylchau hyfywedd ar gyfer datblygwyr eiddo diwydiannol a swyddfeydd o'r sector preifat, gyda chyllid hefyd ar gael ar gyfer datblygiadau tebyg yn y sector cyhoeddus ar sail Cytundeb Cyd-fenter. |
| Porth Busnes | Prifysgol Wrecsam | Pontio rhwng Prifysgol Wrecsam a diwydiant lleol, gan feithrin cydweithio, arloesi, creu swyddi a thwf economaidd cynhwysol. |
| Parc Bryn Cegin Gwedd 2 | Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygiad ychwanegol o 20,000 sq ft o unedau cyflogaeth ym Mharc Bryn Cegin. |
| Cronfa Arloesi a Thwf | Uchelgais Gogledd Cymru | Cefnogi busnesau'r Gogledd ym maes bwyd-amaeth, twristiaeth, a gweithgynhyrchu gwerth uchel i hybu arloesedd, mabwysiadu technoleg newydd, a thyfu cystadleurwydd rhanbarthol. |
| Ysgol Fusnes Albert Gubay | Prifysgol Bangor | Adeiladu Ysgol Fusnes Albert Gubay ym Mhrifysgol Bangor. |
| Padeswood | Llywidraeth Cymru | Uwchraddio seilwaith rheilffordd Gwaith Sment Padeswood gyda'r nod o wella effeithlonrwydd gweithredol, lleihau costau, a galluogi gwasanaethau teithwyr a nwyddau amlach ar linell Wrecsam-Lerpwl. |
| Adventure Parc Snowdonia | Global Shred Ventures | Darparu profiad newydd i ymwelwyr o arwyddocâd cenedlaethol ar safle hen gyfleuster Adventure Parc Snowdonia. |
| Datblygiad Gwesty Queen's Market | Cyngor Sir Ddinbych | Darparu gwesty canolig o ran maint a graddfa - rhan allweddol o uwchgynllun ehangach sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer yr ardal ar hyn o bryd. |
| Parc Busnes Llanelwy - Llety Symud Ymlaen | Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu unedau diwydiannol uwch-dechnoleg ym Mharc Busnes Llanelwy. |
| Hwb Iechyd Bangor | Cyngor Gwynedd | Datblygu Hwb Iechyd a Lles integredig mewn hen ganolfan siopa wag yng nghanol dinas Bangor. |
| Quarry Battery | Quarry Battery Co. | Cynllun hybrid BESS/Hydro Storfa Bwmpio gwerth £300m yng ngogledd Cymru. |
| Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam | Mynd i'r afael â hyfywedd a chefnogi cyflawni prosiect Porth Wrecsam sy'n esblygu. |
| Trawsfynydd | Cwmni Egino / Cyngor Gwynedd | Cynllun a fydd yn cynnwys adeilad i gynnwys mannau ar gyfer swyddfeydd, labordai (union fanyleb i'w chadarnhau) a chyfleusterau ategol (lle cyfarfod, caffi/ffreutur ac ati), i gefnogi'r diwydiant niwclear ac ynni carbon isel ynghyd â'r gymuned wyddonol, wedi'i leoli ar Safle Trawsfynydd. |
| New-H2 | Wales and West Utilities | Bydd y prosiect hwn yn helpu i roi hwb i'r economi hydrogen yn y Gogledd drwy gefnogi a darparu hwb hydrogen i gynnwys cyflenwi a defnyddio hydrogen. |
| Stiwdio Kinmel | Roger Morris | Prosiect i gefnogi'r diwydiant ffilm a theledu yng Ngogledd Cymru. |

## COFRESTR RISG PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R003 | 21.10.2020 | Ariannol | Fforddiadwyedd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os bydd costau'r prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau.<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect ac fe ystyrir opsiynau ariannu amgen.<br><br>PMO yn ymgysylltu gyda noddwyr ar lefel prosiect i adnabod ffyrdd o liniaru'r cynnydd mewn costau.<br><br>Mae cyflwyno prosiectau newydd yn cyflwyno potensial pellach ar gyfer risg fforddiadwyedd, i gael ei reoli drwy ddatblygiad achos busnes. | N/A<br><br>Misol<br><br>N/A<br><br>Misol<br><br>N/A | PMO, Ariannwr y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ▼ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae'r rish sgôr weddilliol yn parhau yn uchel gan fod costau wedi cynnyddu yn sylweddol ers i'r Cynllun Twf gael ei gytuno nol yn Rhagfyr 2020. Er fod costau wedi sefydlogi am y tro, mae'r cyllid Cynllun Twf gan y llywodraeth wedi'i osod ar y swm y cytunwyd arno yn 2020, felly mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn her. Mae hyn yn cael ei reoli ar sail prosiect gyda rhai prosiectau yn gallu edrych ar newidiadau dylunio, newidiadau i fodelau dosbarthu ac eraill angen sicrhau cyllid ychwanegol o ffynhonellau eraill. | 24/06/2025 |
| R002 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Oediad | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes oedi i gyflawni prosiectau, mae yna risg y gallai hyn gael effaith ar wireddu buddion neu gallai olygu bod prosiectau ddim yn symud ymlaen. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Ailddyrannu capasiti staff yn rheolaidd i brosiectau blaenoriaeth<br><br>Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd.<br><br>Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion gyda mesurau lliniaru yn cael ei rheoli ar lefel prosiect.<br><br>Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru. Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn gweithio gyda arianwyr ar gyfer adnabod cyfleon i leihau oedi ac pan nad oes modd osgoi oedi lleihau yr effaith.<br><br>Adroddiadau Chwarterol i'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd a'r Bwrdd Portffolio i gyflwyno materion penodol lle bo angen.<br><br>PMO yn gweithio gyda arianwyr prosiectau i adnabod cyfleoedd i leihau oedi ac lle nad oes modd osgoi oedi i leihau yr effaith. | Parhaus<br><br>Misol<br><br>amherthnasol<br><br>Chwarterol<br><br>Mewn lle<br><br>Mewn lle | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO, Ariannwr y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO, Ariannwr y Prosiect | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newid i'r sgôr risg gweddilliol, er hynny mae lleihau oedi yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y PMO. Bydd lliniaru'r risg capasiti (R001) yn cyfrannu tuag at liniaru, er hynny mae cynnydd yn cael ei effeithio gan noddwyr prosiectau.<br><br>Mae cymeradwyo OBC ac FBC wedi mynd i'r afael â rhai oedi. Defnyddio adnoddau PMO yn fwy hyblyg wedi profi i fod yn effeithiol i gyflymu datblygiad achosion busnes. Bydd tebygolrwydd risg yn lleihau ymhellach os bydd cynnydd yn cael ei gynnal.<br><br>Mae nifer o brosiectau yn profi oedi a fydd yn effeithio ar amseriad gwireddu buddion.<br><br>Mae tynnu prosiectau sydd wedi cael oedi o'r Portffolio yn adlewyrchu lleihad y risg o 4 i 3.<br><br>Mae y broses dewis prosiectau newydd wedi blaenoriaethu cyflawnadwyedd ac risg isel o oedi. | 24/06/2025 |
| R009 | 21.10.2020 | Rheoleiddio | Caniatâd Cynllunio a Statudol | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect<br><br>Rôl arweiniol yn y PMO ar gyfer cynllunio<br><br>Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau ac awdurdodau caniatâd i ddeall y broses caniatad a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol<br><br>Adolygiad gwersi a ddysgwyd i'w gyflawni ar ôl oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect<br><br>Y Cadeirydd ac/neu Cyfarwyddwr Portffolio i ysgrifennu i'r awdurdodau caniatau i amlygu'r effaith o oedi mewn penderfyniadau pan mae risgiau unigolo prosiect yn cael ei uchafu.<br><br>Cyfeirio nol i'r SRO Rhaglen i adolygu i adolygu'r risg/mater o ran caniatâd Ffosffad sy'n effeithio ar brosiectau lluosog er mwyn cynnig lliniaru priodol.<br><br>Ar gyfer prosiectau rhestr wrth gefn, mae meini prawf cynllunio wedi'u gosod cyn cyflwyno achos busnes, h.y. dim ymrwymiad i gyllid nes bod yr achos busnes wedi'i gymeradwyo. | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>Fel bo'r angen<br><br>N/A<br><br>N/A | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br><br>Cyfarwyddwr Portffolio<br><br>SRO Rhaglen<br><br>PMO | 5 | 5 | 25 | ↔ | Agored | Risg wedi adolygu. Mae'r broses o uwchraddio gweithfeydd trin dŵr i liniaru ffosffadau o'u gollyngiadau yn cymryd mwy o amser ac mae hyn bellach yn effeithio ar geisiadau cynllunio. Nid oes unrhyw brosiectau'r Cynllun Twf wedi'u heffeithio eto ond mae cais amlinellol wedi'i gyflwyno ar gyfer Porth Wrecsam. Mae risg sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â SUDS/SABs a allai effeithio ar ganiatâd. Mae caniatâd yn parhau i fod yn risg uchel ac mae'n cael ei reoli ar lefel rhaglen a phrosiect o fewn y Cynllun Twf. | 24/06/2025 |
| R007 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Preifat | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br><br>Mae strategaeth buddsoddiad mewn lle i gefnogi'r PMO i ymgysylltu ac diogelu buddsoddiad sector breifat | N/A<br><br>N/A<br><br>Mewn lle | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Lleihau risg gweddilliol. Mae diogelu buddsoddiad sector breifat ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae'r safbwynt wedi gwella gyda creu y rhestr wrth gefn. Mae'r risg hefyd yn gysylltiedig gyda R020 Rheoli Cymhorthdal | 24/06/2025 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R008 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Mae holl bartneriaid Uchelgais Gogledd Cymru wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu.<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br><br>Cefnogi noddwyr prosiect gyda ceisiadau am arian cyhoeddus lle'n briodol | Wedi cwblhau<br><br>N/A<br><br>Yn ôl yr angen | BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Risg wedi ei adolygu, dim newid i'r sgô risg gros neu gweddilliol. Nifer o Achosion Busnes Llawn dan arweiniad y sector gyhoeddus gael ei cymeradwyo.<br><br>Mae'r risg hefyd yn gysylltiedig gyda R020 Rheoli Cymhorthdal | 24/06/2025 |
| R010 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Amcanion Gwariant | Cyfarwyddwr Portffolio | Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad. | 4 | 4 | 16 | ▼ | Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio<br><br>Cytundebau Ariannu Grant i ymrwymo noddwyr yn gytundebol i gyflawni amcanion gwariant, gyda adrodd rheolaidd a monitro i sicrhau bod mewnbwn buan os oes angen.<br><br>Proses adolygu portfolio a rheoli newid yn ei lle.<br><br>Proses prosiectau newydd wedi ei gwblhau ar gychwyn 2025 gyda rhestr wrth gefn o brosiectau yn cael ei greu (cyfanswm o 21 prosiect - 17 o brosiectau newydd ac prosiectau pellach wedi symud i'r rhestr).<br><br>Mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu a chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. | N/A<br><br>Parhaus<br><br>N/A<br><br>Wedi gwblhau<br><br>Yn ei le | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Sgôr risg gros a gweddilliol wedi lleihau.Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Achos Busnes Portffolio a gyflwynwyd i'r ddwy lywodraeth ym mis Tachwedd 2024 yn dangos sut y gall y Cynllun Twf barhau i gyflawni'r targedau hyn, ond mae'r arian wrth gefn bellach wedi lleihau felly mae'r risg weddilliol yn parhau'n uchel.<br><br>Gwahoddiad i brosiectau newydd gymryd lle'r rhai a dynnwyd yn ôl gyda'r bwriad o liniaru effaith. Dim newid nes bod yr achos busnes wedi'i gymeradwyo / ei gyflwyno.<br><br>Risg i'w adolygu yn dilyn diweddaru Achos Busnes Portffolio 2025 | 24/06/2025 |
| R015 | 22.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Gwireddu Buddion | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion.<br><br>Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion<br><br>Egwyddorion Caffael wedi'u mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol<br><br>Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau<br><br>System Impact wedi ei lansio a thimau prosiect wedi hyfforddi. | N/A<br><br>Misol<br><br>Wedi cwblhau<br><br>N/A<br><br>N/A | PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Amlygodd adolygiad sicrwydd diweddar waith y PMO ar wireddu buddion fel arfer da a fydd yn sicrhau bod y strwythurau a'r systemau yn eu lle i helpu prosiectau i wireddu ac adrodd ar wireddu buddion.<br><br>Cyfnod gwireddu buddion yn parhau i leihau, er hynny mae'r pwyslais ar gyflawni ar gyfer prosiectau rhestr wrth gefn yn lleihau y risg (weler R002) | 24/06/2025 |
| R001 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Uchelgais Gogledd Cymru wedi cymeradwyo cyllideb refeniw i ymestyn contractau tymor penodol.<br><br>Capasiti caffael, cyllid, cyfreithiol a technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau a'r PMO fel sydd angen. Fframwaith ymgynghorwyr i gael ei sefydlu yn Ch2 2025-26.<br><br>PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio.<br><br>Recriwtio yn ystod Ch3/4 ar gyfer Cyfarwyddwr Portffolio, Rheolwyr Prosiect ac swyddi CJC eraill i gynnyddu adnoddau yn y PMO.<br><br>Cymeradwyaeth i'r cais i'r ddwy Lywodraeth i gynyddu'r haenen uchaf i 2.15% a galluogi'r PMO i gael at gyllid ychwanegol drwy gyllideb y Cynllun Twf a ymestyn cytundebau yn unol a'r angen.<br><br>Adnoddau PMO ar brosiectau blaenoriaeth i sicrhau cwblhau FBC. | Yn ei le<br><br>Parhaus<br><br>Adolygu'n fisol<br><br>Yn ei le<br><br>Yn ei le<br><br>Yn ei le | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Caffael cymorth arbenigol ychwanegol e.e. caffael, rheoli prosiect ayyb ar waith yn dilyn argymhelliad PAR, bydd y sgôr weddilliol yn lleihau unwath bydd cefnogaeth mewn lle. | 24/06/2025 |
| R006 | 21.10.2020 | Amgylcheddol | Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. | 4 | 3 | 12 | ↔ | Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais.<br><br>Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa sydd wedi'i fabwysiadu.<br><br>Methodoleg ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau bellach wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda'r holl brosiectau<br><br>Methodoloeg gryno ar gyfer prosiectau llai a risg isel yn cael ei ddatblygu gyda'r WLGA ar gyfer ei fabwysiadu | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>Ebrill 2025 | BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Cario ymlaen i weithredu'r fethodoleg a'r hyfforddiant cysylltiedig | 24/06/2025 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R020 | 03.10.2022 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Y Cyd-destun Economaidd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes newidiadau sylweddol i economi'r DU (e.e. yr argyfwng costau byw a'r argyfwng diogelwch ynni), gall hyn effeithio'n andwyol ar achosion strategol ac economaidd rhaglenni a phrosiectau. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau, yn cynnwys effaith datblygiadau economaidd diweddar | N/A | PMO, Arianwyr y Prosiectau | 3 | 5 | 15 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau er yn dilyn newidiadau diweddar mewn tariffau byd-eang mae'n bosibl bydd risg pellach.<br><br>Gall y cynnydd mewn costau NI ac lleiafswm cyflog yn Ch1 2025/26 effaithio ar gadwyni cyflenwi ar draws prosiectau ar gyfer adeiladwaith ac gweithredu.<br><br>Datblygu materion byd-eang sy'n effeithio ar gadwyni cyflenwi a'r farchnad ynni sy'n debygol o effeithio ar gostau yn y tymor byr i'r tymor canolig. | 24/06/2025 |
| R018 | 01.10.2020 | Ariannol | Cyllid refeniw | Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect | Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy<br><br>Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO i gyfalafu posib costau cyflog sy'n gysylltiedig a cyflawni prosiect lle'n briodol ac yn unol ar canllawiau.<br><br>Haenen uchaf y Cynllun Twf wedi ei gynyddu i 2.15%, a galluogi ymestyn cytundebau dros dro.<br><br>Cais SPF i'r 6 Awdurdod Lleol wedi bod yn llwyddiannus. | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi gwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.<br><br>Cyllideb ar gyfer 25/26 wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais yn Chwefror 2025. | 24/06/2025 |
| R019 | 01.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectau a gallai buddion rhanbarthol fod yn is. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi.<br><br>RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau<br><br>Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>Arianwyr y Prosiectau | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae cydweithio agos rhwng y PMO a'r RSP ar sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn allweddol i leihau tebygolrwydd y risg hon. Mae hwn yn weithgaredd parhaus i sicrhau bod y capasiti a'r sgiliau yn y rhanbarth i fanteisio ar y cyfleoedd drwy'r Cynllun Twf. | 24/06/2025 |
| R020 | 26/04/2024 | Rheoleiddio | Rheoli Cymhorthdal | Swyddfa Rheoli Portffolio | Cysylltedig gyda risg buddsoddiad Sector Breifat R008: Os na fydd asesiadau rheoli cymhorthdal yn cael ei cadarnhau gall cymeradwyo ariannu gael ei oedi neu ei beryglu. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Adolygu opsiynau ar gyfer dim buddsoddiad cymhorthdal e.e. benthyciadau masnachool<br><br>Trafod manylion ac asesiadau gyda noddwyr prosiect mor fuan a sydd bosibl (taflen telerau)<br><br>Ymgynghori gyda cymorth cyfreithiol yn fuan ar asesiadau Rheoli Cymhorthdal<br><br>Arweinydd Rheoli Cymhorthdal a cefnogaeth wedi ei adnabod o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio | Fel camau SOC-FBC | Rheolwyr Rhaglen | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Risg newydd. Sialens gyda cwblhau yr asesiadau 7 egwyddor, cal cefnogaeth gan Pinsents ond mae angen i rhain gael ei cyfarch yn gynt yn y broses sicrwydd e.e. taflen telerau cyn cwblhau yr Achos Busnes Amlinellol. | 24/06/2025 |
| R016 | 22.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Sicrwydd | Pennaeth Gweithrediadau | Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol.<br><br>Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP)<br><br>Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP<br><br>Proses wedi symleiddio ar gyfer sicrwydd wedi gyflwyno ar gyfer prosiectau newydd. | Wedi cwblhau<br><br>Chwarterol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Arweiniodd adolygiad sicrwydd ym mis Hydref 2024 at 4 o argymhellion i'w cynnal gan y PMO. Bydd cynllun gwaith yn cael ei roi mewn lle i weithredu rhain. | 24/06/2025 |
| R017 | 22.10.2020 | Ariannol | Rheolaeth Ariannol | Swyddog a151 | Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya.<br><br>Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr | N/A<br><br>N/A<br><br>Misol<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae risg gweddilliol yn parhau i fod yn isel oherwydd y prosesau sydd ar waith gan Uchelgais Gogledd Cymru a'r cytundebau ariannu gyda noddwyr prosiectau. | 24/06/2025 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg | | | Tuedd | Statws (agored/cae | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R014 | 22.10.2020 | Ariannol | Twyll | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle gan gynnwys gwiriadau diwydrwydd ar noddwyr prosiect a derbynwyr yr arian.<br><br>PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu<br><br>Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o'r Cytundeb Llywodraethu<br><br>Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol. | N/A<br><br>N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>Swyddog Monitro<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae'r risg gweddilliol yn parhau yn isel oherwydd y prosesau sydd mewn lle gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae sesiynau pellach o hyfforddiant twyll wedi'i gynllunio ar gyfer y PMO a'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn mis Mai 2024.<br><br>O 2025 bydd prosiectau sy'n cael eu cyflawni yn cynnwys cynlluniau grant/cronfa yn cael eu rheoli yn unol â dull PMO o ymdrin â diwydrwydd dyladwy. | 24/06/2025 |
| R013 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Newid Gwleidyddol | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol.<br><br>GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon.<br><br>Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth<br><br>Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU | N/A<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Parhaus | Uchelgais Gogledd Cymru, PMO<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>PMO<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae'r risg yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd. Briffio gyda Gweinidogion UK yn parhau. Etholiadau Sennedd a Llrol yn 2026 ac 2027 yn golygu gall y risg gynyddu yn y dyfodol. | 24/06/2025 |
| R021 | 26/04/2024 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Mudo i'r CBC | Cyfarwyddwr Portffolio | Trosglwyddo y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC yn 2024. Os na fydd staffio ac trefniadau prosesau yn cael ei rheoli yn effeithiol bydd risg i weithrediadau a gall bod oedi gyda cyflawni prosiectau. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Ymgynghoriad TUPE gyda staff<br><br>Effaith ar bolisiau a phrosesau i gael ei adolygu cyn trosglwyddo yn llawn | Wedi gwblhau | Cyfarwyddwr Portffolio | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Risg newydd. Cwblhawyd y cyfnod pontio ar Ebrill 25<br><br>Dim newidiadau i sgoriau risg gros na gweddilliol. Mae gwaith ar y gweill i adolygu effeithiau posibl a chytuno ar bolisïau a phrosesau ar gyfer y CBC newydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. | 24/06/2025 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 12 Chwefror 2026 |
| **TEITL** | Ardoll Ymwelwyr |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Effaith ar Wynedd |
| **AWDUR** | Roland Evans<br>Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned |
| **AELOD CABINET** | Cyng. R.Medwyn Hughes |

**Pam fod angen ei graffu?**

Mae Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yn rhoi'r dewis i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardal.

Derbyniodd y Bil sêl bendith y Senedd ar 8 Gorffennaf 2025.

Mater i awdurdodau lleol yw ymgynghori â'u poblogaethau lleol cyn penderfynu a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am benderfyniad i ymgynghori ar y mater neu beidio ar 14 Mai 2026. Mae angen craffu ar y mater cyn gwneud penderfyniad.

**Beth yn union sydd angen ei graffu?**

a. Pa ffactorau sydd yn cael eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ar gyflwyno Ardoll neu beidio?
b. Sut bwriedir ymgynghori gyda chymunedau a busnesau?
c. Beth fyddai'r bwriad o ran gwario yr incwm a fyddai'n deillio o'r Ardoll?

**Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Yn sgil cymeradwyo Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) sy'n caniatàu i Awdurdodau Lleol fabwysiadu Ardoll Ymwelwyr o fewn eu hawdurdodau, cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er mwyn i Aelodau graffu y camau a'r ystyriaethau y mae angen i'r Cyngor eu gwneud yn sgil y ddeddf, y cynlluniau ar gyfer ymgynghori ar fabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr yn lleol a meysydd o weithgaredd posib y gellid eu cefnogi trwy incwm unrhyw Ardoll yng Ngwynedd yn y dyfodol.

**Cefndir a Chyd-destun**

## 1. Cefndir

1.1. Ar 25 Tachwedd 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

1.2. Cymeradwywyd y Bil gan Senedd Cymru ar 08 Gorffennaf 2025 a derbyniodd Gysyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025 , Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

1.3. Mae'r Deddf yn gosod allan gofynion ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd i gofrestru llety gwyliau yng Nghymru yn ogystal â chyflwyno deddfwriaeth sydd yn gosod yr hawl i awdurdodau lleol unigol i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn eu hardaloedd unigol.

1.4. Ers 2018 mae'r Cyngor wedi datgan ei gefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru.

1.5. Yn 2019 fe wnaeth ymchwil gan Gyngor Gwynedd 'Elwa o Dwristiaeth' adnabod mai ardoll fyddai'n dod a'r buddion mwyaf i'r ardal o ran incwm posib ellid ei gynhyrchu ar gyfer cefnogi cyrchfannau Gwynedd ac Eryri.

1.6. Mae Adroddiadau Ymchwil i Dai Gwyliau a gynhyrchwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2019-2020 yn adnabod yr angen i sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer llety gwyliau tymor byr.

1.7. Mae sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn amlygu'r angen i geisio adnabod ffynonellau incwm newydd ar gyfer cefnogi'r economi ymweld ac ymateb i'r heriau ariannol cynyddol i gynnal isadeiledd sirol a'r cyfleoedd sy'n deillio o gael ymwelwyr yn ein hardal.

1.8. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydweithio law yn llaw a gyda phartneriaid cymunedol, busnes a chyhoeddus i ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 – Cynllun i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal. Mae'r Cynllun yn gosod allan ein blaenoriaethau strategol i sicrhau economi ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri.

1.9. O ran proffil y sector a phatrwm ymweld, yn ôl adroddiad ymchwil Beauforts yn 2019, mae'r rhan fwyaf o grwpiau ymwelwyr â Gwynedd naill ai'n gyplau (29%) neu'n grwpiau teuluol â phlant ifanc (24%). Roedd cyfran ychydig yn uwch o grwpiau teuluol â phlant hŷn yn ymweld â Gwynedd na'r cyfartaledd ledled Cymru (roedd gan 19% o ymwelwyr â Gwynedd blant hŷn neu gyfuniad o hŷn ac iau, o'i gymharu â 12% ar draws Cymru gyfan). Nifer cyfartalog y bobl ym mhob parti sy'n ymweld yw 4.3 (3.4 oedolyn a 0.9 o blant), sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gyfan o 3.7 (2.8 oedolyn a 0.9 o blant)

1.10. Mae'n rhaid cydnabod bod nifer o leisiau yn codi pryderon am gyflwr yr economi ymweld yn sgil Covid-19, y rheol 182 diwrnod, Cyfarwyddyd Erthygl 4 a'r argyfwng costau byw. Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau ar yr egwyddor o sefydlu a gweithredu Ardoll yn y gorffennol gyda'r sector ac yn bwriadu parhau i wneud hynny.

1.11. Mae *Hyrwyddo ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy* wedi eu cynnwys fel prosiectau blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd o dan y

Flaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus. Mae ystyried deddfwriaeth cenedlaethol ar yr Ardoll Ymwelwyr ac ymgynghori drwy Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 (G&E2035) yn un o gerrig milltir blwyddyn 3 o'r Cynllun.

**2. Y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. Cymru**

2.1. Bydd gofyn i bob Darparwyr Llety Ymwelwyr yng Nghymru gofrestru eu safleoedd a bydd peth o'r manylion yma ar gael wedi eu cyhoeddi. Bydd rhaid i bob llety gwyliau gofrestru hyd yn oed os nad yw Awdurdod Lleol yn dewis mabwysiadu'r Ardoll yn eu hardal.

2.2. Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fydd yn rheoli'r Gofrestr ac yn rheoli casglu'r Ardoll ar ran Awdurdodau Lleol. Ni fydd gan Cyngor Gwynedd unrhyw rôl wrth weithredu'r drefn gofrestru, gorfodi a chasglu Ardoll.

2.3. Rhoddir pwerau i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr drwy benderfyniad gan y Cyngor Llawn. Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn priodoli y penderfyniadau i'r Cyngor Llawn ac nid oes hawliau dirprwyo yn ynghlwm a hyn.

2.4. Bydd arian a godir drwy'r Ardoll yn cael ei wario gan awdurdodau lleol ar reoli cyrchfannau cynaliadwy.

2.5. Mae Darparwyr Llety Ymwelwyr yn ffeilio ffurflenni i ACC ac yn talu'r Ardoll Ymwelwyr yn seiliedig ar faint o arosiadau fesul person, y noson.

2.6. Mae'r Ddeddf yn priodoli graddfeydd ardoll. Y cyfraddau ydi £1.30 (£1.56 gyda TAW) y noson yn cael eu codi ledled Cymru oni bai ar safle gwersylla neu mewn hostel sy'n ddarostyngedig i gyfradd is o 75c (90c gyda TAW) y noson.

2.7. Mae eithriadau cyfyngedig i'r ardoll ymwelwyr
   a. pobl ifanc o dan 18 oed o'r gyfradd isaf o'r ardoll (hosteli, gwersylloedd neu lofftydd wedi rhannu)
   b. unrhyw rai sy'n aros mwy na 31 noson mewn un cyfnod; a
   c. cartrefu brys neu dros dro wedi ei drefnu gan yr awdurdod lleol.

**3. Proses penderfynu, amserlen amlinellol ac ystyriaethau**

3.1. Bydd rhaid i'r Cyngor Llawn benderfynu ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd.

3.2. Cyn gwneud hynny mae camau penodol yn seiliedig ar statud neu Arweiniad Statudol angen eu gweithredu:
   a. mae rhaid hysbysu ACC o'r bwriad
   b. Cyhoeddi adroddiad yn gosod allan ei gynigion sydd yn gosod allan amcangyfrif o gynnyrch yr ardoll, gwybodaeth am sut y bwriedir defnyddio y cynnyrch a chynigion y Cyngor ar gyfer aelodaeth y Bwrdd Ardoll (<u>Atodiad 1 – Cynnig Ardoll Gwynedd).</u>
   c. Rhaid cyflwyno yr adroddiad i ACC
   d. Rhaid cynnal ymgynghoriad statudol

e. Yn ogystal ac yn ôl y Canllawiau Statudol mae angen paratoi Asesiad o Ardrawiad Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol. (Atodiad 2).

f. Mae hefyd yn ofyn wrth gwrs i baratoi asesiadau ardrawiad cyffredinol o ran Cydraddoldeb , Iaith Gymraeg a.y.b

Bydd y rhain yn rhan o'r pecyn fydd yn mynd i'r Cyngor wrth iddo benderfynu ar fynd i ymgynghoriad

3.3. Ar hyn o bryd, mae sefyllfa siroedd eraill yng Nghymru yn amrywio o ran yr Ardoll gyda rhai eisoes wedi nodi na fyddant yn ymgynghori ar gyflwyno ardoll yn y tymor byr / canolig (Powys / Sir Penfro) ac eraill wedi dechrau ymgynghori (Caerdydd).

3.4. Mae trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi digwydd dros y misoedd diwethaf er mwyn cydlynu'r amserlen a'r gwaith ymgynghori ar yr Ardoll ac hefyd er mwyn cydweithio ar gomisiynu Asesiadau Effaith. Bydd y dair sir yn cyd-weithio i sicrhau bod ein hamserlenni ymgynghori a phenderfynu yn cyd-fynd.

3.5. Mae'r Ddeddf yn darparu y gellir cyflwyno Ardoll o'r 01 Ebrill neu'r 01 Hydref mewn unrhyw flwyddyn ariannol – ond rhaid rhoi 12 mis o rybudd yn dilyn ymgynghoriad a phenderfyniad y Cyngor Llawn.

3.6. 01 Ebrill 2027 yw'r cynharaf y gall yr Ardoll gael ei chyflwyno yng Nghymru. Oherwydd yr angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ystyrlon ac er mwyn cyd-fynd â chyfnodau cyn-etholiad, ni fydd yn bosib i Gyngor Gwynedd weithredu i'r amserlen hon.

3.7. Pe byddai penderfyniad i fabwysiadu'r Ardoll yn cael ei gwneud gan y Cyngor cyn 30 Medi 2026 – fe allai gael ei gyflwyno o'r 01 Hydref 2027 yn dilyn 12 mis o rybudd.

**4. Asesiad o'r Lefi yng Ngwynedd a materion ymchwil a gwybodaeth**

4.1. Rhaid nodi bod ansawdd a dibynadwyedd y data sydd ar gael ar lefel genedlaethol heb sôn am lefel Gwynedd er mwyn asesu effaith cyflwyno Ardoll yn hynod o heriol ac wedi ei gyfyngu gan nad yw'n bodoli mewn llawer o achosion.

4.2. Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi ystyried sut allai ymwelwyr wneud cyfraniad i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn y Sir – gan gynnwys y prosiect Elwa o Dwristiaeth a gyfeiriwyd ato yn flaenorol. O'r holl opsiynau posib a ystyriwyd bryd hynny – o rodd gwirfoddol gan ymwelwyr, sefydlu Ardal Gwella Busnes Twristiaeth i sefydlu Ardoll Ymwelwyr – yr Ardoll oedd yn amlygu ei hun fel y dull mwyaf effeithiol o sicrhau incwm i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal gan y tybiwyd bryd hynny y gallai godi hyd at £9m o incwm ychwanegol y flwyddyn (ar sail data ymwelwyr STEAM 2017 (Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor)).

4.3. Fel cyd-destun lleol, mae data STEAM Gwynedd (sydd hefyd efo rhybuddion / cafeatau ac yn fodel rhyngwladol i asesu tueddiadau o ran nifer ymweld a chyfraniad economaidd) yn amlygu'r canlynol ar gyfer 2024:

Effaith Economaidd: £1.785bn

Nifer ymweld: 7.75m
Nifer dyddiau ymweld: 24.09m
Cyfanswm cyflogaeth: 17,644

4.4. Wrth ystyried yr ymchwil sydd wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r bil, yn ogystal â gwaith ymchwil blaenorol a'r canllawiau drafft sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth, mae'r Adran Economi a Chymuned yn cyd-weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi comisiynu cwmni Quod i asesu ardrawiad economaidd cyflwyno Ardoll yn ein hardaloedd.

4.5. Mae'r asesiad ardrawiad a gomisiynwyd ar y cyd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio modelau tebyg a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth wrth ddatblygu asesiadau effaith cenedlaethol. Mae'r data a ddefnyddir wedi ei sylfaenu ar ffigyrau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey) a Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey) ar gyfer y blynyddoedd 2022-2024. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i data STEAM fel rhan o'r asesiad.

4.6. Mae'r gwaith ymchwil yma yn canolbwyntio ar:

a. Yr ymchwil a'r astudiaethau baratowyd gan Lywodraeth Cymru yn eu hasesiad
b. Adolygiad o unrhyw astudiaethau eraill sy'n bodoli
c. Asesiad ardrawiad ar lefel Gwynedd – ond gyda llawer o amodau a chafeatau.
d. Croes-gyfeirio yn ôl i waith y Llywodraeth
e. Casgliad ar yr ardrawiad posib.
f. Adolygu'r asesiad ardrawiad drafft yn sgil y broses ymgynghori

4.7. Mae'r asesiad ardrawiad effaith economaidd yn dod i'r casgliad y byddai effeithiau'r ardoll yn gymharol fach ar Wynedd. Nodir y canlynol:

*a. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ynghyd â bylchau ac ansicrwydd yn y data. O ganlyniad, mae'r asesiad cenedlaethol yn cynnwys nifer sylweddol o amodau (caveats) ac yn dibynnu ar ystodau eang o amcangyfrifon. Mae asesiad ar lefel leol yn wynebu heriau pellach, o ganlyniad i fylchau data mwy amlwg a sylfaen dystiolaeth hyd yn oed yn llai datblygedig ar effaith ardollau ymwelwyr ar lefel leol (o'i gymharu â'r lefel genedlaethol).*

*b. Y prif amodau / cafeatau sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:*

- *Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch elastigedd y galw. Er bod hyn eisoes yn wir ar lefel Cymru gyfan, mae'r ansicrwydd hyd yn oed yn fwy amlwg pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.*
- *Ceir gwahanol ffynonellau data ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey – IPS) a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey – GBTS), yn unol ag asesiad Llywodraeth Cymru a'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau*

*lleol. Mae data STEAM yn dangos economi ymwelwyr sylweddol fwy; nodir goblygiadau hyn yn yr adroddiad.*

- *Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw o fewn Cymru. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir ar lefel ardal lai; er enghraifft, gall rhywfaint o wariant gan ymwelwyr â Gwynedd ddigwydd yng Nghonwy neu Ynys Môn (ac i'r gwrthwyneb).*
- *Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd lefel uwch o ollyngiad (leakage) yn gysylltiedig â gwariant a ariennir drwy'r ardoll, gan y gall rhai busnesau sy'n elwa ar gontractau a ariennir drwy'r ardoll fod wedi'u lleoli y tu allan i Wynedd.*
- *Mae'r asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Ar lefel Gwynedd, bydd yr effeithiau'n wahanol yn dibynnu a yw un awdurdod lleol yn unig yn cyflwyno'r ardoll, neu a yw awdurdodau cyfagos hefyd yn ei gweithredu.*

c. *Felly, mae'r asesiad ar lefel Gwynedd wedi'i amodi'n briodol, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y bylchau yn y data a'r sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.*

d. *Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar Wynedd yn gymharol fach, o ran cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n fras debyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn pennu'r "pen-terfynau" (bookends) ar gyfer yr ystod debygol o'r effeithiau hyn.*

e. *O fewn y prif ddadansoddiad hwn, mae'r rhagdybiaethau a wneir yn gyffredinol yn rhai ceidwadol o ran asesu'r effaith ar yr economi (h.y. maent yn tueddu i oramcangyfrif yr effaith negyddol bosibl). Er enghraifft, mae'n cael ei dybio bod Gwynedd yn colli'r holl wariant ymwelwyr, pan fyddai rhywfaint o'r gwariant hwnnw, mewn gwirionedd, wedi digwydd y tu allan i Wynedd (er enghraifft, pan fydd ymwelwyr sy'n aros yng Ngwynedd yn gwario arian mewn awdurdodau lleol eraill ar deithiau dydd). Mae hefyd yn cael ei dybio bod rhywfaint o ollyngiad o weithgarwch economaidd y tu allan i Wynedd o ganlyniad i wariant yr ardoll, tra'n tybio ar yr un pryd nad yw busnesau Gwynedd yn elwa ar gontractau sy'n deillio o wariant ardollau ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill.*

f. *Yn yr un modd, mae'r dadansoddiad yn tybio nad oes twf yn economi'r ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gyflwyno'r ardoll. Yn ymarferol, pe bai economi'r ymwelwyr yn tyfu, byddai'r cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu, a gallai gwariant yr ardoll ei hun ysgogi twristiaeth uwch drwy well profiad i ymwelwyr. Byddai hyn yn helpu i gynnal a gwella cystadleurwydd Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth. Ceir tystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ymwelwyr mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.*

*g.* *Byddai unrhyw dwf yn economi'r ymwelwyr hefyd yn gwrthbwyso unrhyw golledion i'r economi (o ran swyddi a GVA) sy'n deillio o ymwelwyr nad ydynt yn dod o ganlyniad i'r ardoll, a byddai hefyd yn cynyddu'r refeniw a godir drwy'r ardoll.*

*h.* *Serch hynny, ar sail y dull hwn, amcangyfrifir bod effeithiau'r ardoll yn gymharol fach. Hyd yn oed gyda'r rhagdybiaethau ceidwadol hyn (h.y. rhagdybiaethau a allai oramcangyfrif unrhyw effaith negyddol), amcangyfrifir y gallai'r ardoll arwain at:*

- *Newid mewn cyflogaeth rhwng -50 a +21 o swyddi – sy'n cyfateb i golled o tua -0.1% neu gynnydd o tua 0.04% o gyflogaeth yng Ngwynedd.*
- *Newid mewn GVA blynyddol rhwng -£2.7m a +£0.4m y flwyddyn – sy'n gyfwerth â cholled o tua -0.1% neu gynnydd o lai na 0.01% o economi Gwynedd.*
- *Refeniw blynyddol o rhwng £2.4m a £2.8m.*

*i.* *Mae'r ystod hon, sy'n amrywio o effaith negyddol gymharol fach i effaith gadarnhaol gymharol fach, yn adlewyrchu canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru, a ddaeth hefyd i'r casgliad bod yr effaith ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod rhwng effaith negyddol fach ac effaith gadarnhaol fach.*

*j.* *Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi dwristiaeth bresennol Gwynedd yn sylweddol fwy na'r hyn a nodir gan yr IPS a'r GBTS; pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio, byddai effeithiau'r ardoll tua 4 i 5 gwaith yn fwy. Mae hyn yn tanlinellu'r ansicrwydd yn y data, ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragfynegi effaith yr ardoll.*

4.8. Mae Asesiad effaith cyfansawdd wedi ei baratoi mewn drafft ac yn amlygu y gallai rhai effeithiau negyddol gael eu codi wrth fabwysiadu Ardoll yng Ngwynedd. Ond, mae ail-fuddsoddi'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll efo'r potensial i gefnogi deilliannau positif ar y diwydiant, ein cymunedau, yr amgylchedd a'r Gymraeg. O weithredu trwy strwythur Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 mae modd gweithredu'n gynhwysol a monitro gweithredu'r ardoll a'i flaenoriaethau gweithredu trwy fesuryddion newydd a bydd modd ystyried ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol ar y grwpiau gwarchodedig.

## 5. Yr ymgynghoriad cyhoeddus

5.1. Pe byddai'r Cyngor yn cefnogi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddor o fabwysiadu Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd, byddai'r gwaith yma'n cael ei arwain gan y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Cyfathrebu a Chyfreithiol gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac ACC.

5.2. Mae disgwyl i Awdurdod Lleol ymgymryd â phroses ymgynghori ar sail egwyddorion ymgynghori cyhoeddus “Gunning” cyn penderfynu a ddylid cyflwyno y rhybydd o 12 mis i weithredu’r Ardoll.

5.3. Dylai'r ymgynghoriad nodi'r achos dros gyflwyno ardoll gan amlinellu'r manteision posibl a chynnig awgrymiadau ar sut y gellid buddsoddi'r ardoll er budd yr ardal leol, busnesau, trigolion ac ymwelwyr. Fel pob ymgynghoriad bydd angen i’r broses sicrhau fod digon o wybodaeth yn cael ei gynnwys i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. Mae hefyd yn gyfrwng i gael cyfraniad at yr asesiadau ac adroddiadau fydd yn mynd gerbron y Cyngor wrth ystyried mabwysiadu yr ardoll.

5.4. Yn achos Gwynedd, yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cyngor yn eu cyfarfod ar 14 Mai 2026, byddai’r cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal dros 10 wythnos rhwng Mai a Gorffennaf 2026. Mae hi’n ofyn statudol ymgynghori gyda:

a. Pobl Leol
b. Cynghorau Tref a Chymuned
c. Cynghorau Sir sydd yn ffinio ar Wynedd
d. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
e. Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd
f. Cyrff sydd yn cynrychioli busnesau twristiaeth neu busnesau sydd yn ymwneud a gweithgareddau sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, yn hybu neu’n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor yn ardal y prif gyngor;
g. Darpar aelodau y Bwrdd Ardoll os nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys yn y rhestr yma.

5.5. Bwriedir ymgynghori drwy’r dulliau canlynol fydd yn cynnwys:

a. Holiadur arlein ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr
b. Grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr busnes a chymunedol wedi eu gwahodd i drafod
c. Cyfweliadau un i un
d. Digwyddiadau arbennig (un ym mhob un o 3 ardal Gwynedd ac un arlein)
e. Sesiynau pop-up o fewn y 3 ardal o Wynedd
f. Cyfarfodydd Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035
g. Darparu gwybodaeth trwy rhan penodol yr Ardoll ar wefan y Cyngor

5.6. Er ei bod yn bosib cyflawni llawer o’r uchod gydag adnoddau presennol – bydd elfennau hwyluso a threfnu, dadansoddi ac adrodd yn cael eu comisiynu er mwyn cefnogi’r broses.

5.7. Bydd canlyniadau’r ymgynghoriad yn ystyriaeth ar gyfer yr asesiadau ardrawiad terfynol yn ogystal â bod yn ystyriaeth i benderfyniad y Cyngor ar fabwysiadu’r Ardoll a’i peidio.

## 6. Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

6.1. Pe bai penderfyniad i ymgynghori’n gyhoeddus, bwriedir bwrw ati i sefydlu trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu ar a chyfathrebu’r Ddeddf yng Ngwynedd.

6.2. Byddai sefydlu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn creu trefniadau ffurfiol yn fewnol i'r Cyngor a gyda phartneriaid i gyfathrebu ac ymgysylltu ar ddatblygiad y drefn gofrestru llety dros nos a'r Ardoll o fewn i Wynedd. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru ac ACC yn darparu canllawiau statudol maes o law ond, mae drafft ar gael sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel canllaw.

## 7. Defnydd posib o'r Ardoll Ymwelwyr a Gweithrediad

7.1. Mae'r Ddeddf yn adnabod meysydd penodol ar gyfer buddsoddi (neilltuo) arian yr Ardoll yn y dyfodol at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal, yn cynnwys:

a. lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
b. cynnal a hybu defnyddio'r Gymraeg;
c. hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
d. darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio)."

7.2. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ac ACC gyhoeddi canllawiau pellach ar y meysydd neilltuo hyn.

7.3. O ystyried ein bod wedi mabwysiadu Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 sy'n adnabod gweledigaeth, egwyddorion ac amcanion clir i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal – byddai'n synhwyrol defnyddio'r blaenoriaethau hyn (sy'n cyd-fynd a'r meysydd neilltuo) er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau o'r ardoll yng Ngwynedd er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

**Adroddiad ar ddefnyddio enillion yr ardoll:**

7.4. Rhaid i brif gyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar faint yr enillion o'r Ardoll a sut mae'r enillion hyn wedi cael eu defnyddio gan y Cyngor i reoli a gwella cyrchfannau.

**Fforymau partneriaeth ardoll:**

7.5. Mae'r ddeddf yn gofyn am sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll lleol i roi gwybodaeth a chyngor ar sut y gellir defnyddio enillion o'r Ardoll a rhoi gwybodaeth a chyngor os yw Cyngor yn dymuno ychwanegu swm ychwanegol at yr Ardoll yn lleol (premiwm) .

7.6. Os penderfynir gweithredu'r Ardoll, o ystyried ein bod wedi sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035, mae hi'n rhesymol cynnig y dylai elfennau o'r bartneriaeth hon weithredu fel 'Fforwm Partneriaeth Ardoll' yng Ngwynedd i gynnig arweiniad.

**Adnoddau a buddsoddi**

7.7. Mae gwybodaeth o ran faint yr incwm ellid ei gasglu yng Ngwynedd yn amrywio ar sail y data a ddefnyddir. Fel a welir o'r Adroddiad Asesiad Ardrawiad gall fynd o £2.8m ar lefel geidwadol, besimistaidd i hyd at £12.4m os defnyddir data STEAM sy'n debygol o or-gyfrifo.

7.8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu tuag at gostau sefydlu'r Ardoll yng Nghymru fel na fydd costau gweinyddu'r Ardoll yn fwy nag uchafswm o 10% o'r adnoddau a gesglir mewn Awdurdod Lleol. (Felly o £200,800 i £1.2m os defnyddir y ffigyrau uchod).

7.9. Mae ystyriaethau yn lleol o ran y costau tebygol i weinyddu'r bartneriaeth a'r gronfa fydd ar gael i fuddsoddi yn yr ardal yn sgil yr Ardoll – mae bras-amcan o'r costau hyn yn gwneud cyfanswm o tua £100,000 y flwyddyn. Gall y gost yma gael ei dalu trwy enillion yr Ardoll.

7.10. Yn sgil canllawiau statudol drafft gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y broses ymgynghori a phenderfynu i gyflwyno Ardoll mewn ardal leol, awgrymir y bydd angen adnoddau ychwanegol gan yr Adran Economi a Chymuned i ymgymryd a'r gwaith hwn. Byddai'r adnoddau ychwanegol hyn yn cyfrannu at gomisiynu asesiadau effaith, cydlynu proses ymgynghori a dadansoddi atebion, cydlynu a sefydlu trefniadau fframweithiau buddsoddi'r Ardoll.

7.11. Bydd yr Adran Economi a Chymuned yn cyflogi Rheolwr Prosiect Ardoll ar gyfer datblygu unrhyw gynigion yn lleol ac er mwyn cydlynu'r broses ymgynghori a datblygu Ardoll.

7.12. Bwriedir ad-dalu'r costau cychwynnol hyn trwy'r Ardoll os bydd yn cael ei sefydlu yn y dyfodol.

7.13. Yn naturiol, bydd y sector, cymunedau, rhanddeiliaid ac ymwelwyr yn awyddus i weld buddsoddiad amlwg a gallai hyn gynnwys prosiectau megis e.e:

| **Egwyddor ac Amcan G+E2035** | **Enghreifftiau o weithgaredd posib y gellid eu cyllido trwy'r Ardoll yng Ngwynedd** |
|---|---|
| **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth:**<br>→ Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro<br>→ Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored | ✓ Ymgyrchoedd i hybu diwylliant a'r Gymraeg<br>✓ Hybu naws am le a Chynnig Cymraeg i fusnesau trwy hyfforddiant<br>✓ Prosiectau i warchod treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw<br>✓ Cefnogaeth i'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi a'i weithgareddau<br>✓ Cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol<br>✓ Cefnogi cymunedau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg |
| **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**<br>→ Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld | ✓ Trafnidiaeth gyhoeddus well i wasanaethu cymunedau - bysiau ychwanegol ac yn hwyrach gyda'r nos<br>✓ Isadeiledd sylfaenol (biniau / casglu sbwriel / toiledau / glendid stryd ayb) |

| | |
|---|---|
| a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol<br>→ Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. | ✓ Cynnal llwybrau poblogaidd a chreu rhai newydd.<br>✓ Gwarchod cynefinoedd e.e. moroedd a dyfroedd, ucheldiroedd ayb<br>✓ Dehongli pwrpasol o'n hamgylchedd a chynefinoedd<br>✓ Cefnogaeth i brosiectau cadwraeth amgylcheddol<br>✓ Ymgyrchoedd a chefnogaeth i gael sector di-blastig |
| **Sicrhau bod y manteision i gymunedau'r ardal yn fwy nac unrhyw anfanteision**<br>→ Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn<br>→ Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn<br>→ Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol | ✓ Ymgyrchoedd ymweld i ymestyn y tymor, hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardal ac annog parch a diogelwch.<br>✓ Datblygu pecynnau a theithiau pwrpasol i ymweld a'r ardal a lleihau pwysau ar ardaloedd prysur<br>✓ Cefnogaeth i e.e. Timau Achub Mynydd a'r arfordir<br>✓ Pecynnau grant i gefnogi busnesau, digwyddiadau a chymunedau<br>✓ Gwella isadeiledd e.e. Arosfan, meysydd parcio, gorsafoedd ayb<br>✓ Ymestyn oriau wardeiniaid<br>✓ Hyrwyddo neu gefnogi ymdrechion twristiaeth adfywiol, h.y. Twristiaeth sydd â effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol a'r amgylchedd.<br>✓ Hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.<br>✓ Datblygu pecyn cynnyrch lleol a chadwyni cyflenwi lleol<br>✓ Cefnogaeth i fusnesau |

**8. Ystyriaethau eraill**

8.1. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi na fydd eu rhaglen 'Pethau Bychain' i fuddsoddi mewn isadeiledd twristiaeth yn cael ei gynnal y tu hwnt i 2027. Mae hon wedi bod yn gronfa bwysig i Wynedd ac wedi buddsoddi mewn meysydd parcio, toiledau, llwybrau a chyfleusterau newydd megis 'Aros-fan'.

8.2. Mae angen sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fydd cyflwyno Ardoll mewn ardal yn effeithio ar ein setliad blynyddol, y grant poblogaeth ddyrchafedig nac ar ein gallu i gael mynediad at unrhyw gronfeydd ariannol i gefnogi twristiaeth a rheoli cyrchfan yn y dyfodol.

8.3. Mae beirniadaeth bod y sector dan warchae, bod Cyngor Gwynedd yn wrth-dwristiaeth ac y bydd cyflwyno ardoll yn troi ymwelwyr dros nos i ffwrdd o'r ardal. Bydd yr astudiaethau effaith yn archwilio'r maes yma – ond mae gwybodaeth ar lefel leol yn anodd i'w gasglu, er bod tystiolaeth o ardaloedd eraill sydd wedi cyflwyno ardoll yn awgrymu nad yw'n cael effaith ar niferoedd ymweld.

8.4. Dylid cofio bod Llywodraeth y DU bellach yn deddfu er mwyn caniatáu i Faeri yn Lloegr gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn y dinas-ranbarthau yn Lloegr.

8.5. Yn y dyfodol, pe penderfynir cyflwyno Ardoll Ymwelwyr, mae modd rhoi rhybudd o 12 mis yn dilyn ymgynghoriad i ddileu'r Ardoll mewn ardal leol.

8.6. Rhaid cofio bod y sector twristiaeth yn agored i newidiadau mewn patrymau ymweld sy'n cael eu effeithio gan ffactorau ehangach lleol a byd-eang ac mae cael patrwm cyson o un flwyddyn i'r nesaf yn amhosib eu rhagweld.

**9. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

9.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

9.2. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

9.3. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gefnogi pe byddai'n cael ei fabwysiadu:

- GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

**10. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Bydd asesiadau effaith economaidd, amgylcheddol a chydraddoldeb yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer penderfynu i ymgynghori fis Mai 2026. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac yn derbyn ystyriaeth lawn pan fydd penderfyniad i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd neu beidio yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn fis Medi 2026.

**11. Camau Nesaf**

| Amserlen | Cam Gweithredu |
|---|---|
| **14 Mai '26** | Cyngor Llawn yn penderfynu ymgynghori yn gyhoeddus<br>Comisiynu cymorth ymgynghori a dadansoddi adborth os cefnogi |
| **Mai'26 – Gorff. '26** | Ymgynghoriad cyhoeddus 15 Mai 2026 - 24 Gorffennaf 2026 |
| **Gorffennaf – Awst 2026** | Ystyried canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ac unrhyw addasiadau i'r Asesiadau Effaith |
| **24 Medi 2026** | Cyngor Llawn<br>Penderfyniad ar fabwysiadu'r Ardoll yng Ngwynedd neu beidio |
| **30 Medi 2026** | Cyflwyno Rhybudd Swyddogol 12 mis i ACC os yw Cyngor Gwynedd yn penderfynu mabwysiadu'r Ardoll |
| **01 Hydref 2027** | Ardoll yn weithredol yng Ngwynedd |
| **30 Mehefin 2028** | Taliad cyntaf o'r Ardoll i Gyngor Gwynedd – tua £2.65m |

**Gwybodaeth Cefndir**

Adroddiadau i Bwyllgorau Cyngor Gwynedd:

| Dyddiad | Adroddiad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 28-03-23 | Papur ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu trefn gofrestru statudol. | Cefnogaeth i ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Croeso Cymru ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol yng Nghymru ar gyfer llety gwyliau. |
| 15-12-2020 | Gwaith ymchwil Tai Gwyliau | b) Er mwyn cynorthwyo i gadw rheolaeth dylid hefyd galw am gyflwyno<br>cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer llety gwyliau tymor byr fyddai'n<br>gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol ei weithredu |
| 13-03-2018 | Pwerau Trethiant Llywodraeth Cymru | Rhoddir cyfle i'r Cabinet drafod bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd er mwyn ystyried a yw'n dymuno mynegi barn ar y cynigion. |

Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru a thystiolaeth gan Gyngor Gwynedd (30/01/25)
Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035

**Atodiadau**

# ARDOLL YMWELWYR GWYNEDD VISITOR LEVY

**Cynnig <u>DRAFFT</u> Chwefror 2026**

1. **Ardoll Ymwelwyr Gwynedd: y cynnig**
Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar gyfer pob llety gwyliau ac arosiadau dros nos cymwys fel a amlinellir yn neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 o fewn i ffiniau awdurdod lleol Cyngor Gwynedd o'r 1 Hydref 2027. Bydd hyn ar gyfer pob darparwr llety fydd yn gorfod cofrestru ar gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety.
Bydd yr Ardoll yn cael ei chodi ar gyfradd y person y noson fel a amlinellir yn y ddeddf. Bydd yr Ardoll yn cael ei chasglu gan y darparwr llety. Bydd y cyfraddau cychwynnol fel a amlygir yn y ddeddf:

| **Math o lety** | Cyfradd (y person, y noson) |
|---|---|
| Maes gwersylla a charafanau a llofftydd a rennir (fel hosteli a dorm) | £0.75c<br>£0.90c yn cynnwys TAW |
| Pob math arall o lety gwyliau | £1.30<br>£1.56 yn cynnwys TAW |

**Eithriadau**

Ni fydd disgwyl talu'r ardoll os ydych yn:

- O dan 18 oed ac yn aros mewn gwersyll neu ystafell a rennir (megis hostel neu dorm);
- Yn aros am fwy na 31 noson mewn un arhosiad; ac
- Mewn llety argyfwng neu dros dro wedi ei drefnu gan gyngor lleol.

**Ad-daliadau**

Bydd y canlynol yn gymwys i ymgeisio am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru:

- Pobl anabl sy'n talu costau ardoll ychwanegol pan fydd ganddynt ofalwr; a
- Pobl sy'n ffoi o drais yn y cartref.

## 2. Incwm yr Ardoll

### Dull gweithredu

Defnyddiwyd amrywiol o ffynonellau data er mwyn amcangyfrif incwm cychwynnol yr Ardoll i Wynedd. Canolbwyntiwyd ar y ffynonellau canlynol:

- Gwybodaeth a data gan Lywodraeth Cymru, Croeso Cymru
- Asesiadau ac ymchwil gan Lywodraeth Cymru
- Data y Great British Tourism Survey
- Data International Passenger Survey
- Data STEAM ar gyfer Gwynedd

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data STEAM ar gyfer ei adroddiadau monitro perfformiad. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn ddoeth cynnal dadansoddiad pellach i sicrhau bod y data sy'n cael ei ddefnyddio yn briodol wrth bennu lefel gyffredinol yr incwm y byddai'r ardoll yn ei chodi.

Yn benodol ystyriwyd hyn oherwydd:

- Mae'r holl ddata yn parhau i fod yn seiliedig ar wybodaeth sampl ac yn destun gwallau;
- Y gallu i wirio amcangyfrifon gan ddefnyddio dulliau amgen; ac
- Ystyriaeth o'r effaith ar feysydd fel esemptiadau Ardoll.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod data STEAM yn ddata a ddefnyddir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn un o'r mesurau cyffredin o ran twristiaeth sydd ar gael.

### Data ac ymchwil

Rhaid amlygu bod y data cenedlaethol yn ogystal a'r data lleol yn agored i'w herio, ac yn seiliedig ar samplau a lluosydd.

Mae STEAM yn broses modelu effaith economaidd twristiaeth sy'n mesur twristiaeth o'r gwaelod i fyny, drwy ei ddefnydd o ddata ochr gyflenwi leol a pherfformiad twristiaeth a chasglu data arolygon ymwelwyr. Mae STEAM yn gallu darparu allbynnau cadarn ar amrywiaeth o lefelau daearyddol ac, fel y cyfryw, mae wedi'i fabwysiadu i'w ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig a thramor gan fyrddau twristiaeth, awdurdodau lleol, asiantaethau datblygu rhanbarthol, awdurdodau parciau cenedlaethol, a llawer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.

Mae STEAM yn meintioli effaith economaidd lleol twristiaeth, o ymwelwyr sy'n aros dros nos ac ymwelwyr dydd, trwy ddadansoddi a defnyddio amrywiaeth o fewnbynnau gan gynnwys niferoedd atyniadau ymwelwyr, stoc gwelyau llety i dwristiaid, presenoldeb mewn digwyddiadau, lefelau deiliadaeth, tariffau llety, ffactorau macroeconomaidd, lefelau gwariant ymwelwyr, lefelau defnydd trafnidiaeth a lluosyddion economaidd sy'n benodol i dwristiaeth.

Amlyga data STEAM y canlynol o ran gwerth a niferoedd y sector twristiaeth i Wynedd ar gyfer 2024:

- Effaith Economaidd: £1.785bn
- Nifer ymweld: 7.75m
- Nifer dyddiau ymweld: 24.09m
- Cyfanswm cyflogaeth: 17,644

Mae'r ymchwil stoc gwelyau a gynhaliwyd fwyaf diweddar gan Gyngor Gwynedd yn 2019 yn dangos y canlynol gyda chymhariaeth ar gyfer 2011. Dylid nodi y gallai'r ffigyrau yma fod wedi newid yn sylweddol yn sgil Covid19 a sefyllfa costau byw. Bydd trefn gofrestru genedlaethol yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael yn y dyfodol:

| | **Nifer 2019** | **Nifer 2011** | **% Newid ers 2011** |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau heb gynnwys AirBnB | 3,212 | 2,807 | +14.4% |
| Sefydliadau AirBnB* | 745 | - | - |
| **Cyfanswm Sefydliadau** | **3,957** | **2,807** | **+40.9%** |
| | | ■ | |
| Gwelyau Ymwelwyr heb AirBnB | 132,924 | 125,273 | +6.1% |
| Gwelyau Ymwelwyr AirBnB* | 3,661 | - | - |
| **Cyfanswm Gwelyau Ymwelwyr** | **136,585** | **125,273** | **+9.0%** |

Ar sail y nifer presennol o ymwelwyr (nifer y nosweithiau aros), byddai'r dreth ymwelwyr yn codi tua £2.8m, a byddai hyd at £2.5m o hyn yn cael ei gadw gan Gyngor Gwynedd i'w wario yn yr ardal leol (yn unol â'r Ddeddf), gan dybio bod hyd at 10% o'r refeniw yn cael ei ddefnyddio i dalu costau gweithredu Llywodraeth Cymru.

Mae'r dull a nodir i gyfrifo'r swm yma yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn y galw mewn ymateb i'r dreth ymwelwyr – mae'r gostyngiad hwn yn arwain at ostyngiad bach yn y refeniw, ond mae'n parhau rhwng £2.7m a £2.8m i gyd, a rhwng £2.4m a £2.5m unwaith y bydd y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru wedi'i eithrio.

Mewn gwirionedd, gallai'r refeniw a gesglir fod yn uwch na hyn am nifer o resymau:

- Mae hyn yn tybio bod nifer yr ymwelwyr yn sefydlog yn seiliedig ar ddata 2024, a mai'r unig newid yw gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr (neu'r nosweithiau aros) o ganlyniad i'r dreth. Mewn gwirionedd, gallai economi ymwelwyr Gwynedd dyfu (gyda'r dreth neu hebddi). Mae marchnad dwristiaeth Gwynedd wedi bod yn tyfu ers y pandemig Covid, a gallai hyn barhau. Ceir hefyd dystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno treth ymwelwyr (gweler adroddiad Prifysgol Bangor yn yr Ardrawiad Effaith Economaidd).

- Bydd y dreth ymwelwyr yn galluogi Cyngor Gwynedd i fuddsoddi mewn gweithgareddau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth, a darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr. Mae'n debygol y bydd y buddsoddiad hwn ei hun yn ysgogi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. I'r gwrthwyneb, gallai fod gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr pe na bai'r buddsoddiad hwn yn cael ei wneud drwy'r dreth ymwelwyr.
- Mae data STEAM yn awgrymu bod economi ymwelwyr bresennol Gwynedd yn sylweddol fwy, a fyddai'n arwain at refeniw uwch.

| | **Prif Ddadansoddiad**<br>Senario craidd<br>(elastigedd o -0.74) | **STEAM**<br>(elastigedd o -0.74) |
|---|---|---|
| **Refeniw (heb TAW)** | **£2.8m**<br>*£2.5m yn cyfrifo cyfraniad i ACC* | **£12.4m**<br>*£11.2m yn cyfrifo cyfraniad i ACC* |

**Cyllideb arfaethedig yr Ardoll yng Ngwynedd 2027/28**

Awgrymir y dylid cyfrifo'r gyllideb arfaethedig i Gwynedd ar ffigwr ceidwadol o £2.5m yn y flwyddyn gyntaf y gweithredir yr Ardoll yn lleol, ond rhagwelir y bydd y ffigwr yma yn uwch o ystyried y bylchau yn y data a'r gwahaniaeth enfawr rhwng ffigyrau'r data a ddefnyddiwyd.

## 3. Cynigion ar gyfer defnyddio incwm yr Ardoll yng Ngwynedd

Mae defnydd o'r Ardoll wedi ei gyfyngu ar gyfer pwrpasau 'rheoli a gwella cyrchfan'.

Yng nghyd-destun Cymru amlygir y meysydd canlynol yn y ddeddf:

a. lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
b. cynnal a hybu defnyddio'r Gymraeg;
c. hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
d. darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio)."

Mae'r ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi manylion ar ddiwedd blwyddyn ariannol mewn cyhoeddiad sy'n amlygu faint o incwm sydd wedi ei gasglu a sut mae'r incwm hwnnw wedi ei fuddsoddi er mwyn rheoli a gwella cyrchfan.

O ystyried bod Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 (G+E2035) sy'n adnabod gweledigaeth, egwyddorion ac amcanion clir i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal – bwriedir defnyddio'r blaenoriaethau hyn er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau o'r ardoll yng Ngwynedd.

Ein gweledigaeth o fewn y cynllun yw:

> ***"Economi Ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"***

Mae 3 egwyddor wedi eu cytuno er mwyn gwireddu'r weledigaeth:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn fwy nac unrhyw anfanteision

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein egwyddorion a'n hamcanion yn G+E2035 ochr yn ochr a'r meysydd neilltuo gan yr Ardoll:

| Egwyddor ac Amcan G+E2035 | Maes neilltuo penodol yr Ardoll |
|---|---|
| **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth:**<br>• Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro | • lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;<br>• cynnal a hybu defnyddio'r Gymraeg;<br>• darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt |

| | |
|---|---|
| • Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored | i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio). |
| **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**<br>• Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol<br>• Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. | • lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;<br>• hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;<br>• darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio). |
| **Sicrhau bod y manteision i gymunedau'r ardal yn fwy nac unrhyw anfanteision**<br>• Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn<br>• Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn<br>• Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol | • lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;<br>• hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;<br>• darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio). |

Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol yn cael ei ddatblygu i weithredu'r Cynllun Strategol gan ymateb i holiadur trigolion Gwynedd ar dwristiaeth, holiadur busnes Gwynedd yn ogystal â gwaith cynlluniau Ardal Ni a gweithdai blaenoriaethau gydag aelodau Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035.

Yng Ngwynedd fe allai cynlluniau buddsoddi'r ardoll ganolbwyntio ar rai o'r gweithgareddau canlynol sy'n gweithredu ar yr egwyddorion:

| **Egwyddor ac Amcan G+E2035** | **Enghreifftiau o weithgaredd posib y gellid eu cyllido trwy'r Ardoll yng Ngwynedd** |
|---|---|
| **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth:** | ✓ Ymgyrchoedd i hybu diwylliant a'r Gymraeg<br>✓ Hybu naws am le a Chynnig Cymraeg i fusnesau trwy hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| • Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro<br>• Economi ymweld sy’n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored | ✓ Prosiectau i warchod treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw<br>✓ Cefnogaeth I'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi a’i weithgareddau<br>✓ Cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol<br>✓ Cefnogi defnydd o’r Gymraeg |
| **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**<br>• Economi ymweld sy’n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau’r economi ymweld a’r ein hamgylchedd heddiw ac i’r dyfodol<br>• Economi ymweld sy’n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i’r argyfwng newid hinsawdd. | ✓ Trafnidiaeth gyhoeddus gwell i wasanaethu cymunedau ac unigolion sydd eisiau teithio i waith - bysiau ychwanegol ac yn hwyrach gyda’r nos<br>✓ Isadeiledd sylfaenol (biniau / casglu sbwriel / toiledau / glendid stryd ayb)<br>✓ Cynnal llwybrau poblogaidd a chreu rhai newydd.<br>✓ Gwarchod cynefinoedd e.e. moroedd a dyfroedd<br>✓ Dehongli pwrpasol<br>✓ Cefnogaeth i brosiectau cadwraeth amgylcheddol<br>✓ Ymgyrchoedd a chefnogaeth i gael sector di-blastig<br>✓ Pwyntiau gwefru ceir<br>✓ Cynlluniau dwr ymdrochi neu draethau glan. |
| **Sicrhau bod y manteision i gymunedau’r ardal yn fwy nac unrhyw anfanteision**<br>• Economi ymweld sy’n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau’n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy’r flwyddyn<br>• Economi ymweld sy’n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy’n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy’r flwyddyn<br>• Economi ymweld sy’n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol | ✓ Ymgyrchoedd ymweld i ymestyn y tymor, hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardal ac annog parch a diogelwch.<br>✓ Datblygu pecynnau a theithiau pwrpasol i ymweld a’r ardal a lleihau pwysau ar ardaloedd prysur<br>✓ Cefnogaeth i e.e. Timau Achub Mynydd a morwrol<br>✓ Pecynnau grant i gefnogi busnesau, digwyddiadau a chymunedau<br>✓ Gwella isadeiledd e.e. toiledau, Arosfan, meysydd parcio, gorsafoedd, mynediad at leoliadau ayb<br>✓ Ymestyn oriau wardeiniaid<br>✓ Hyrwyddo neu gefnogi ymdrechion twristiaeth adfywiol, h.y. Twristiaeth |

| | |
|---|---|
| | sydd â effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol a'r amgylchedd.<br>✓ Hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.<br>✓ Datblygu pecyn cynnyrch lleol<br>✓ Cynlluniau cefnogi twf twristiaeth cynaliadwy.<br>✓ Darpariaeth gwybodaeth i ymwelwyr. |

## 4. Sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd

Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sy'n cyflwyno Ardoll yn eu hardal sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll i drafod materion yn ymwneud a'r Ardoll yn lleol. Yn benodol mae disgwyl i'r Fforwm roi gwybodaeth a chyngor ar sut y dylid blaenoriaethu buddsoddiad o incwm yr Ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfan yn yr ardal.

Dylai barn y Fforwm lywio'r broses benderfynu ynghylch buddsoddi incwm yr Ardoll a dylai'r Cyngor ystyried unrhyw wybodaeth neu gyngor a ddarperir gan y Fforwm wrth wneud penderfyniadau.

Rhaid i Awdurdod Lleol gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau bod y Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr

- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio mewn twristiaeth, neu'n gweithredu mewn gweithgareddau cysylltiedig o fewn ardal y prif Gyngor;
- Sefydliadau sy'n hyrwyddo neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y prif Gyngor; a
- Cyrff lleol perthnasol eraill a chynrychiolwyr gyda diddordeb mewn twristiaeth neu lety ymwelwyr yn ardal y prif Gyngor y mae'r cyngor yn teimlo eu bod yn berthnasol.

**Aelodaeth arfaethedig Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr Gwynedd**

Eisoes mae Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 wedi ei sefydlu yng Ngwynedd i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal. Gan bod y bartneriaeth hon hefyd yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, bwriedir creu is Grwp o'r bartneriaeth hon er mwyn bod yn Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr i Wynedd. Bydd yr is-grwp yn ymwybodol o flaenoriaethau strategol Gwynedd & Eryri 2035 a'r cynlluniau gweithredu perthnasol.

**Aelodau arfaethedig y Fforwm**

Cyd-gadeiryddion Gwynedd + Eryri 2035 (x2)

Cynrychiolydd sector mentrau cymunedol

Cynrychiolydd sector twristiaeth

Cynrychiolydd Grwp / Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Lleol

Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Gymuned x3

Cynrychiolydd Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd

Cynrychiolydd Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru

Cynrychiolydd Trafnidiaeth Cymru / Gwynedd

Cynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynrychiolydd Twristiaeth Gogledd Cymru

Cynrychiolydd Twristiaeth Canolbarth Cymru

Swyddogion Cyngor Gwynedd (x2)

Arweinydd Cyngor Gwynedd

Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd

Sylwebydd: Croeso Cymru + Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r Canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r Fforwm weithredu fel platfform i hyrwyddo trafodaethau cydweithredol ac i ddarparu mewn-welediad defnyddiol ac argymhellion ar y ffordd orau o ddefnyddio'r incwm a greir gan yr Ardoll. Bydd y dull yma o weithredu yn sicrhau defnydd tryloyw a theg o adnoddau, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r sector twristiaeth a chymunedau lleol.

Bydd angen sicrhau trefniadau effeithlon a thryloyw o ran llywodraethu ac er mwyn datgan diddordebau mewn unrhyw argymhellion a wneir gan y Fforwm.

Bydd penderfyniadau terfynol ar ddefnyddio incwm yr Ardoll yn gyfrifoldeb i aelodau etholedig Cyngor Gwynedd.

## 5. Cylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Ardoll

Bydd Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd yn is-grwp o Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 (G&E2035), Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy yr ardal.

Bydd y Fforwm yn cyfarfod i:

- Weithredu fel llwyfan i drafodaethau cydweithredol ynghylch yr Ardoll
- Darparu mewnwelediad i weithrediad yr Ardoll yng Ngwynedd
- Adnabod blaenoriaethau o Gynllun Gweithredu G&E2035 i argymell eu cyllido a'u gwireddu trwy incwm yr Ardoll
- Adnabod unrhyw gynlluniau neu flaenoriaethau eraill i'w hargymell i'w gweithredu trwy incwm yr Ardoll
- Monitro gweithrediad yr Ardoll yng Ngwynedd a derbyn adroddiadau ar fuddsoddiadau a wneir trwy'r Ardoll
- Adolygu'r Adroddiad Monitro blynyddol ar yr Ardoll ac argymell ei chyhoeddi
- Darparu barn ar raglen gyfathrebu'r Ardoll yng Ngwynedd
- Goruchwylio Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Fforwm Partneriaeth

Bydd disgwyl i'r Fforwm ystyried gweledigaeth, egwyddorion a chynllun gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 wrth wneud argymhellion ar gyfer buddsoddi incwm yr ardoll ymwelwyr yng Ngwynedd:

*"Economi Ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"*

**Egwyddorion:**

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

**Amlder Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd 2 waith y flwyddyn – i'w adolygu fel yr angen.
Gellir cynnal grwpiau tasg a gorffen neu thematig fel yr angen.

**Cadeirio**

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cyd-gadeirio gan gyd-gadeiryddion Partneriaeth G&E2035

**Ysgrifenyddiaeth a Gweithredu**


Bydd ysgrifenyddiaeth y Fforwm Partneriaeth yn cael ei ddarparu gan Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Gwynedd.

Lle’n ymarferol bosib, bydd rhaglen a phapurau cyfarfodydd yn cael eu cylchredeg at aelodau 7 diwrnod cyn cyfarfod.

Lle’n ymarferol bosib, bydd Pwyntiau Gweithredu cryno’n cael eu cylchredeg at aelodau o fewn 7 diwrnod i gynnal cyfarfod.

**Strwythur cyd-weithio**

Isod amlinellir y strwythur gweithredu a phenderfynu arfaethedig:




Bydd penderfyniadau terfynol ar brosiectau i'w cyllido trwy’r Ardoll yn cael eu gwneud gan Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd wrth ystyried argymhellion y Fforwm Partneriaeth.

6. **Adroddiadau Blynyddol**

Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol gyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol y mae wedi derbyn incwm yr Ardoll. Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol:

- Nodi sut mae incwm o'r Ardoll wedi ei glustnodi;
- Nodi cyfanswm yr incwm sydd wedi ei gasglu trwy'r Ardoll ac wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Lleol;
- Nodi'r refeniw net sydd wedi ei dderbyn ar ôl i gostau gael eu hystyried;
- Darparu manylion am sut mae incwm y flwyddyn dan sylw wedi eu buddsoddi ar gyfer rheoli a gwella cyrchfan;
- Darparu asesiad o effaith y prosiectau hynny ar fusnesau a chymunedau;
- Gellid ystyried cynnwys manylion ar sut y bwriedir buddsoddi arian yn y dyfodol – yn enwedig mewn achosion lle mae incwm yn cael ei gario drosodd i flwyddyn ariannol arall.

Disgwylir i adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi mor fuan a phosib ar ôl 30 Mehefin yn dilyn blwyddyn ariannol ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Monitro a gwerthuso

Unwaith y bydd Ardoll yn weithredol mewn ardal, bydd angen i Awdurdod Lleol asesu effaith yr Ardoll ar eu hardal er mwyn sicrhau nad oes sgil-effeithiau andwyol neu negyddol. Mae'r Canllawiau yn nodi y gall Awdurdodau Lleol fonitro effaith trwy nifer o ddulliau gan gynnwys:

- Dadansoddiad cost-budd y prosiectau, rhaglenni neu weithgareddau a gyllidir trwy'r Ardoll.
- Arolygon, cyfweliadau ac ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid (e.e. Adborth o'r Fforwm Partneriaeth).
- Dadansoddiad tueddiadau, ystyried niferoedd a llif ymwelwyr.
- Dadansoddiad tueddiadau o ddarpariaeth llety ymwelwyr yn yr ardal.

Bydd angen ystyried dangosyddion ar lefel leol ar gyfer penderfyniadau buddsoddi'r Ardoll. Gall rhain gyd-fynd â dangosyddion sydd wedi eu hadnabod ac sy'n cael eu datblygu ar gyfer Cynllun G&E2035:

| | |
|---|---|
| **GE01** | % o drigolion y sir a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol |
| **GE02** | % o drigolion y Sir a holwyd yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru |
| **GE03** | % o fusnesau a mentrau economi ymweld sydd wedi cael achrediad Pencampwr Twristiaeth Cynaliadwy GaE2035 |
| **GE04** | Nifer yr unigolion wedi cofrestru ar gynllun Llysgennad Gwynedd a Eryri |

| | |
|---|---|
| **GE05** | % o drigolion y Sir a holwyd yn deud bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a byd natur |
| **GE06** | Nifer yn defnyddio'r gwasanaeth Sherpa (ceisio adnabod mesuryddion trafnidiaeth ac amgylchedd pellach) |
| **GE07** | Gwariant ymwelwyr dros nos |
| **GE08** | Gwariant ymwelwyr dydd |
| **GE09** | Nifer yn cael eu cyflogi oddi fewn i'r sector twristiaeth |

Bydd hefyd angen monitro:

- Cyfanswm niferoedd ymwelwyr sy'n aros dros nos
- Cyfraddau defnydd gwestai

Gallai dangosyddion ar gyfer buddsoddiadau o incwm yr Ardoll yng Ngwynedd amrywio ar sail y blaenoriaethau fydd yn cael eu cefnogi, ond gallai gynnwys er enghraifft:

- Nifer prosiectau i gefnogi economi ymweld cynaliadwy (diwylliant / iaith / amgylchedd / twristiaeth adfywio)
- Nifer grantiau cefnogi economi ymweld cynaliadwy a ddyrannir
- Cyfanswm buddsoddiad £ a ddenir trwy brosiectau a ariannir trwy'r Ardoll
- Nifer yr ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo egwyddorion G&E2035 a gefnogir
- Cyrhaeddiad yr ymgyrchoedd a gefnogir
- Gwariant ychwanegol yn sgil ymgyrchoedd a gefnogir
- Bodlonrwydd ymwelwyr â Gwynedd
- Km o lwybrau a grëir neu sy'n cael eu gwella
- Nifer oriau agor ychwanegol toiledau cyhoeddus
- Nifer y gwasanaethau bws ychwanegol a grëir
- Nifer yn mynychu digwyddiadau a hyfforddiant a gynhelir trwy incwm yr Ardoll
- ayb

7. **Proses Ymgynghori**

Mae disgwyl i Awdurdod Lleol ymgymryd â phroses ymgynghori ar sail egwyddorion ymgynghori cyhoeddus “Gunning” cyn cyflwyno rhybydd o 12 mis.

Dylai'r ymgynghoriad nodi'r achos dros gyflwyno ardoll gan amlinellu'r manteision posibl a chynnig awgrymiadau ar sut y gellid buddsoddi'r ardoll er budd yr ardal leol, busnesau, trigolion ac ymwelwyr. Mae’r canllawiau yn nodi bod:

- Rhaid i’r ymgynghoriad fod mewn cyfnod ffurfiannol;
- Digon o wybodaeth yn cael ei ddarparu i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb ddeallus;
- Amser digonol yn cael eil roi ar gyfer ystyriaeth ac ymateb;
- Rhaid i’r corff sy’n gwneud penderfyniadau gymryd i ystyriaeth yn gydwybodol yr ymatebion o’r ymgynghoriad.

Rhaid i’r deunyddiau ymgynghori fod yn glir ac hygyrch, dylai amserlenni fod yn realistig a dylai adborth gael ei ystyried yn wirioneddol wrth lunio’r polisi terfynol. Dylai Awdurdod Lleol wedyn ymgynghori gyda chymunedau ynghylch ei gynigion er mwyn ystyried yr ymatebion wrth wneud penderfyniad ar fabwysiadu’r Ardoll.

Y ddogfen hon ydi Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.

**Yr ymgynghorai**

Mae’r Canllawiau yn nodi’r canlynol fel ymgynghorai gorfodol y dylid eu cynnwys:

- **Pobl leol**, h.y. pobl sy’n byw, gweithio neu astudio yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- **Cynghorau cymuned** yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- **Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus** (yn ôl ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol).
- **Y prif gyngor ar gyfer ardal sy’n ffinio ag ardal y cyngor sy’n ymgynghori**, h.y. cynghorau cyfagos, fel eu bod yn ymwybodol o’r cynlluniau. Efallai y bydd yr awdurdodau hefyd yn dymuno ystyried a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Yn achos Gwynedd mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Phowys.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol** ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal yr Awdurdod Lleol
- **Pwyllgor ar y cyd corfforaethol** sy’n cynnwys fel aelod o leiaf un aelod gweithredol uwch o’r prif gyngor.
- **Sefydliadau sy’n cynrychioli busnesau sy’n gweithio ym maes twristiaeth**, neu sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif gyngor; a/neu’n hyrwyddo neu’n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor.
- **Lle mae’r cynnig i gyflwyno’r ardoll**, dylai’r ymgynghoriad gynnwys pob person a nodir yn yr adroddiad yn rhinwedd adran 47(5)(c) o’r Ddeddf (sy’n cyfeirio at

aelodaeth arfaethedig y fforwm partneriaeth ardoll ymwelwyr) nad yw fel arall yn ymgynghorydd gorfodol.

**Fframwaith ymgynghori**

Yn achos Gwynedd byddai'r cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal dros 10 wythnos rhwng Mai a Gorffennaf 2026 ac yn cynnwys:

- Holiadur arlein ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr
- Grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr busnes a chymunedol wedi eu gwahodd i drafod
- Cyfweliadau un i un
- Digwyddiadau arbennig (un ym mhob un o 3 ardal Gwynedd ac un arlein)
- Sesiynau pop-up a galw mewn o fewn y 3 ardal o Wynedd
- Cyfarfodydd Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ystyriaeth ar gyfer yr asesiadau ardrawiad terfynol yn ogystal â bod yn ystyriaeth i benderfyniad y Cyngor ar fabwysiadu'r Ardoll a'i peidio.

**Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Bwriedir sefydlu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn creu trefniadau ffurfiol yn fewnol i'r Cyngor a gyda phartneriaid i gyfathrebu ac ymgysylltu ar ddatblygiad y drefn gofrestru llety dros nos a'r Ardoll o fewn i Wynedd.
Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru ac ACC yn darparu canllawiau statudol maes o law ond, mae drafft ar gael sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel canllaw.

## 8. Asesiadau Effaith Lleol

**Effaith Economaidd**

Gall cyflwyno Ardoll Ymwelwyr gael tair effaith sy'n gwrthdaro ar yr economi leol:

- Gall y prosiectau a'r rhaglenni a fuddsoddwyd ynddynt gefnogi twf yr economi ymwelwyr;
- Mae cyflwyno Ardoll â'r potensial i leihau'r galw am lety; ac
- Mae costau gweinyddu'r Ardoll yn cael effaith negyddol ar y sector twristiaeth.

Y nod cyffredinol ddylai fod sicrhau bod manteision y cynllun yn gorbwyso'r effeithiau negyddol. Mae hyn yn awgrymu:

- Dylai gwariant ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cynyddu twristiaeth;
- Dylid gosod lefel yr Ardoll, i sicrhau bod effeithiau ar y galw yn fach; ac
- Mae costau gweinyddol yn cael eu lleihau.

Ar y pwynt cyntaf, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod yr Ardoll yn cyflawni ychwanegolrwydd o ran gwariant.

<u>Pwysigrwydd yr economi ymweld i economi Gwynedd</u>

Mae'r sector economi ymweld yn bwysig i economi Gwynedd.

Mae Gwynedd ac Eryri yn gartref i atyniadau naturiol a threftadol eiconig gan gynnwys Yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn, un o rannau hiraf Llwybr Arfordir Cymru, traethau a marinas baner las, coedwig fwyaf Gogledd Cymru, dros 100 o lynnoedd, Safleoedd Treftadaeth y Byd ynghyd a Biosffer Dyfi.

Mae 17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Eryri; mwy nag mewn unrhyw barc cenedlaethol arall yng Nghymru; a 56 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r bioamrywiaeth aruthrol yn adlewyrchu amrywiaeth y dirwedd, y ddaeareg, yr hinsawdd a'r dulliau rheoli tir. Mae cyfoeth planhigion ac anifeiliaid yn sylfaenol i hanes, diwylliant, iaith, economi a lles parhaus yr holl bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn ymweld â hi.

Yma ceir nifer o fusnesau, atyniadau a chynhyrchwyr bwyd a diod o'r safon uchaf sydd wedi buddsoddi'n helaeth dros y ddegawd ddiwethaf gan ddarparu profiadau unigryw i drigolion ac ymwelwyr. Dau o sectorau twristiaeth cryfaf y sir yw'r sectorau awyr agored a threftadaeth.

Mae'r ardal yn gadarnle i'r Gymraeg, gyda thros 69% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl cyfrifiad 2011.

Ers canrifoedd mae'r ardal wedi denu ymwelwyr sydd wedi eu cyfareddu gan ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n chymunedau. Heddiw, mae angen adolygu ein blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymweld yn y dyfodol, gweithio'n wahanol a chreu cynllun newydd.

Mae gan yr economi ymweld gyfraniad pwysig i'w wneud i economi a chymunedau Gwynedd ac Eryri - mae angen i'r cyfraniad hwnnw fod yn gytbwys ac yn gynaliadwy er mwyn diogelu ein cymunedau, ein hamgylchedd, iaith a diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae data ac ymchwil yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd gwell yn yr economi ymweld ac o fewn yr economi'n gyffredinol yn ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynnig Ardoll Gwynedd, comisiynwyd Asesiad Ardrawiad Economaidd i asesu beth fyddai'r effaith o gyflwyno Ardoll yn lleol.

O ran maint y sector yng Ngwynedd, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn defnyddio Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024 – dyma hefyd y canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.

Mae hyn yn arwain at gyfartaledd o 0.87 miliwn o ymweliadau, gyda 3.6 miliwn o nosweithiau gwely, gan gefnogi £250 miliwn o wariant. Dylid nodi bod hyn yn cynnwys pob taith, gan gynnwys y rhai sy'n aros mewn llety nad yw'n dod o dan yr ardoll (er enghraifft, aros gyda ffrindiau a theulu).

Dylid nodi bod y set ddata hon wedi dangos gostyngiad yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant o'i chymharu â chyfartaleddau cyn-Covid (2017–2019) a'r data a ddefnyddiwyd yn Nogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gallai'r gostyngiad hwn fod yn rhannol oherwydd newid yn y fethodoleg casglu data, ond mae hefyd yn deillio o ostyngiad gwirioneddol mewn twristiaeth yng Ngwynedd

Fodd bynnag, nid yw defnyddio cyfartaledd 2022–24 yn ystyried y twf mwy diweddar (na'r twf posibl yn y dyfodol) yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant. Felly, cynhwysir prawf sensitifrwydd gan ddefnyddio data nosweithiau gwely a gwariant 2024.

Cynhwysir prawf sensitifrwydd hefyd sy'n defnyddio data STEAM, sydd â niferoedd ymwelwyr a lefelau gwariant llawer uwch – mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll, ond fe'i cynhwysir er cyflawnrwydd, ac oherwydd y nodir y gallai natur wledig Gwynedd olygu bod y GBTS a'r IPS yn tanamcangyfrif niferoedd yr ymwelwyr.

Rhaid nodi bod ansawdd a dibynadwyedd y data sydd ar gael ar lefel genedlaethol heb sôn am lefel Gwynedd er mwyn asesu effaith cyflwyno Ardoll yn hynod o heriol ac wedi ei gyfyngu gan nad yw'n bodoli mewn llawer o achosion.

Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi ystyried sut allai ymwelwyr wneud cyfraniad i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn y Sir – gan gynnwys y prosiect Elwa o Dwristiaeth a gyfeiriwyd ato yn flaenorol. O'r holl opsiynau posib a ystyriwyd bryd hynny – o rodd gwirfoddol gan ymwelwyr, sefydlu Ardal Gwella Busnes Twristiaeth i sefydlu Ardoll Ymwelwyr – yr Ardoll oedd yn amlygu ei hun fel y dull mwyaf effeithiol o sicrhau incwm i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal gan y tybiwyd bryd hynny y gallai godi hyd at £9m o incwm ychwanegol y flwyddyn (ar sail data ymwelwyr STEAM 2017 (Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor)).

Fel cyd-destun lleol, mae data STEAM Gwynedd (sydd hefyd efo rhybuddion / cafeatau ac yn fodel rhyngwladol i asesu tueddiadau o ran nifer ymweld a chyfraniad economaidd) yn amlygu'r canlynol ar gyfer 2024:

Effaith Economaidd: £1.785bn

Nifer ymweld: 7.75m

Nifer dyddiau ymweld: 24.09m

Cyfanswm cyflogaeth: 17,644

Wrth ystyried yr ymchwil sydd wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r bil, yn ogystal â gwaith ymchwil blaenorol a'r canllawiau drafft sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth, mae'r Adran Economi a Chymuned yn cyd-weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi comisiynu cwmni Quod i asesu ardrawiad economaidd cyflwyno Ardoll yn ein hardaloedd. Mae'r canlyniadau yn derbyn barn a mewnbwn gan Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor i fodelau o weithredu lefi mewn Cyrchfannau rhyngwladol ar effaith economaidd ar y cymunedau hynny

Mae'r asesiad ardrawiad a gomisiynwyd ar y cyd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio modelau tebyg a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth wrth ddatblygu asesiadau effaith cenedlaethol. Mae'r data a ddefnyddir wedi ei sylfaenu ar ffigyrau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey) a Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey) ar gyfer y blynyddoedd 2022-2024. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i data STEAM fel rhan o'r asesiad.

Mae'r gwaith ymchwil yma yn canolbwyntio ar:

- Yr ymchwil a'r astudiaethau baratowyd gan Lywodraeth Cymru yn eu hasesiad
- Adolygiad o unrhyw astudiaethau eraill sy'n bodoli
- Asesiad ardrawiad ar lefel Gwynedd – ond gyda llawer o amodau a chafeatau.
- Croes-gyfeirio yn ôl i waith y Llywodraeth
- Casgliad ar yr ardrawiad posib.
- Adolygu'r asesiad ardrawiad drafft yn sgil y broses ymgynghori

Mae'r asesiad ardrawiad effaith economaidd yn dod i'r casgliad y byddai effeithiau'r ardoll yn gymharol fach ar Wynedd. Nodir y canlynol:

*Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ynghyd â bylchau ac ansicrwydd yn y data. O ganlyniad, mae'r asesiad cenedlaethol yn cynnwys nifer sylweddol o amodau (caveats) ac yn dibynnu ar ystodau eang o amcangyfrifon. Mae asesiad ar lefel leol yn wynebu heriau pellach, o ganlyniad i fylchau data mwy amlwg a sylfaen dystiolaeth hyd yn oed yn llai datblygedig ar effaith ardollau ymwelwyr ar lefel leol (o'i gymharu â'r lefel genedlaethol).*

*Y prif amodau / cafeatau sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:*

- *Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch elastigedd y galw. Er bod hyn eisoes yn wir ar lefel Cymru gyfan, mae'r ansicrwydd hyd yn oed yn fwy amlwg pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.*
- *Ceir gwahanol ffynonellau data ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey – IPS) a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey – GBTS), yn unol ag asesiad Llywodraeth Cymru a'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae data STEAM yn dangos economi ymwelwyr sylweddol fwy; nodir goblygiadau hyn yn yr adroddiad.*
- *Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw o fewn Cymru. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir ar lefel ardal lai; er enghraifft, gall rhywfaint o wariant gan ymwelwyr â Gwynedd ddigwydd yng Nghonwy neu Ynys Môn (ac i'r gwrthwyneb).*
- *Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd lefel uwch o ollyngiad (leakage) yn gysylltiedig â gwariant a ariennir drwy'r ardoll, gan y gall rhai busnesau sy'n elwa ar gontractau a ariennir drwy'r ardoll fod wedi'u lleoli y tu allan i Wynedd.*
- *Mae'r asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Ar lefel Gwynedd, bydd yr effeithiau'n wahanol yn dibynnu a yw un awdurdod lleol yn unig yn cyflwyno'r ardoll, neu a yw awdurdodau cyfagos hefyd yn ei gweithredu.*

*Felly, mae'r asesiad ar lefel Gwynedd wedi'i amodi'n briodol, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y bylchau yn y data a'r sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.*

*Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar Wynedd yn gymharol fach, o ran cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n fras debyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn pennu'r "pen-terfynau" (bookends) ar gyfer yr ystod debygol o'r effeithiau hyn.*

*O fewn y prif ddadansoddiad hwn, mae'r rhagdybiaethau a wneir yn gyffredinol yn rhai ceidwadol o ran asesu'r effaith ar yr economi (h.y. maent yn tueddu i oramcangyfrif yr effaith negyddol bosibl). Er enghraifft, mae'n cael ei dybio bod Gwynedd yn colli'r holl wariant ymwelwyr, pan fyddai rhywfaint o'r gwariant hwnnw, mewn gwirionedd, wedi digwydd y tu allan i Wynedd (er enghraifft, pan fydd ymwelwyr sy'n aros yng Ngwynedd yn gwario arian mewn awdurdodau lleol eraill ar deithiau dydd). Mae hefyd yn cael ei dybio bod rhywfaint o ollyngiad o weithgarwch economaidd y tu allan i Wynedd o ganlyniad i wariant yr ardoll, tra'n tybio ar yr un pryd nad yw busnesau Gwynedd yn elwa ar gontractau sy'n deillio o wariant ardollau ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill.*

*Yn yr un modd, mae'r dadansoddiad yn tybio nad oes twf yn economi'r ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gyflwyno'r ardoll. Yn ymarferol, pe bai economi'r ymwelwyr yn tyfu, byddai'r cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu, a gallai gwariant yr ardoll ei hun ysgogi twristiaeth uwch drwy well profiad i ymwelwyr. Byddai hyn yn helpu i gynnal a gwella cystadleurwydd Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth. Ceir tystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ymwelwyr mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.*

*Byddai unrhyw dwf yn economi'r ymwelwyr hefyd yn gwrthbwyso unrhyw golledion i'r economi (o ran swyddi a GVA) sy'n deillio o ymwelwyr nad ydynt yn dod o ganlyniad i'r ardoll, a byddai hefyd yn cynyddu'r refeniw a godir drwy'r ardoll.*

*Serch hynny, ar sail y dull hwn, amcangyfrifir bod effeithiau'r ardoll yn gymharol fach. Hyd yn oed gyda'r rhagdybiaethau ceidwadol hyn (h.y. rhagdybiaethau a allai oramcangyfrif unrhyw effaith negyddol), amcangyfrifir y gallai'r ardoll arwain at:*

*Newid mewn cyflogaeth rhwng -50 a +21 o swyddi – sy'n cyfateb i golled o tua -0.1% neu gynnydd o tua 0.04% o gyflogaeth yng Ngwynedd.*

*Newid mewn GVA blynyddol rhwng -£2.7m a +£0.4m y flwyddyn – sy'n gyfwerth â cholled o tua -0.1% neu gynnydd o lai na 0.01% o economi Gwynedd.*

*Refeniw blynyddol o rhwng £2.4m a £2.8m.*

*Mae'r ystod hon, sy'n amrywio o effaith negyddol gymharol fach i effaith gadarnhaol gymharol fach, yn adlewyrchu canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru, a ddaeth hefyd i'r casgliad bod yr effaith ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod rhwng effaith negyddol fach ac effaith gadarnhaol fach.*

*Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi dwristiaeth bresennol Gwynedd yn sylweddol fwy na'r hyn a nodir gan yr IPS a'r GBTS; pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio, byddai effeithiau'r ardoll tua 4 i 5 gwaith yn fwy. Mae hyn yn tanlinellu'r ansicrwydd yn y data, ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragfynegi effaith yr ardoll.*

## 9. Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Iaith

Comisiynwyd cwmni Quod i'n cynghori ar yr effeithiau posib ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau'r asesiad effaith cydraddoldeb yn erbyn nodweddion gwarchodedig:

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| Oedran | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Oedran unwaith y bydd mesurau lliniaru (gan gynnwys yr eithriad dan 18 oed ar gyfer llety terfyn is) yn cael eu hystyried. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC.<br><br>Mae effeithiau posibl yn gysylltiedig â chyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd, a gweithlu ifanc, ond mae unrhyw effeithiau'r ardoll yn debygol o fod yn fach – a byddant i ryw raddau yn cael eu gwrthbwyso gan wariant yr ardoll. | Mae pobl dan 18 oed wedi'u heithrio o'r ardoll ar gyfer arosiadau â chyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Anabledd | Nododd EQIA LlC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio â pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad ond bod yr opsiwn (heb gynnwys eithriad) yn ymateb cymesur.<br><br>Unwaith y bydd mesur lliniaru (gan gynnwys ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn budd-dal anabledd) wedi'i gynnwys, ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Mecanwaith ad-dalu ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal anabledd sydd yn teithio gyda pherson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran ailbennu rhywedd. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Mae arosiadau mewn ysbytai preifat wedi'u heithrio rhag ardoll. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Priodas a Phartneriaeth Sifil.<br><br>Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |
| Hil | Mae ymwelwyr i Wynedd a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Hil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll.<br><br>Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| | | Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Crefydd a chred | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Crefydd a Chred. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol i ddarparu ar gyfer y rhai y gall eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.<br><br>Mae llety am ddim wedi'i eithrio rhag ardoll ac mae ardoll is ar arosiadau mewn llety â chyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Rhyw | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl mewn perthynas â Rhyw. Nid oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC.<br><br>Ni ragwelir y byddai effaith anghymesur neu wahaniaethol yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ardoll ar ferched (neu ddynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| Cyfeiriadedd rhywiol | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Cyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LlC. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |
| Iaith | Yn ol asesiad Llywodraeth Cymru, gallai effeithiau ar y Gymraeg ymddangos os yw'r ardoll yn lleihau cystadleurwydd a phroffidioldeb y sector twristiaeth, sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys yr ymwelwyr hynny rhag cynnal ymweliadau addysgol â chyrchfannau yng Nghymru.<br><br>Fe allai'r ardoll gefnogi'r diwydiant twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth neu fentrau mewn rhanbarthau Cymraeg eu hiaith.<br><br>Mae'n debygol y bydd effaith fach iawn/dim effaith fesuradwy oherwydd yr ardoll ar y defnydd o'r Gymraeg heblaw sylweddoli efallai y byddai llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg petai colled o ran y galw. Nid oes tystiolaeth yn dangos y byddai pobl yn gadael eu cymunedau oherwydd ardoll ymwelwyr. | Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol i gefnogi'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau a busnesau |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| Anfantais Economaidd-gymdeithasol | Yn ôl asesiad integredig Llywodraeth Cymru, fe allai trethi uwch atal teithwyr sydd ar gyllideb neu unigolion sydd ag incwm is rhag ymweld ag ardaloedd sy'n mabwysiadu ardoll, gan godi pryderon o bosibl am degwch a chynwysoldeb. Fodd bynnag, mae'r ardoll wedi'i chynllunio gyda dwy gyfradd a fydd yn cael eu cymhwyso fesul person y noson. Y gyfradd sylfaenol fydd £1.30 ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety a bydd cyfradd is ar gyfer hosteli a safleoedd gwersylla o £0.75. Mae ychwanegu cyfradd is yn cydnabod bod cost y mathau hyn o lety yn is o gymharu ag eraill. Yn ogystal, ni fydd pobl ifanc dan 18 mlwydd oed wedi eu cynnwys yn y tâl a gyfrifir ar gyfer yr ardoll ymwelwyr mewn arosiadau cyfradd is. Golyga hyn na fydd raid iddynt dalu'r ardoll pan gaiff ei throsglwyddo gan ddarparwr gan na fyddant wedi eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r ardoll (h.y. nid oes ardoll i'w throsglwyddo). | Gall Gweinidogion Cymru asesu a newid y cyfraddau a nodir yn y ddeddfwriaeth i liniaru effeithiau.<br>Defnydd o'r Ardoll yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i'r ardal leol, trwy ddefnyddio'r refeniw i helpu i gynnal ac adfywio'r gwasanaethau a'r seilwaith lleol. |

## 10. Asesiad Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gefnogi pe byddai'n cael ei fabwysiadu:

**GWYNEDD LEWYRCHUS** - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GYMRAEG** - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

**GWYNEDD WERDD** - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON** - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Quod

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb DRAFFT

Cynnig Ardoll Ymwelwyr ar gyfer Cyngor Gwynedd

IONAWR 2026

# Cynnwys

1 Cyflwyniad 1
2 Cyd-destun Asesu Cydraddoldeb 3
3 Crynodeb o Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol 6
4 Cyd-destun Lleol 11

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) hwn yn ystyried yr effeithiau cydraddoldeb posibl sy'n gysylltiedig â Chyngor Gwynedd yn gosod ardoll ymwelwyr. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd i gefnogi eu hystyriaeth o osod ardoll ymwelwyr mewn perthynas â'i Ddyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus (PSED).

## Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

1.2 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ac ati (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi'r dewis i gynghorau yng Nghymru gyflwyno tâl ar arosiadau dros nos. Fe'i hadwaenir fel 'ardoll ymwelwyr' a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027 ymlaen.

1.3 Mae'r ardoll yn daladwy ar ddwy gyfradd ar wahân:

- Lleiniau gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hosteli ac ystafelloedd cysgu): 75c y pen, y noson
- Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson

1.4 Mae yna eithriadau[1]; Ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os ydyn nhw:

- o dan 18 oed ac yn aros ar lain gwersylla neu mewn ystafelloedd a rennir (fel hostel neu ystafelloedd gwely)
- yn aros am fwy na 31 noson mewn un archeb
- mewn tai brys neu dros dro a drefnir gan y Cyngor lleol

1.5 Bydd yr arian o'r ardoll yn cael ei ail-fuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn yr ardal. Mae adran 44, Deddf 2025 yn nodi bod rhaid i gynghorau ddefnyddio enillion yr ardoll ar gyfer:

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

## Diben yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) hwn

1.6 Wrth ystyried a ddylid gosod ardoll ymwelwyr, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd ystyried effeithiau cydraddoldeb posibl a allai fod yn berthnasol i'r nodweddion gwarchodedig o dan

[1] Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol. Ar gael yma

Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010').[2] Pwrpas yr EQIA hwn yw darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r cyngor yn ei rôl fel yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei PSED.

1.7 Mae **Adran 2** yr adroddiad hwn yn darparu cyd-destun trwy nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ac yn esbonio'r fethodoleg a gymhwysir yn yr EQIA hwn, gan ystyried effeithiau anghymesur a gwahaniaethol.

1.8 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal EQIA ar osod ardoll ymwelwyr ledled Cymru.[3] Mae **Adran 3** yn crynhoi canfyddiadau'r EQIA hwn.

1.9 Mae **Adran 4** yn edrych ar effaith gosod ardoll ymwelwyr yng Ngwynedd a'r ffyrdd posibl y gall yr effeithiau hyn ryngweithio â nodweddion gwarchodedig.

1.10 Mae **Asesiad Effaith Economaidd** ar wahân wedi'i gynnal – croes-gyfeirir at hyn lle bo'n berthnasol yn yr EQIA hwn.

[2] Deddf Cydraddoldeb 2010.
[3] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ac ati (Cymru) 2025: Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma

# 2 Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Mae Deddf 2010 yn sail i gyfraith gwrth-wahaniaethu ym Mhrydain Fawr. Mae adran 4 Deddf 2010 yn diffinio nodweddion gwarchodedig amrywiol sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a chred;
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyledus i ystyriaethau cydraddoldeb wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw un ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf hon;
- Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

2.3 Mae'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr angen i (fel y nodir yn Adran 149 (3) Deddf 2010):

- Ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu;
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae eu cyfranogiad yn anghyffredin o isel.

# 3 Methodoleg

## Dull

3.1 Bydd gan bob ymyrraeth ystod o effeithiau, gydag effeithiau cadarnhaol a negyddol o bosibl.

3.2 Bydd gan bawb yr effeithir arnynt gan ymyrraeth rai nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2010, a bydd gwahanol raddau o groestoriadedd (megis oedran, hil a rhyw), ac ni fydd pobl yn cael eu heffeithio yn gyfartal. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod effaith ar gydraddoldeb.

3.3 Er mwyn nodi pa effeithiau sy'n berthnasol i ystyriaethau cydraddoldeb, mae asesiadau cydraddoldeb yn gwahaniaethu effeithiau cydraddoldeb fel y rhai sy'n cael naill ai effaith anghymesur neu wahaniaethol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol o'i gymharu â phobl nad ydynt, fel yr eglurir isod:

- **Anghymesur**: gall fod effaith cydraddoldeb anghymesur lle mae pobl â nodwedd warchodedig benodol yn ffurfio cyfran uwch o'r rhai yr effeithir arnynt nag yn y boblogaeth ehangach.
- **Gwahaniaethol**: efallai y bydd effaith cydraddoldeb gwahaniaethol lle mae pobl â nodwedd warchodedig yn cael eu heffeithio'n wahanol i'r boblogaeth gyffredinol o ganlyniad i wendidau neu gyfyngiadau y maent yn eu hwynebu oherwydd y nodwedd warchodedig honno.

3.4 Ni ellir meintioli graddfa ac arwyddocâd effeithiau o'r fath bob amser. Felly, mae'r ystyriaeth o effeithiau cydraddoldeb yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r effeithiau posibl a nodi a yw effeithiau o'r fath yn andwyol neu'n fuddiol.

3.5 Mae effeithiau cydraddoldeb yn gymhleth ac mae'n anodd rhagweld effeithiau yn gywir ac yn gynhwysfawr. Mae nodweddion gwarchodedig pobl yn bersonol ac nid ydynt bob amser yn hysbys, ac nid yw’r holl bobl a fydd yn byw gerllaw’r ardal, yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi yn y dyfodol eisoes yno heddiw. Am y rheswm hwn, dim ond effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol y gall yr EQIA ystyried.

3.6 Gall unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff cyhoeddus gynnwys yr angen i ystyried a chydbwyso ystod o effeithiau cadarnhaol a negyddol o wahanol fathau. Efallai y bydd mesurau lliniaru rhesymol a all ddileu neu leihau rhai effeithiau cydraddoldeb anghymesur neu wahaniaethol, ond efallai na ellir osgoi rhai effeithiau bob amser.

## Cwmpas yr Asesiad

3.7 Prif amcan EQIA yw rhoi gwybodaeth i Gyngor Gwynedd, ynglŷn â'r effaith debygol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, i lywio eu penderfyniadau.

3.8 Mae tri grŵp eang o bobl a allai gael eu heffeithio gan yr ardoll ymwelwyr:

- Y rhai sy'n cael eu cyflogi (neu a allai fod yn y dyfodol) mewn swyddi twristiaeth (neu sectorau cysylltiedig) y gall cyflwyno'r ardoll effeithio ar eu cyflogaeth – mae hyn hefyd yn berthnasol i berchnogion busnes a allai gael eu heffeithio.

- Trigolion sy'n byw yn yr ardal a allai fod yn cael eu heffeithio wrth gyflwyno'r ardoll – trwy newid yn niferoedd ymwelwyr a / neu sy'n elwa o fuddsoddi'r gwariant ardoll

- Ymwelwyr (neu eraill sy'n aros dros nos) sy'n ofynnol iddynt dalu'r ardoll

3.9 O fewn y grwpiau hyn bydd pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig a bydd graddau amrywiol o groestoriadedd.

3.10 Man cychwyn yr asesiad yw EQIA lefel Cymru gyfan Llywodraeth Cymru[4] (EQIA LIC), gan gynnwys yr asesiad, ymgynghoriad / ymgysylltu a lliniaru. Yna ystyriwn a oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a allai newid canfyddiadau'r WGIA ac arwain at effeithiau anghymesur neu wahaniaethol.

[4]Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ac ati (Cymru) 2025: Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma

# 4 Crynodeb o EQIA Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol

4.1 Mae EQIA Llywodraeth Cymru (EQIA LlC) yn tynnu ar ystod o ddata a ffigyrau ystadegol ar yr holl nodweddion gwarchodedig ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys elusennau, grwpiau anabledd a sefydliadau ffydd i nodi a (lle bo'n bosibl) lliniaru effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb.

4.2 Mae EQIA LlC yn nodi:

> ***'Nod cyffredinol yr ardoll yw cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n dewis defnyddio ardoll ac nid oes disgwyl bod effeithiau "uniongyrchol" ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.'***

4.3 Nododd yr asesiad y bydd ardoll ymwelwyr yn effeithio ar awdurdodau lleol, ymwelwyr, trigolion lleol a busnesau lle mae ardoll yn cael ei weithredu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Diffiniwyd 'effaith uniongyrchol' yr ardoll ymwelwyr fel unrhyw effaith bosibl o orfod talu neu godi'r ardoll. Diffiniwyd 'effaith anuniongyrchol' fel effeithiau posibl oherwydd bodolaeth ardoll.

4.4 Mae EQIA LlC yn cydnabod bod ymchwil bresennol ar effeithiau cyflwyno ardoll ymwelwyr ar nodweddion gwarchodedig yn gyfyngedig felly mae'n defnyddio gwybodaeth ansoddol a rhywfaint o ddata i wneud casgliadau o effeithiau "anuniongyrchol" posibl. Mae'r un cafeatau yn berthnasol i'r asesiad lleol.

## Sefyllfa gyffredinol ar ad-daliadau ac eithriadau

4.5 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgysylltiad ffurfiol ar y Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas ag eithriadau. Yn gyffredinol, roedd y rhai o blaid cymhwyso eithriadau i grwpiau penodol fel arfer yn gwneud hynny ar y sail:

4.5.1 y dylid cymhwyso eithriadau i hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb canlyniadau trwy gefnogi grwpiau â nodweddion gwarchodedig, ac

4.5.2 na ddylid dosbarthu grwpiau penodol fel ymwelwyr ac felly, ni ddylid eu gosod ar ardoll.

4.6 Roedd y rhai oedd yn anghytuno â chymhwyso eithriadau yn gwneud hynny ar y sail y gallai eithriadau gyflwyno cymhlethdodau, cynyddu baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety ymwelwyr, a gallai fod yn annheg gan fod pob ymwelydd yn elwa o'r gwasanaethau a'r isadeiledd ymwelwyr.

4.7 Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn glir bod angen sail bolisi glir ar gyfer cyfradd ostyngedig neu eithriad yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig. Y dull felly yw lleihau'r defnydd o eithriad ond cynnwys cyfradd ardoll is.

4.8 Er mwyn sicrhau bod lefel o flaengarwch yn cael ei bodloni ac nad yw'r rhai ar incwm is yn cael eu hatal neu'n methu â thalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ardoll, mae dwy gyfradd wedi'u nodi yn y Bil: cyfradd is ar gyfer hosteli a gwersylloedd a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall i ymwelwyr.

4.9 Gall Gweinidogion Cymru asesu ac adolygu'r cyfraddau ardoll ymwelwyr sy'n cael eu gosod mewn deddfwriaeth pe bai effeithiau andwyol yn digwydd.

4.10 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi dau gategori o arosiadau mewn perthynas â'r ardoll, a fydd naill ai, wedi'u heithrio neu'n cael eu had-dalu:

- Mae **eithriadau** yn cynnwys arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol, y rhai sy'n ddigartref, llety i geiswyr lloches, ysbytai preifat, adeiladau cymeradwy, cartrefi gofal a safleoedd sipsiwn a theithwyr.
- Gellir rhoi **ad-daliadau** lle nad yw'n bosibl darparu eithriad. Mae hyn yn cynnwys arosiadau lle mae risg i iechyd, diogelwch neu les pe bai unigolyn yn aros yn ei unig neu brif breswylfa, lle mae unigolyn yn ddigartref (ac nad oedd yr arhosiad wedi'i eithrio), ac arosiadau gan y rhai sy'n derbyn budd-dal anabledd lle'r oedd person yng nghwmni person sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth.

4.11 Gwneir eithriadau ar gyfer y grwpiau a'r sefyllfaoedd isod:

- Aros dros nos mewn safle sipsiwn a theithwyr
- Arosiadau a drefnwyd gan y swyddfa gartref fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Arosiadau brys mewn llety ymwelwyr a drefnwyd gan awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- Arosiadau a drefnwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Nid yw'r rhai o dan 18 oed wedi'u cynnwys yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau â chyfradd is.

4.12 Yn yr un modd, mae ad-daliadau ar gael mewn achosion lle nad yw'n bosibl darparu eithriad, megis:

- Arhosiad mewn llety ymwelwyr, sy'n gysylltiedig â thai brys dros dro, a drefnwyd gan sefydliadau elusennol ar ran pobl ddigartref gan gynnwys y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a cheiswyr lloches.
- Pobl anabl sy'n derbyn budd-dal anabledd cymwys sydd wedi talu ardoll ymwelwyr wrth aros mewn llety ymwelwyr ac sydd yng nghwmni gofalwr.
- Arosiadau lle mae risg i iechyd, diogelwch neu les os yw unigolyn yn aros yn ei unig neu brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed neu lle mae tân, llifogydd neu drychineb arall wedi gwneud eiddo yn amhreswyliadwy neu lle mae'r gwasanaethau brys wedi rhoi cyngor i beidio ag aros yn yr eiddo am resymau o'r fath).

4.13 Fel rhan o'r broses ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru â thimau polisi yn Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau byw grwpiau bregus sydd angen llety ymwelwyr.

4.14 O ganlyniad i'r ymgysylltiad hwn, ymgymerwyd â'r camau isod mewn perthynas ag eithriadau ac ad-daliadau:

- Eithriadau:
    - Gwneud yn glir yn Neddf 2025, y mathau o arosiadau mewn llety ymwelwyr nad ydynt yn destun ardoll ymwelwyr i sicrhau bod nodau polisi yn cael eu gwireddu.
    - Y gallu i gyflwyno eithriadau newydd, addasu neu ddileu eithriadau os oes tystiolaeth newydd o unrhyw effaith anghymesur.
- Ad-daliadau – y gallu i ychwanegu at y rhestr o senarios lle gall ad-daliad fod yn berthnasol, os bydd tystiolaeth newydd yn awgrymu hynny.

## Nodweddion gwarchodedig

4.15 Mae Tabl 3-1: Effaith ar nodweddion gwarchodedig – EQIA LIC4

Tabl 3-1: Effaith ar nodweddion gwarchodedig – EQIA LIC4

| Nodwedd warchodedig | Effaith Bosib | Mesur Lliniaru |
|---|---|---|
| Oedran | Dim effeithiau negyddol na chadarnhaol uniongyrchol. Rhai effeithiau eilaidd a nodwyd ar blant a phobl ifanc.<br><br>Gall y gallu i dalu ardoll effeithio ar y rhai sydd ag incwm is, e.e. pobl iau neu bobl ar incwm is. | Mae pobl dan 18 oed wedi'u heithrio o'r ardoll ar gyfer arosiadau â chyfradd is. |
| Anabledd | Gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio gyda pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad. Mae hyn oherwydd y byddai pobl anabl sydd angen gofalwr o bosibl yn wynebu costau ychwanegol oherwydd yr ardoll sy'n berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r person anabl yn wynebu'r costau ychwanegol hynny. | Mecanwaith ad-dalu ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal anabledd sydd yn teithio gyda pherson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth. |
| Ailbennu rhywedd | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | Mae arosiadau mewn ysbytai preifat wedi'u heithrio rhag ardoll. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim effaith negyddol uniongyrchol | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Hil | Dim effaith negyddol uniongyrchol | Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll.<br><br>Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig |
| Crefydd a chred | Dim effaith negyddol uniongyrchol. Gall yr ardoll effeithio ar fforddiadwyedd twristiaeth grefyddol ond mae llety am ddim wedi'i eithrio. | Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol i ddarparu ar gyfer y rhai y gall eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol. |

| Nodwedd warchodedig | Effaith Bosib | Mesur Lliniaru |
|---|---|---|
| | | Mae llety am ddim wedi'i eithrio rhag ardoll ac mae ardoll is ar arosiadau mewn llety â chyfradd is.<br><br>Gellid defnyddio refeniw a gynhyrchir o'r ardoll ar gyfer cadwraeth a chynnal safleoedd crefyddol. |
| Rhyw | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |

4.16 O ganlyniad i'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid, mae mesurau lliniaru ychwanegol a fydd yn cael eu gweithredu yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol yn cyhoeddi adroddiad ar faint o refeniw a gynhyrchir a sut mae'r refeniw wedi'i ddefnyddio at ddibenion cyrchfan a gwella yn yr ardal leol lle caiff ei wario (a adlewyrchir yn Adran 45 Deddf 2025).
- Gweinidogion Cymru yn cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith Deddf 2025 ac yn cyhoeddi adolygiad ar gylch pum mlynedd (a adlewyrchir yn Adran 63 Deddf 2025).
- Monitro'r defnydd o ddata fel arolygon Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol a busnesau.
- WRA yn monitro ac adolygu effeithiolrwydd gweinyddu ardoll drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol a busnesau ac adrodd ar faint o refeniw a gasglwyd.

4.17 Mae canfyddiadau'r asesiad hwn ar lefel genedlaethol ynghyd â'r mesurau lliniaru yn cael eu hystyried isod lle bo'n briodol.

# 5 Asesiad effaith cydraddoldeb lleol

5.1 Mae'r adran isod yn darparu data gwaelodlin ar ddemograffeg y boblogaeth leol ac ymwelwyr mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2010 lle mae data ar gael. Mae hefyd yn darparu cymhariaeth â data demograffig sylfaenol ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.

5.2 Rhagwelir y bydd ymgynghori â rhanddeiliaid yn dechrau yn gynnar yn 2026. Bydd sylwadau drwy'r broses ymgynghori yn llywio cam nesaf yr EQIA (fel bo'n briodol).

5.3 Mae'r mesurau a'r argymhellion lliniaru a nodir yn yr EQIA yn tynnu ar y rhai a gyflwynwyd yn yr EQIA a gynhaliwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru ar osod ardoll ledled Cymru a'r rhai a grybwyllir yn Neddf 2025.

## Nodweddion Gwarchodedig

### Oedran

5.4 Mae'r effaith bosibl mewn perthynas ag oedran yn cael ei ystyried ar gyfer:

- Ymwelwyr
- Poblogaeth leol o ran cyflogaeth

*Ymwelwyr*

5.5 Nododd EQIA LIC 'Efallai bod y rhai mewn oedrannau sy'n gysylltiedig fel arfer ag incwm is (er enghraifft, pobl iau), yn llai abl i fforddio'r gost ychwanegol o lety ymwelwyr'.

5.6 Nid yw'n ofynnol i'r rhai o dan 18 oed sy'n aros mewn arosiadau â chyfradd is dalu'r ardoll am arosiadau â chyfradd is. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar bobl ifanc gan y gallant fod yn fwy tebygol o aros mewn llety ymwelwyr â chyfradd is (er bod EQIA Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes data i gadarnhau'r honiad hwn).

5.7 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi efallai na fydd costau ychwanegol yn atal y rhai sy'n ennill llai i fynd ar wyliau, ond gallai newid ymddygiad mewn ffyrdd eraill, megis aros am gyfnod byrrach neu wario llai.

5.8 Nid yw EQIA LIC yn ystyried yn benodol yr effaith bosibl ar bobl hŷn.

5.9 Tabl 4-1: Proffil oedran ymwelwyr5

5.10 Wrth ddehongli'r tabl, dylid nodi:

- Mae proffil oedran ymwelwyr Gwynedd yn dyddio o 2019, tra bod proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan o 2024.
- Mae proffil oedran ymwelwyr Gwynedd ar gyfer ymwelwyr dydd a dros nos tra bod proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan ar gyfer ymwelwyr dros nos

Tabl 4-1: Proffil oedran ymwelwyr5

| | 16 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55 – 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd (% yr ymwelwyr)[5] | 3 | 18 | 22 | 24 | 18 | 15 |
| Cymru (% y teithiau)[6] | 20 | 27 | 19 | 13 | 13* | 7* |

Noder: lle dilynir ffigwr gyda seren, mae'r maint sylfaen yn is na 100 a dylid trin y ffigwr fel un dangosol.

5.11 Mae'r graddau y mae'n debygol o gael effaith wahaniaethol ar bobl ifanc yn cael ei liniaru (yn rhannol) gan yr eithriad i bobl dan 18 oed o fand isaf yr Ardoll. Nid yw'n ymddangos bod effaith anghymesur (gan fod y data'n awgrymu bod llai o ymwelwyr ifanc o Gymru â Gwynedd na Chymru gyfan).

5.12 Gallai cyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd arwain at effaith anghymesur o ganlyniad i effaith andwyol y cynnydd yng nghost y daith. Ar y llaw arall, mae EQIA LIC hefyd yn nodi'r manteision canlynol, sy'n berthnasol i ymwelwyr a thrigolion (pwyslais wedi'i ychwanegu):

5.12.1 'Gallai'r refeniw ychwanegol hefyd fod o fudd anuniongyrchol i drigolion hŷn ac iau trwy wella ansawdd bywyd cyffredinol yn y gymuned, pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella isadeiledd, gan wneud y gyrchfan yn fwy hygyrch i fwy o bobl'.

5.12.2 'Gallai'r cronfeydd hefyd gefnogi ymdrechion cadwraeth ddiwylliannol, a allai helpu i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth a thraddodiadau lleol, gan fod o fudd i bobl hŷn a allai fod â chysylltiad dyfnach â'r elfennau diwylliannol hyn12, ac i'r gwrthwyneb, i bobl iau drwy gynnal neu greu cyfleusterau newydd i genedlaethau iau eu defnyddio'

*Cyflogaeth*

5.13 Mae EQIA LIC yn nodi bod gan y rhai a gyflogir mewn twristiaeth swyddi sy'n fwy ansicr, h.y. gweithio rhan-amser neu'n treulio llai o amser yn gweithio i'r un cyflogwr. Yn ogystal, mae'r rhai a gyflogir yn y sector twristiaeth yn gyffredinol yn iau.

5.14 Mae EQIA LIC hefyd yn tynnu ar yr asesiad effaith economaidd ar lefel genedlaethol ac yn nodi bod effaith ardoll ymwelwyr ar gyflogaeth rhwng +100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) a thua -400 o swyddi FTE. Mae'r ystod yn codi oherwydd yr ansicrwydd i ba raddau y bydd dirywiad yn y galw am wasanaethau twristiaeth yn cael ei wrthbwyso gan wariant refeniw ardoll ymwelwyr.

5.15 Mae'r nifer cyfatebol ar gyfer Gwynedd rhwng -56 a +16 o swyddi FTE (cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith Economaidd am ragor o ddata). Gallai pobl ifanc deimlo anghyfartaledd o ganlyniad i unrhyw golled swyddi.

5.16 Nododd EQIA LIC fod 38% o weithwyr twristiaeth yn 16-29 oed yn 2022 ledled Cymru. Mae data mwy diweddar yn dangos bod 26% o drigolion Cymru yn gweithio yn y sector Dosbarthu, gwestai a bwytai rhwng 16 a 24 oed dros y cyfnod rhwng Gorffennaf 2024 – Mehefin 2025.[7] Mae hyn yr un fath yng Ngwynedd lle mae'r ffigwr cyfatebol hefyd yn 26%.  Mae cyfran

[5]Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Gwynedd. Ar gael yma
[6]Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma
[7]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Poblogaeth Blynyddol

arbennig o uchel o bobl 16-19 oed (16%) yn gweithio yn y sector yng Ngwynedd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (10%).

Tabl 4-2: Cyflogaeth yn ôl oedran (Dosbarthiad, gwestai a bwytai)5[8] – preswyl (Gorffennaf 2024 – Mehefin 2025)[9]

| Grŵp oedran | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| 16 – 19 | 800 (16%) | 24,400 (10%) |
| 20 – 24 | 1,300 (10%) | 34,300 (15%) |
| 25 – 49 | 6,300 (47%) | 97,200 (43%) |
| 50+ | 5,200 (37%) | 70,500 (31%) |
| **Cyfanswm** | **13,400 (100%)** | **226,400 (100%)** |

5.17 Er efallai y bydd effaith anghymesur (oherwydd tebygolrwydd uwch y bydd pobl ifanc yn cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth), mae maint unrhyw effaith negyddol yn debygol o fod yn fach iawn – mae uchafswm gostyngiad o 56 o swyddi, sydd gyfwerth â cholli 0.1% o gyflogaeth yng Ngwynedd, ac mae hynny'n senario waethaf. Efallai hefyd y bydd effaith gadarnhaol (amcangyfrifir hyd at 16 o swyddi).

5.18 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi, 'pe bai'r refeniw ychwanegol a godir yn ysgogi gwelliannau i'r isadeiledd a'r gwasanaethau lleol, gallai hyn weld cynnydd mewn ymwelwyr â'r ardal, gan sbarduno mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth'.

*Oedran cyffredinol*

5.19 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Oedran unwaith y bydd mesurau lliniaru (gan gynnwys yr eithriad dan 18 oed ar gyfer llety terfyn is) yn cael eu hystyried.

5.20 Mae effeithiau posibl yn gysylltiedig â chyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd, a gweithlu ifanc, ond mae unrhyw effeithiau'r ardoll yn debygol o fod yn fach – a byddant i ryw raddau yn cael eu gwrthbwyso gan wariant yr ardoll. Felly, ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

5.21 Gellid cynnal asesiad pellach o'r effaith debygol ar bobl iau neu hŷn unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar sut y bydd y gronfa yn cael ei gwario.

### Rhyw

5.22 Mae'r effaith bosibl mewn perthynas â rhyw yn cael ei hystyried ar gyfer:

- Ymwelwyr
- Poblogaeth leol o ran cyflogaeth

*Ymwelwyr*

[8] *Ibid*
[9] *Ibid*

5.23 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswylio arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth ar sail rhyw.

5.24 Mae EQIA LIC yn nodi bod astudiaethau wedi adrodd bod dynion yn fwy agored i dalu ardoll ymwelwyr - gall hyn fod oherwydd y rhyngweithio rhwng rhyw ac incwm, lle mae gan ferched incwm is ar gyfartaledd na dynion.

5.25 Mae Tabl 4-3 isod yn dangos fod yna gyfrannau tebyg o ymwelwyr benywaidd a gwrywaidd yn ymweld â Gwynedd a Chymru gyfan (er nad yw'r data ar sail debyg am debyg) ac yn y ddau achos mae cyfran uwch o ymwelwyr benywaidd.

5.26 Wrth ddehongli'r tabl isod, dylid nodi:

- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd yn dyddio o 2019, tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan yn dyddio o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd ar gyfer ymwelwyr dydd a dros nos tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan ar gyfer ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 4-3: Dosbarthiad ymwelwyr yn ôl rhyw5

| | Gwynedd[10] | Cymru[11] |
|---|---|---|
| Benyw | 58% | 59% |
| Gwryw | 42% | 40% |
| **Yr holl bobl** | **100%** | **100%** |

DS efallai na fydd canrannau yn swm o 100% oherwydd talgrynnu

5.27 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi bod arolygon yn awgrymu:

- Cytunodd mwyafrif (58%) yr ymatebwyr y dylai twristiaid gyfrannu tuag at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt. Ychydig iawn (13%) oedd yn anghytuno
- Roedd cytundeb y dylai twristiaid gyfrannu at gynnal a buddsoddi mewn cyrchfannau ac mae hyn yn cyd-fynd yn gryf â gradd gymdeithasol a 'modd ariannol'

5.28 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl mewn perthynas â Rhyw. Nid oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

*Cyflogaeth*

5.29 O ran cyflogaeth, mae EQIA LIC hefyd yn nodi bod cyfran y merched yn y gweithlu twristiaeth ar draws Ewrop hefyd yn aml yn uwch. Fodd bynnag, mae Tabl 4-4 isod yn dangos bod y gyflogaeth ym maes Dosbarthu, Gwestai a Bwytai wedi'i rhannu'n fras yn gyfartal rhwng dynion a merched yng Ngwynedd a Chymru.

[10] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Gwynedd. Ar gael yma
[11] Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma

Tabl 4-4: Cyflogaeth yn ôl rhyw (Dosbarthiad, Gwestai a Bwytai)5[12]

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Benyw | 5,613 (50%) | 132,116 (49%) |
| Gwryw | 5,720 (50%) | 137,360 (51%) |
| **Yr holl bobl** | **11,333 (100%)** | **269,476 (100%)** |

5.30 Ni ragwelir y byddai effaith anghymesur neu wahaniaethol yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ardoll ar ferched (neu ddynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth.

### Priodas a Phartneriaeth Sifil

5.31 Ni ddisgwylir i ddarpariaethau yn Neddf 2025 gael unrhyw effaith ar nodweddion priodas a phartneriaeth sifil. Bydd llety ymwelwyr dros nos ar gyfer priodasau / seremonïau partneriaeth sifil yn destun ardoll.

5.32 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Priodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

### Ailbennu Rhywedd

5.33 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswylio arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd.

5.34 Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth yn Neddf 2025 i'r rhai sydd angen triniaeth feddygol ar gyfer y broses ailbennu rhywedd ac ni chodir ardoll ar arosiadau mewn ysbyty preifat.

5.35 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran ailbennu rhywedd. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

5.36 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswylio arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

#### *Ymwelwyr*

5.37 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 10% o'r teithiau i Gymru wedi'u gwneud gan ymwelwyr LHDTC+ rhwng mis Ionawr a Rhagfyr 2024.[13] Mae EQIA LIC yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai ymwelwyr â'r nodweddion cyfeiriadedd rhywiol hyn dan

[12] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021
[13] Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma

anfantais trwy ddarpariaethau Deddf 2025. Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Gwynedd ar gael ar hyn o bryd.

*Cyflogaeth*

5.38 O ran telerau cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos:

- Mae cyfrannau tebyg o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yng Ngwynedd (4%) o gymharu â Chymru (4%)
- Mae cyfrannau ychydig yn uwch o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai (4%) na'r cyfartaledd ar draws pob sector yng Ngwynedd (2%).

Tabl 4-5: Cyflogaeth preswylwyr yn ôl cyfeiriadedd rhywiol yng Ngwynedd5[14]

| | | Syth neu Heterorywiol | Hoyw neu Lesbiaidd | Deurywiol | Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | Heb ei ateb | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu, gwestai a bwytai | Gwynedd | 89% | 2% | 2% | 0% | 7% | 100% |
| | Cymru | 90% | 2% | 2% | 0% | 6% | 100% |
| Pob sector | Gwynedd | 91% | 1% | 1% | 0% | 7% | 100% |
| | Cymru | 91% | 2% | 1% | 0% | 5% | 100% |

*Cyfeiriadedd Rhywiol – yn gyffredinol*

5.39 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Cyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

**Hil**

5.40 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswylio arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail hil.

5.41 Fel y mae EQIA LIC yn nodi, gall effaith ardollau ymwelwyr ar hil amrywio yn dibynnu ar gyd-destunau penodol a dulliau gweithredu, a ble mae'r refeniw a godir yn cael ei wario. Gellir cymryd mesurau rhagweithiol i sicrhau bod manteision twristiaeth yn cael eu dosbarthu'n decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, gydag ymgysylltiad cymunedol a phrosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol yn hanfodol i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl ar grwpiau ethnig lleiafrifol.

[14]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

5.42 Fel y nodir yn Adran 5, mae mecanwaith ad-dalu sy'n caniatáu ad-daliadau lle mae grwpiau yn cael eu lletya mewn llety ymwelwyr dros dro a thelir am hyn gan elusen gefnogol, mewn sefyllfaoedd brys.

*Ymwelwyr*

5.43 Mae Tabl 4-7 isod yn dangos proffil ethnigrwydd twristiaeth ddomestig dros nos Cymru yn 2024 a phroffil ethnigrwydd ymwelwyr â Gwynedd.

Tabl 4-7: Proffil ethnigrwydd teithiau ymwelwyr ac ymwelwyr5

| Ethnigrwydd yr ymatebydd | Cymru (% y teithiau)[15] | Gwynedd (% yr ymwelwyr)[16] |
|---|---|---|
| Gwyn | 80% | 97% |
| Grwpiau Ethnig Cymysg/aml-ethnig | 3%** | 3% |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 6%* | |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 7%* | |
| Tsieineaidd | 0%** | |
| Arabaidd | 0%** | |
| Grŵp Ethnig arall | 0%** | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud / Ddim yn gwybod / Amhenodol | 3%** | |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

Noder: lle dilynir ffigwr gyda seren, mae'r maint sylfaen yn is na 100 a dylid trin y ffigwr fel un dangosol. Pan ddilynir ffigwr gyda seren ddwbl, mae'r maint sylfaen yn is na 30 a chynghorir defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwn.
Noder: efallai na fydd canrannau yn swm o 100% oherwydd talgrynnu

5.44 Wrth ddehongli'r tabl uchod, dylid nodi:

- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd yn dyddio o 2019, tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan yn dyddio o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd ar gyfer ymwelwyr dydd a dros nos tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan ar gyfer ymwelwyr dros nos domestig.
- Gan fod proffiliau ymwelwyr Gwynedd a Chymru yn deillio o wahanol ffynonellau data, mae'r categorïau ychydig yn wahanol.

5.45 Serch hynny, mae hyn yn awgrymu bod cyfran is o ymwelwyr â Gwynedd sy'n dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

*Cyflogaeth*

5.46 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos:

- Mae cyfrannau is o bobl sy'n dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yng Ngwynedd (9%) o'i gymharu â Chymru (12%).

[15] Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma
[16] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Gwynedd. Ar gael yma

- Mae cyfrannau ychydig yn uwch o bobl sy'n dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai (9%) na'r cyfartaledd ar draws pob sector yng Ngwynedd (7%) – mae hyn yn golygu y gallai newid mewn lefelau cyflogaeth effeithio ar y grŵp hwn (er bod unrhyw newid yn debygol o fod yn fach).

Tabl 4-8: Cyflogaeth preswylwyr yn ôl ethnigrwydd5[17]

| | | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymraeg | Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | Gwyn: Saesneg, Cymraeg, Albanaidd, Gwyddel neu Wyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig | Gwyn: Gwyddelig | Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma neu Wyn Arall | Grŵp Ethnig arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu, gwestai a bwytai | Gwynedd | 3% | 0% | 1% | 91% | 0% | 4% | 1% | 100% |
| | Cymru | 4% | 1% | 1% | 88% | 0% | 5% | 1% | 100% |
| Cyfanswm | Gwynedd | 2% | 0% | 1% | 93% | 1% | 3% | 0% | 100% |
| | Cymru | 3% | 1% | 1% | 91% | 0% | 4% | 1% | 100% |

*Safleoedd Sipsiwn Roma a Theithwyr*

5.47 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi bod ffordd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gynhenid fyrhoedlog ac yn cynnwys symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

5.48 Mae EQIA LIC yn sôn bod trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Thros Gynnal Plant Cymru wedi tynnu sylw at pe bai'r safleoedd parhaol a dros dro dynodedig wedi'u heithrio rhag talu ardoll, yna mae'n annhebygol y byddai effaith sylweddol ar Deithwyr Sipsi a Roma.

5.49 Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cael eu darparu gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll. Roedd 12 o leiniau cofrestredig yng Ngwynedd yn y cyfrif diwethaf (Ionawr 2025), er dylid nodi bod oedi wedi bod ar y gwaith casglu data er mwyn caniatáu adolygiad o'r broses.

5.50 Mae EQIA LIC yn nodi bod Teithwyr Sipsi a Roma yn defnyddio nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, gan gynnwys safleoedd tymhorol, tir sy'n addas ar gyfer stopio wedi'i negodi, safleoedd gwyliau prif ffrwd ar gyfer teithio tymhorol. Byddai aelodau o'r gymuned

[17]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

Teithwyr Sipsi a Roma sy'n defnyddio llety ymwelwyr heblaw ar gyfer eu prif fan preswylio arferol yn destun yr ardoll.

5.51 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd os oes tystiolaeth o effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol.

*Ceiswyr lloches a ffoaduriaid*

5.52 O ystyried na fydd gan geiswyr lloches fynediad at arian neu fynediad cyfyngedig at arian, mae EQIA LIC yn nodi y gallai defnyddio ardoll gael effaith negyddol. Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn caniatáu i lety i geiswyr lloches a drefnwyd gan awdurdodau lleol gael ei eithrio rhag talu ardoll. Mae yna hefyd fecanwaith ad-dalu i ganiatáu i elusennau adennill y costau o'r ardoll ar gyfer unrhyw arosiadau cymwys.

5.53 Ym mis Medi 2025, roedd 3,331 o geiswyr lloches yng Nghymru yn derbyn cymorth y Swyddfa Gartref a oedd wedi'u lletya mewn Llety Argyfwng (gwesty), Llety Cychwynnol, Llety wedi'i Wasgaru (llety tymor hwy) neu'n derbyn cynhaliaeth yn unig.[18]

5.54 Yn yr un modd, ym mis Medi 2025, roedd 44 o geiswyr lloches yng Ngwynedd yn derbyn cymorth gan y Swyddfa Gartref a oedd wedi'u lletya mewn llety wedi'i Wasgaru.[19]

5.55 Mae EQIA LIC yn nodi bod anawsterau o ran nodi faint o ffoaduriaid sydd yng Nghymru ac yn ei gyfanrwydd gan fod diffyg data ar ble mae ffoaduriaid yn ymgartrefu. Serch hynny, mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod 11 achos o ailsefydlu yng Nghymru yn Ch2 2025 (yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Phowys).[20]

5.56 Unwaith eto, mae Deddf 2025 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd os oes tystiolaeth o effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol.

*Hil – casgliad cyffredinol*

5.57 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Hil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

5.58 Mae ymwelwyr i Wynedd a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru.

5.59 Fel y nodwyd gan EQIA LIC, gellir cymryd mesurau rhagweithiol i sicrhau bod manteision twristiaeth, gan gynnwys gwariant y gronfa, yn cael eu dosbarthu'n decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth.

## Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

[18] Y Swyddfa Gartref. Tablau data ystadegau system mewnfudo. Ar gael yma
[19] Y Swyddfa Gartref. Tablau data ystadegau system mewnfudo. Ar gael yma
[20] Y Swyddfa Gartref. Tablau data ystadegau system mewnfudo. Ar gael yma

5.60 Mae EQIA LIC yn nodi'r ymgysylltiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru gyda darparwyr gwasanaethau a goroeswyr i ddeall y profiad byw yn llawnach a deall lefelau'r mathau hyn o senarios.

5.61 Mae eithriadau a mecanweithiau ar gyfer ad-dalu wedi'u cynnwys yn y Ddeddf a bydd canllawiau yn cael eu paratoi mewn perthynas â'r broses ymgeisio (o ran datgelu manylion personol). Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn Adran 4.

### Yr Iaith Gymraeg

5.62 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru ymgymryd â datblygiad cynaliadwy i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y wlad. Un Nod Lles ar gyfer cyflawni hyn yw creu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg. Yn unol â hyn, mae'r EqIA hwn yn ystyried effaith bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd.

5.63 Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi pa mor gyffredin yw sgiliau yn yr iaith Gymraeg ledled Cymru. Mae cyfran y trigolion sydd â rhywfaint o sgil yn y Gymraeg (darllen, ysgrifennu, siarad neu ddeall Cymraeg llafar) yn sylweddol uwch yng Ngwynedd (74%) nag ar draws Cymru (25%).

5.64 Yn ogystal, mae cyfran trigolion Gwynedd sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (55%) bron bedair gwaith cyfartaledd Cymru (14%).

5.65 Mae hyn hefyd yn cael ei nodi gan yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg (WLIA)[21] a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf – dengys fod nifer uchel o 52.9% o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth 16 oed a throsodd sy'n byw yng Ngwynedd ac yn gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd.

5.66 Mae'r WLIA yn nodi'n benodol y gallai Gwynedd gael ei heffeithio o ganlyniad i ardoll o ystyried bod ganddi'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg a'r nifer uchaf o nosweithiau a dreulir gan ymwelwyr domestig o unrhyw awdurdod lleol:

*'Pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chyflwyno yng Ngwynedd ac o ganlyniad, mae'r ardoll yn effeithio ar yr iaith Gymraeg, gallai'r effaith felly fod yn fwy yng Ngwynedd o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill.'*

5.67 Mae'r WLIA yn nodi y gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar y Gymraeg pe bai'n cael ei chyflwyno mewn ardaloedd lle mae cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd. Mae'n nodi y gallai fod effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i:

- Hwb i'r economi leol trwy wario'r ardoll sy'n arwain at gynnydd mewn cyflogaeth yn y sector twristiaeth – awgrymodd yr Asesiad Effaith Economaidd y gallai fod rhwng -56 a +16 o swyddi felly mae hyn yn debygol o fod yn effaith gymharol fach.
- Effaith gadarnhaol o ran amlygiad i'r iaith Gymraeg

[21]https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-09/visitor-accommodation-register-and-levy-wales-act-2025-welsh-language-impact-assessment.pdf

- Defnyddio'r refeniw o'r ardoll i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg neu i ariannu mentrau sy'n gwella'r isadeiledd a'r gwasanaethau mewn ardaloedd sydd â chanran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Gallai hyn hyrwyddo gwelededd, bywiogrwydd a hyfywedd yr iaith Gymraeg, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

5.68 Mae hefyd yn nodi rhywfaint o effaith negyddol bosibl:

5.68.1 Effaith economaidd negyddol bosibl yr ardoll – er, fel y nodir uchod, rhagwelir y bydd uchafswm o golli -56 o swyddi mewn senario gwaethaf cyfatebol (sy'n cyfateb i golli 0.1% o gyflogaeth yng Ngwynedd) ac felly mae'r effaith hon yn debygol o fod yn gymharol fach.

5.68.2 Yr effaith bosibl ar deithiau dros nos sy'n ceisio cefnogi'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gael effeithiau addysgol a diwylliannol. Fodd bynnag, ni fydd raid i rai dan 18 oed dalu'r ardoll wrth aros mewn llety ar ffurf hostel neu ar leiniau gwersylla. Mae rhyddhad yn cael ei gymhwyso ar arosiadau dros nos a ddarperir gan ddarparwyr addysg fel rhan o gyflenwi cwrs astudio a gynigir i ddisgyblion neu fyfyrwyr.

5.69 Ar y cyfan, mae nifer cryf iawn o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, gan gynnwys yn y sector twristiaeth. Gallai ardoll ymwelwyr yng Ngwynedd gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr iaith Gymraeg. Gallai fod effeithiau negyddol bychan yn gysylltiedig â gostyngiad mewn gwariant ymwelwyr, neu gallai fod cynnydd bach o ganlyniad i'r gyflogaeth a gefnogir trwy wariant yr ardoll. Yn yr un modd, gallai fod effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig â chanlyniad gwariant yr ardoll – bydd hynny'n dibynnu ar sut mae'r gronfa yn cael ei gwario (a fydd yn cael ei datblygu gan gynnwys adborth trwy ymgynghori).

### Crefydd a Chred

5.70 Amcangyfrifodd EQIA LIC fod 174,456 o dwristiaid domestig wedi "ymweld ag eglwys gadeiriol, eglwys, abaty neu adeilad crefyddol arall" yn 2023.

5.71 Mae EQIA LIC yn nodi nad oes unrhyw gydberthynas uniongyrchol rhwng ardollau ymwelwyr a chrefydd, cred neu ddiffyg cred. Mae hefyd yn nodi y gallai polisïau neu drethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ryngweithio â rhyddid unigolyn i ymarfer crefydd, yn dibynnu ar natur yr ymweliad. Gallai cyflwyno ardoll ymwelwyr effeithio ar fforddiadwyedd ymweld â lleoedd o'r fath, gan ddylanwadu ar nifer y pererinion neu dwristiaid sy'n ymweld â safleoedd crefyddol oherwydd bod yr ardoll yn cynyddu cost aros i ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr.


5.72 Wrth gynnal yr asesiad ar lefel genedlaethol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yn 2023 a derbyniodd ymateb hefyd i gais pellach am adborth ym mis Mehefin 2024 drwy eu cynrychiolaeth yng Ngrŵp Partneriaeth y Trydydd Sector.

5.73 Ni fyddai'r ardoll yn berthnasol i lety sy'n rhad ac am ddim. Fodd bynnag, bydd yr ardoll yn berthnasol i arosiadau mewn llety ymwelwyr dros nos â chyfradd is (mater a godwyd trwy ymgysylltu gan fod grwpiau ffydd yn aml yn trefnu teithiau gwersylla), er y gall y gyfradd is liniaru effeithiau negyddol posibl.

5.74 Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer nifer y twristiaid sy'n ymweld ag adeilad crefyddol yng Ngwynedd ar gael ar hyn o bryd.

5.75 Fodd bynnag, mae Ffigwr 4-1 yn dangos bod 350 o fannau addoli yng Ngwynedd. Noder bod mapio'r mannau addoli yn ddangosol ac efallai na fydd bob amser yn gyflawn ac nid oes diffiniad cyfreithiol clir o fannau addoli.

Ffigwr 4-51: Mannau addoli yng Ngwynedd




5.76 Efallai y bydd effaith andwyol ar y rhai nad ydynt yn ymwneud â phrosesau digidol fel rhan o'u ffydd. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl, bydd gwasanaeth nad yw'n ddigidol ar gael pan fo angen.

5.77 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Crefydd a Chred. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

### Anabledd

5.78 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswylio arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth ar sail anabledd.

*Poblogaeth*

5.79 Roedd oddeutu 22,500 o bobl yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yng Ngwynedd yn 2021, gan gyfrif am 19.2% o gyfanswm y boblogaeth - yn is na chyfartaledd Cymru o 21.6%.[22]

*Ymwelwyr*

5.80 Yn ôl tystiolaeth hanesyddol, noda EQIA LIC y gallai fod rhai senarios lle gall pobl anabl wynebu costau uwch am aros mewn llety ymwelwyr a nododd rai rhwystrau a heriau i bobl anabl gan gynnwys:

- Rhwystrau amgylcheddol: Dangosodd adroddiad ymchwil Arolwg Anabledd y DU 2021 fod 57% o bobl anabl wedi dweud nad oeddent yn gallu mynd ar wyliau oherwydd problemau hygyrchedd, h.y. mynediad i adeiladau cyhoeddus.
- Mae diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am argaeledd a maint cyfleusterau a gwasanaethau twristiaeth hygyrch a hawliau pobl anabl fel twristiaid. Mae gwybodaeth am gyrchfannau hygyrch yn ffactor allweddol wrth gynyddu cyfleoedd twristiaeth ymhlith unigolion anabl.
- Gall trefnu gwyliau arwain at gostau ychwanegol oherwydd diffyg argaeledd llety a thrafnidiaeth hygyrch a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac yn ystod y tymhorau prysuraf. Mewn arolwg diweddar gan *Leonard Chesire Disability*, a gyhoeddwyd yn *Enable Magazine*, dywedodd 8 o bob 10 o bobl anabl eu bod yn wynebu rhwystrau ac anawsterau aros mewn gwestai a chyrchfannau yn y DU. Nododd dros 70% broblemau dod o hyd i ystafelloedd hygyrch. Mae costau llety hygyrch hefyd yn rhwystr cyffredin i gymryd seibiant i tua 6 o bob 10 o ymatebwyr yr arolwg, gydag ystafelloedd hygyrch yn aml yn cael eu hystyried yn ddrytach.

5.81 Nododd EQIA LIC nifer o heriau eraill gan gynnwys:

- Dewisiadau a chyfleoedd cyfyngedig i bobl anabl a'r rhai â namau - a all effeithio ar eu hansawdd a'u boddhad â'u profiadau twristiaeth.
- Diffyg hygyrchedd i rai pobl anabl mewn gwersylloedd a hosteli sy'n arwain at straen pellach ar gyllidebau teithio – mae hyn yn cael ei liniaru i ryw raddau gan y gyfradd is yn y ddeddfwriaeth.
- Cost ychwanegol a/neu opsiynau cyfyngedig i bobl sydd angen gofalwr, offer arbenigol neu gi tywys.

5.82 Gan gydnabod bod diffyg data a thystiolaeth yn gyffredinol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Autistic UK a Sefydliad Triniaeth Deg i Fenywod Cymru wrth lunio EQIA Llywodraeth Cymru.

5.83 Nododd EQIA LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio gyda pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad.

5.84 Mae EQIA LIC yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer ad-daliadau i bobl anabl a gofalwyr. Yn y pen draw, yr opsiwn a gynhwysir yn y Ddeddf oedd rhoi ad-daliadau i bobl anabl sy'n derbyn

[22] Cyfrifiad 2021

budd-dal anabledd cymwys sydd wedi talu ardoll ymwelwyr wrth aros mewn llety ymwelwyr ac sy'n teithio gyda pherson sy'n darparu gofal.

5.85 Mae EQIA LIC yn cydnabod (yn rhannol oherwydd nad yw'n cynnwys gofalwyr) nad yw'r opsiwn hwn 'yn dileu'r risgiau o wahaniaethu anuniongyrchol yn llawn, ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anuniongyrchol ond hefyd sicrhau uniondeb ac effeithlonrwydd y system dreth'.

5.86 O ran gweithgarwch twristiaeth, mae 31% o'r holl deithiau i Gymru yn cynnwys rhywun sy'n anabl neu sydd â nam. Yn ogystal, roedd 20% o'r holl deithiau dros nos a wnaed i Gymru rhwng mis Ionawr a Rhagfyr 2024 gan y rhai sy'n gofalu am bobl â chyflyrau meddygol.[23] Mae rhai o'r teithiau hyn yn ymwneud â ffrindiau a theulu yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na llety ymwelwyr ac nid yw'n golygu bod yr ymwelwyr hyn yn teithio gyda'r person maent yn gofalu amdano; yn hytrach, dim ond bod ganddynt y math hwn o gyfrifoldeb gofalu.

5.87 Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Gwynedd ar gael ar hyn o bryd.

### *Cyflogwyr a chyflogaeth*

5.88 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi y bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn casglu ac yn rheoli ardoll. Ar gyfer darparwyr llety, rhagwelir y bydd gweithrediad yr ardoll o ddydd i ddydd yn cael yr effaith leiaf ar berchnogion busnes sydd â nam ar eu golwg a/neu glyw oherwydd y sawl ffordd all person ryngweithio â'r WRA – system ddigidol ar gyfer ffeilio a dychwelyd ffurflenni i'r WRA ochr yn ochr â darparu gwasanaeth ffôn a phapur, lle bo angen.

5.89 Yn ogystal, mae EQIA LIC yn nodi bod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr na gweithwyr nad ydynt yn anabl. O'r gweithwyr sy'n gweithio ym maes twristiaeth yng Nghymru, mae 18% yn anabl – cyfran debyg i'r cyfartaledd ym mhob diwydiant.[24]

5.90 Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Gwynedd ar gael ar hyn o bryd.

### *Anabledd yn gyffredinol*

5.91 Nododd EQIA LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n cyd-fynd â pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad ond bod yr opsiwn (heb gynnwys eithriad) yn ymateb cymesur.

5.92 Unwaith y bydd mesur lliniaru (gan gynnwys ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn budd-dal anabledd) wedi'i gynnwys, ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

5.93 Nodir hefyd bod Ysbyty Gwynedd yn ysbyty sydd wedi'i leoli yng Ngwynedd ond, fel yr uchod, mae arosiadau ysbyty wedi'u heithrio o'r ardoll.

[23]Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma
[24]Llywodraeth Cymru. Ystadegau busnes a marchnad lafur sector twristiaeth Cymru. Ar gael yma

5.94 Gellir cymryd mesurau rhagweithiol i sicrhau bod manteision twristiaeth, gan gynnwys gwariant y gronfa, yn cael eu dosbarthu'n decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth - gallai hyn gynnwys mesurau i wella hygyrchedd i bobl anabl i safleoedd twristiaeth.

### Beichiogrwydd a mamolaeth

5.95 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswylio arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

5.96 Nid yw'r ONS yn darparu ystadegau ar nifer y bobl sy'n feichiog. Felly, ystyriodd y dadansoddiad gwaelodlin hwn ddata genedigaethau byw[25] fel procsi. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o 2024 yn dangos bod y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol[26] yn is (42.7) yng Ngwynedd na chyfartaledd Cymru (45.7).

5.97 Eto, nodir bod Ysbyty Gwynedd yn ysbyty a leolir yng Ngwynedd ond, fel yr uchod, mae arosiadau ysbyty wedi'u heithrio o'r ardoll.

5.98 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

## Amddifadedd

5.99 Er nad yw amddifadedd yn cael ei ddosbarthu fel nodwedd warchodedig o dan Ddeddf 2010, fe'i hystyrir oherwydd ei groestoriadedd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

5.100 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Llywodraeth Cymru (2025) yn cyfuno dangosyddion sy'n cynnwys ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd a thai, i roi sgôr amddifadedd ar gyfer pob ardal ledled Cymru (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is [LSOAs]). Ymchwilir wyth maes amddifadedd:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at wasanaethau
- Tai
- Diogelwch cymunedol
- Amgylchedd ffisegol


5.101 Mae pob ardal yn cael ei rhestru mewn perthynas â'i gilydd yn ôl eu lefel o amddifadedd. Mae Ffigwr 4-2 isod yn dangos lefelau cymharol o amddifadedd yng Ngwynedd – mae'r ardaloedd

[25] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024. Genedigaethau Byw.
[26] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021. Cyfrifiad.

a ddangosir mewn coch o fewn y 10% mwyaf difreintiedig, mae ardaloedd mewn oren o fewn y 10% - 20% ardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae ardaloedd melyn o fewn yr 20% - 30% mwyaf difreintiedig.

5.102 Fel y dangosir yn Ffigwr 4-2, mae rhai ardaloedd yng Ngwynedd o fewn yr 20% - 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac ardaloedd bychan ym Mangor a Chaernarfon sydd ymhlith y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ffigwr 4-52: Map IMD ar gyfer Gwynedd




5.103 Bydd yr arian a ddefnyddir o'r ardoll yn cael ei ail-fuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn yr ardal, gan gynnwys darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio), a lliniaru effaith ymwelwyr. Yn dibynnu ar ddefnydd y gronfa, gallai leihau amddifadedd (neu ddangosyddion amddifadedd) o ganlyniad i fuddsoddiad.

## Crynodeb o'r effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig

5.104 Mae Tabl 4-10: Crynodeb o'r effeithiau 5

Tabl 4-10: Crynodeb o'r effeithiau 5

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| Oedran | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Oedran unwaith y bydd mesurau lliniaru (gan gynnwys yr eithriad dan 18 oed ar gyfer llety terfyn is) yn cael eu hystyried. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.<br><br>Mae effeithiau posibl yn gysylltiedig â chyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd, a gweithlu ifanc, ond mae unrhyw effeithiau'r ardoll yn debygol o fod yn fach – a byddant i ryw raddau yn cael eu gwrthbwyso gan wariant yr ardoll. | Mae pobl dan 18 oed wedi'u heithrio o'r ardoll ar gyfer arosiadau â chyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Anabledd | Nododd EQIA LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio â pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad ond bod yr opsiwn (heb gynnwys eithriad) yn ymateb cymesur.<br><br>Unwaith y bydd mesur lliniaru (gan gynnwys ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn budd-dal anabledd) wedi'i gynnwys, ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Mecanwaith ad-dalu ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal anabledd sydd yn teithio gyda pherson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Ailbennu rhywedd | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran ailbennu rhywedd. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Mae arosiadau mewn ysbytai preifat wedi'u heithrio rhag ardoll. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Priodas a Phartneriaeth Sifil.<br><br>Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |
| Hil | Mae ymwelwyr i Wynedd a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Hil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll.<br><br>Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Crefydd a chred | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Crefydd a Chred. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol i ddarparu ar gyfer y rhai y gall eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.<br><br>Mae llety am ddim wedi'i eithrio rhag ardoll ac mae ardoll is ar arosiadau mewn llety â chyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Rhyw | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl mewn perthynas â | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Lliniaru posibl lle bo'r angen |
|---|---|---|
| | Rhyw. Nid oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.<br><br>Ni ragwelir y byddai effaith anghymesur neu wahaniaethol yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ardoll ar ferched (neu ddynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Cyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl |

Quod

# DRAFFT

# Asesiad Effaith Economaidd Ardoll Ymwelwyr Gwynedd

IONAWR 2026

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol 2
2 Cyflwyniad 4
3 Astudiaethau i gefnogi Deddf Llywodraeth Cymru – Effaith Economaidd 7
4 Adolygiad llenyddiaeth pellach 14
5 Asesiad effaith economaidd lefel Gwynedd (gyda chafeat) 17
6 Croeswirio gyda Dadansoddiad Llywodraeth Cymru 34
7 Casgliad 37

DRAFT

# 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi'r dewis i gynghorau yng Nghymru gyflwyno tâl ar arosiadau dros nos. Fe'i gelwir yn 'ardoll ymwelwyr' a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027 ymlaen.

1.2 Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno ardoll ymwelwyr – mae'r Asesiad Economaidd hwn yn ceisio pennu'r effaith economaidd bosibl o wneud hynny.

1.3 Cafwyd nifer o astudiaethau i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r adroddiadau hyn i benderfynu pa mor berthnasol fyddai cymhwyso'r un dull ar lefel fwy lleol.

1.4 Mae’r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ac mae bylchau ac ansicrwydd yn y data. Mae hyn yn golygu bod yr asesiad cenedlaethol yn llawn rhybuddion ac yn dibynnu ar ystodau eang – mae cymhlethdodau pellach yn codi wrth gynnal asesiad lleol o ganlyniad i fylchau yn y data a sylfaen dystiolaeth hyd yn oed yn llai aeddfed ar effaith leol ardollau ymwelwyr (yn hytrach nag ar lefel genedlaethol).

1.5 Y cafeatau allweddol sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:

- Mae ansicrwydd sylweddol yn elastigion y galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac yn fwy gwir byth pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.
- Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd. Mae’r prif ddadansoddiad yn defnyddio’r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) a’r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) – mae hyn yn unol â chanllawiau arfarnu Llywodraeth Cymru a’r arweiniad a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae data STEAM yn adrodd am economi ymwelwyr sy’n llawer mwy o faint ar hyn o bryd – mae goblygiadau hyn wedi’u nodi yn yr adroddiad.
- Ar lefel genedlaethol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei ddal yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir mewn ardal lai – er enghraifft, gall rhywfaint o wariant rhywun sy'n ymweld â Gwynedd fod yng Nghonwy neu Ynys Môn (a fel arall).
- Yn yr un modd, bydd gwariant yr ardoll hefyd yn crwydro i raddau mwy oherwydd efallai na fydd rhai busnesau sy'n elwa o gontractau drwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yng Ngwynedd.
- Roedd yr asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gosod ar draws Cymru gyfan – ar lefel Gwynedd, bydd yna effeithiau gwahanol os bydd un awdurdod lleol yn gweithredu'r tâl, ond nid yw ei awdurdodau cyfagos yn gweithredu'r tâl, o'i gymharu â phe bai pob awdurdod cyfagos yn gweithredu'r tâl.

1.6 Felly, mae'r asesiad ar lefel Gwynedd yn cynnwys cafeatau priodol, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y blychau yn y data  sail dystiolaeth cymharol gyfyngedig, yn enwedig ar y lefel leol.



DRAFT

1.7 Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar Wynedd yn gymharol fach o ran yr effaith ar gyflogaeth a GVA. Rydym wedi defnyddio dull tebyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru i sefydlu pegynau ar gyfer amrediad debygol yr effeithiau hyn.

1.8 O fewn y prif ddadansoddiad hwn, mae'r rhagdybiaethau'n gyffredinol yn geidwadol o ran y dull o asesu'r effaith ar yr economi (h.y. maent yn tueddu i oramcangyfrif yr effaith negyddol). Er enghraifft, rhagdybir fod Gwynedd yn dioddef yr holl golled mewn gwariant ymwelwyr, pan fo'n debygol mewn gwirionedd y bydd rhywfaint o'r gwariant yn cael ei golli y tu allan i Wynedd (gan fod pobl sy'n aros yng Ngwynedd yn gwario arian mewn awdurdodau lleol eraill ar deithiau dydd). Mae hefyd yn rhagdybio bod gollyngiad o weithgarwch economaidd o wariant yr ardoll y tu allan i Wynedd, tra ar yr un pryd yn tybio nad yw busnesau Gwynedd yn elwa o gontractau sy'n deillio o wariant ardollau ymwelwyr gan awdurdodau lleol eraill.

1.9 Yn yr un modd, mae'r dadansoddiad yn tybio nad oes twf yn economi'r ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr mewn ymateb i gyflwyno'r ardoll. Yn ymarferol, pe bai economi'r ymwelwyr yn tyfu, byddai'r cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu, ac yn wir gallai'r gwariant o'r ardoll ysgogi mwy o dwristiaeth drwy wella profiad yr ymwelwyr. Byddai hyn yn helpu i gynnal a gwella cystadleurwydd Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth. Ceir tystiolaeth o dwf blynyddol yn nifer yr ymwelwyr mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.

1.10 Byddai unrhyw dwf yn economi'r ymwelwyr hefyd yn gwrthbwyso unrhyw golledion i'r economi (swyddi a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)) o ganlyniad i'r ymwelwyr hynny nad ydynt yn dod oherwydd yr ardoll, ac o ganlyniad byddai'n cynyddu'r refeniw a godir drwy'r ardoll.

1.11 Serch hynny, ar sail y dull hwn, amcangyfrifir bod effeithiau'r ardoll yn gymharol fach, Amcangyfrifir y gallai'r ardoll arwain at

- Gallai newid mewn cyflogaeth fod rhwng **-50 a +21**, sef rhwng colled o **-0.1%** neu gynnydd o **0.04%** mewn cyflogaeth yng Ngwynedd.
- ▪ Gallai newid blynyddol mewn **Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)** fod rhwng **-£2.7m a +£0.4m y flwyddyn** – mae hyn yn cyfateb i rhwng colled o **-0.1%** a chynnydd o **0.01%** o economi Gwynedd.
- ▪ Refeniw o rhwng **£2.4m a £2.8m y flwyddyn**.

1.12 Mae'r amrediad hwn o effaith negyddol cymharol fach i effaith bositif cymharol fach yn adlewyrchu canfyddiadau Arfarniad Llywodraeth Cymru a ddaeth hefyd i'r casgliad y byddai effaith negyddol fach i effaith bositif fach yn genedlaethol.

1.13 Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi dwristiaeth Gwynedd ar hyn o bryd yn llawer mwy na'r hyn a awgrymir gan yr IPS a'r GBTC – byddai effeithiau'r ardoll tua 4 i 5 gwaith yn fwy pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny. Mae hyn yn tynnu sylw at yr ansicrwydd yn y data ac, o ganlyniad, yr ansicrwydd cynhenid wrth ragweld effaith yr ardoll.

DRAFT

# 2 Cyflwyniad

## Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

2.1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi'r dewis i gynghorau yng Nghymru gyflwyno tâl ar arosiadau dros nos. Fe'i gelwir yn 'ardoll ymwelwyr' a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027 ymlaen.

2.2 Mae'r ardoll yn daladwy ar ddwy gyfradd wahanol:

- Lleiniau gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hosteli ac ystafelloedd cysgu): 75c y pen, y noson
- Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson

2.3 Mae yna eithriadau[1]; Ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os ydyn nhw:

- o dan 18 oed ac yn aros ar lain gwersylla neu mewn ystafell a rennir (fel hostel neu 'dormitories')
- yn aros am fwy na 31 noson mewn un archeb
- mewn llety brys neu dros dro a drefnir gan y cyngor lleol

2.4 Bydd yr arian o'r ardoll yn cael ei ail-fuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn yr ardal. Mae adran 44 y Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio enillion yr ardoll ar gyfer:

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

## Pwrpas yr adroddiad hwn

2.5 Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio pennu'r effaith economaidd bosibl o gyflwyno ardoll ymwelwyr.

2.6 Mae’r adroddiad hwn yn gam dau o broses ddau gam. Comisiynwyd rhan un ar y cyd gan awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, a bu’n adolygu argaeledd y data a’r sylfaen dystiolaeth y gellid eu defnyddio yn yr Asesiadau Effaith Economaidd unigol. Mae hyn yn golygu bod dull unffurf, cyn belled ag y bo’n bosibl ac yn briodol, wedi’i fabwysiadu ar gyfer adolygu a dadansoddi’r data i lywio’r broses ymgynghori. Mae’r Asesiad Effaith Economaidd

[1]http://gov.wales/visitor-levy-small-contribution-lasting-legacy



DRAFT

hwn ar gyfer Cyngor Gwynedd yn adroddiad annibynnol ac mae'n cynnwys y wybodaeth berthnasol o astudiaeth cam un.

2.7 Mae Adran 3 o'r adroddiad hwn yn adolygu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddeall effeithiau economaidd y Ddeddf ar lefel genedlaethol, a'r graddau y gallai'r dull fod yn gymwys ar lefel fwy lleol. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ac mae bylchau ac ansicrwydd yn y data. Felly, mae hyd yn oed yr asesiad cenedlaethol wedi'i amgáu'n helaeth â rhybuddion ac yn dibynnu ar ystodau eang.

2.8 Byddai'r cyfyngiadau hyn hyd yn oed yn fwy amlwg ar lefel leol.

2.9 Y prif rybuddion sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw

- Mae ansicrwydd ynghylch faint o'r ardoll sy'n cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr (wedi'i fodelu fel 'pegynau' ar ddim ond 0% neu 100%)

- Mae ansicrwydd sylweddol yn elastigion y galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac yn fwy gwir byth pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.

- Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer lefel bresennol yr ymwelwyr, nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) – mae hyn yn unol â chanllawiau arfarnu Llywodraeth Cymru a'r arweiniad a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae defnyddio data STEAM yn dangos economi ymwelwyr bresennol sy'n llawer mwy ac, o ganlyniad, effaith fwy – mae hyn yn golygu bod ystod eang o effeithiau posibl ac yn tynnu sylw at yr ansicrwydd cynhenid yn y rhagolygon.

- Ar lefel genedlaethol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei ddal yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir mewn ardal lai – er enghraifft, gall rhywfaint o wariant rhywun sy'n ymweld â Gwynedd fod yng Nghonwy neu Ynys Môn (a fel arall).

- Yn yr un modd, bydd gwariant yr ardoll hefyd yn crwydro i raddau mwy oherwydd efallai na fydd rhai busnesau sy'n elwa o gontractau drwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yng Ngwynedd.

- Roedd yr asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gosod ar draws Cymru gyfan – ar lefel Gwynedd, bydd yna effeithiau gwahanol os bydd un awdurdod lleol yn gweithredu'r tâl, ond nid yw ei awdurdodau cyfagos yn gweithredu'r tâl, o'i gymharu â phe bai pob awdurdod cyfagos yn gweithredu'r tâl.

2.10 Felly, mae'r asesiad ar lefel leol (Gwynedd) wedi'i amgáu'n briodol â rhybuddion, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun yr ansicrwydd yn y data a'r sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.

2.11 Bydd adroddiad wedi'i ddiweddaru yn cael ei gynhyrchu os daw data pellach ar gael, neu os bydd data neu adborth pellach a dderbynnir drwy'r broses ymgynghori yn arwain at newid ystyrlon i gasgliadau'r Asesiad Effaith Economaidd.

2.12 Mae gweddill yr adroddiad yn ymdrin â:

- Adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddeall effaith economaidd y Ddeddf (Adran 3)
- Adolygiad llenyddiaeth ehangach i ddeall i ba raddau y mae tystiolaeth yn bodoli a fyddai'n caniatáu gallu defnyddio'r dull Cymru gyfan ar raddfa ddaearyddol lai (Adran 4)
- Asesiad effaith economaidd lefel Gwynedd (gyda chafeat) (Adran 5)
- Croeswirio â Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan gyfrif am bwysigrwydd cymharol twristiaeth i Wynedd (Adran 6)
- Casgliad (Adran 7)

DRAFT

# 3 Astudiaethau i gefnogi Deddf Llywodraeth Cymru – Effaith Economaidd

3.1 Bu nifer o astudiaethau i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Ddeddf. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics, 2022
- Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Ysgol Busnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024 – cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel dadansoddiad 2024 Llywodraeth Cymru
- Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr, Llywodraeth Cymru, 2025 – cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel dadansoddiad 2025 Llywodraeth Cymru
- Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor 2024

3.2 Mae'r adroddiadau hyn wedi'u gwneud ar lefel Cymru gyfan ac yn destun sawl cafeat.

### Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics, 2022

3.3 Fe wnaeth Alma Economics gynnal Asesiad Tystiolaeth Gyflym (REA) a adolygodd y llenyddiaeth ar elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

3.4 Roedd yn ceisio amcangyfrif elastigedd prisiau y galw gan dwristiaeth a llety yn arbennig. Elastigedd Pris y Galw (PED) yw mesur o ymatebolrwydd y galw am nwyddau neu wasanaeth pan fydd ei bris yn newid. Mae PED negyddol yn dynodi gostyngiad ym maint y galw pan fydd y pris yn cynyddu. Mae elastigedd galw uchel yn dangos bod faint o nwyddau neu wasanaeth y mae pobl yn galw amdano yn ymatebol iawn i newidiadau yn eu pris, sy'n golygu y gall newid bychan yn y pris arwain at newid sylweddol yn y galw. Galw anelastig (neu elastig isel) yw pan nad yw'r galw yn ymatebol i'r pris.

3.5 Fe wnaeth yr adroddiad ganfod lefel uchel o ansicrwydd a bylchau sylweddol yn y dystiolaeth. Hyd yn oed pan ganfuwyd tystiolaeth berthnasol, roedd amrywiad mawr ym maint yr amcangyfrifon o elastigedd ac nid oedd unrhyw astudiaethau oedd yn rhoi amcangyfrifon penodol i Gymru a dim ond lleiafrif fechan o astudiaethau oedd yn ystyried marchnad y DU.

3.6 Roedd amrywiadau sylweddol yn y canfyddiadau ar gyfer twristiaeth – er bod y mwyafrif o astudiaethau (70%) wedi canfod bod twristiaeth yn anelastig, roedd rhai astudiaethau yn adrodd galw elastig. Y PED canol-ystod ar gyfartaledd ar draws pob astudiaeth oedd -0.7 a'r canolrif oedd -0.9. Mae hyn yn golygu bod cynnydd o 1% ym mhris nwyddau neu wasanaeth yn arwain at ostyngiad o 0.7% yn y galw.



DRAFT

3.7 Dim ond dwy astudiaeth oedd yn ystyried llety yn benodol - dangosodd y rheini ei fod yn anelastig i bris (ar -0.7). Mae'r adroddiad yn cynnwys cafeat y dylid dehongli'r rhain yn ofalus o ystyried y nifer cyfyngedig o astudiaethau. Roedd o leiaf un o'r adroddiadau hyn yn seiliedig ar dwristiaeth ryngwladol yn benodol – ac felly bydd yn llai perthnasol i farchnad ddomestig.

3.8 Mae'r adroddiad ei hun yn cydnabod mai ychydig iawn o dystiolaeth a ddarparodd yr adolygiad sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil mwy cynnil, gan gynnwys (i) golwg ar y pethau sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu debyg ar y galw am dwristiaeth, a (iii) sut y gall yr elastigion yr edrychwyd arnynt amrywio yn dibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e., yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig).

3.9 Mae'r adroddiad ei hun hefyd yn glir bod yr astudiaethau hyn yn rhoi ychydig iawn o wahaniaethau tystiolaeth a allai ddigwydd ar lefel is-ranbarthol, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau yn canolbwyntio ar effeithiau cenedlaethol a / neu dwristiaeth ryngwladol.

## Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Ysgol Busnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024

3.10 Mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effaith yr ardoll yn economaidd ac ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar lefel Cymru gyfan. Rydym wedi ei adolygu i ddeall i ba raddau y gellid defnyddio dull tebyg i amcangyfrif effaith ardoll mewn Awdurdodau Lleol unigol.

3.11 Mae'r adroddiad yn cynnwys dau senario:

i. 100% o'r ardoll yn cael ei drosglwyddo o'r busnes i ddefnyddwyr.

ii. 100% o'r ardoll yn cael ei amsugno gan y busnes

3.12 Nid yw'r dadansoddiad yn cyfrif am newidiadau ar ochr y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.

***100% o'r ardoll yn cael ei drosglwyddo o'r busnes i ddefnyddwyr.***

3.13 Mae'r astudiaeth yn cyfrifo'r effaith debygol ar yr astudiaeth mewn tri senario (optimistaidd, niwtral a phesimistaidd) yn seiliedig ar ystod o elastigion a gymerwyd o'r astudiaeth Alma. Mae'n cymhwyso'r rhain i wahanol segmentau ymwelwyr (dau ddomestig gyda phatrymau gwariant gwahanol ac ymwelwyr tramor). Mae hyn yn arwain at newid yn y galw gan ddefnyddwyr ar gyfer pob segment.

3.14 Mae'r adroddiad yn defnyddio elastigion o astudiaeth Alma Economics sydd (fel y gwelir uchod) yn cynnwys ansicrwydd sylweddol, bylchau data, ac sy'n seiliedig i raddau helaeth ar dwristiaeth ryngwladol ac effeithiau cenedlaethol. Bydd y mater o gymhwyso elastigion cenedlaethol yn fwy problematig ar lefel Awdurdod Lleol nag y byddai ar lefel Cymru gyfan.

3.15 Mae'r astudiaeth yn tybio bod elastigedd pris y galw yn bwydo'n uniongyrchol i'r economi – h.y. mae'r cynnydd yn yr ardoll yn arwain at ostyngiad yn y galw (yn ardal yr astudiaeth) sy'n golygu gostyngiad yng nghyfanswm gwariant y daith (hefyd yn ardal yr astudiaeth). Gallai hyn fod naill ai oherwydd nad yw pobl yn ymweld ag ardal yr astudiaeth neu eu bod yn ymweld â'r ardal am gyfnod byrrach o amser o ganlyniad i'r ardoll.



DRAFT

3.16 Mae'r model wedyn yn defnyddio tablau Mewnbwn-Allbwn i bennu'r effaith debygol ar Economi Cymru.

***100% o'r ardoll yn cael ei amsugno gan y busnes***

3.17 Mae'r senario hwn yn tybio nad oes unrhyw newid i ymwelwyr na refeniw a bod busnesau yn amsugno'r holl gostau. Mae'r adroddiad yn tybio nad oes unrhyw newidiadau ar ochr y cyflenwad – h.y. nid oes unrhyw fusnes yn gadael y farchnad, neu'n gyndyn o ddod i mewn i'r farchnad yn y dyfodol, yn hytrach mae'r ardoll yn cael ei gymryd o allbwn y busnesau.

3.18 Mae'n tybio nad oes unrhyw golledion mewn cyflogaeth a dim ond gostyngiadau mewn cyflog (ac elfennau eraill o allbwn). Mae hyn yn debygol o danamcangyfrif y golled cyflogaeth oherwydd – mewn gwirionedd, byddai colli refeniw yn arwain at ostyngiad mewn staff yn ogystal â gostyngiad mewn cyflogau.

***Materion a Chafeatau***

3.19 Mae'r adroddiad ei hun yn tynnu sylw at gafeatau sylweddol:

- **Ansicrwydd Elastigedd Pris**: fel yr uchod, mae ansicrwydd sylweddol yn yr elastigion – mae hyn yn wir ar lefel Cymru a bydd yn fwy gwir byth pe bai'n cael ei ddefnyddio mewn ardal astudiaeth lai.
- **Cyflenwad Llety**: fel uchod, nid yw'r model yn cyfrif am newidiadau ar ochr y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- **Rhagdybiaethau Pasio Drwodd**: fel uchod, mae'r adroddiad yn asesu 'pegynau' yr effaith debygol drwy asesu'r effaith os yw'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ymwelwyr neu ei hamsugno gan fusnesau – nid yw'n ceisio asesu i ba raddau y mae un yn fwy neu'n llai tebygol.
- **Costau yng Nghymru**: Mae'r dadansoddiad yn cynnwys costau yng Nghymru yn unig ac felly mae'n debygol o danamcangyfrif cyfanswm costau'r daith, yn enwedig ar gyfer teithiau rhyngwladol. Bydd hyn felly yn goramcangyfrif y gostyngiad mewn teithiau rhyngwladol ar ôl yr ardoll (ac felly'n cyflwyno'r senario waethaf)
- **Cyfyngiadau Blwyddyn Sylfaen**: Mae'r ardoll wedi'i fodelu ar ddata twristiaeth 2019 oherwydd cyfyngiadau data, gan addasu'r cyfraddau ar gyfer chwyddiant.
- **Chwyddiant yn y dyfodol**: Nid yw chwyddiant a newidiadau sector yn y dyfodol wedi'u cynnwys – mae'n gipolwg mewn amser mewn blwyddyn benodol, i bob pwrpas.
- **Costau gweinyddol**: Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys unrhyw gostau ffrithiant na gweinyddol y gallai unrhyw Ardoll newydd ei gynnwys.

## Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr, Llywodraeth Cymru, 2025

3.20 Mae'r adroddiad hwn wedi diweddaru'r gwaith blaenorol ar gyfer dwy set o gyfraddau. Defnyddiwyd un o'r setiau hynny o gyfraddau (£1.30 safonol / £0.75 is) yn y Ddeddf yn ddiweddarach. Roedd y dadansoddiad hefyd yn eithrio plant a phobl ifanc sy'n aros mewn llety Band Isaf, gan eu bod wedi'u heithrio o'r Ardoll.



DRAFT

3.21 Defnyddiodd yr adroddiad fethodoleg debyg i'r gwreiddiol ond nododd: 'Mae cyfyngiadau ar amser a mynediad at bensaernïaethau data yn golygu nad yw addasiad llawn, cwbl gymaradwy, o asesiad effaith 2024 yn bosibl'.

3.22 Mae canlyniadau'r dadansoddiad ar lefel Cymru i'w gweld yn Nhabl 3.1.

DRAFT

Tabl 3.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol yn adroddiad Llywodraeth Cymru

| | | | Amrediad tebygol |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr | FTEs | -400 i 100 |
| | Busnesau'n amsugno'r ardoll | FTEs | 360 |
| GVA Blynyddol (£m) | Trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr | | -£7.5m i +£11.1m |
| | Busnesau'n amsugno'r ardoll | | -£32.3m |

## Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor 2024

3.23 Fe wnaeth Prifysgol Bangor gynnal adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardollau ymwelwyr mewn gwahanol gyrchfannau byd-eang. Yna rhoddodd yr adroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru ar weithredu'r ardoll.

3.24 Roedd yr adroddiad wedi adnabod pum astudiaeth achos / ardal a oedd wedi gweithredu ardollau ymwelwyr a oedd yn debyg i Gymru o ran y ddibyniaeth ar y sector twristiaeth a/neu eu cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol. Roedd hyn yn golygu bod yr astudiaethau achos yn cynnwys lleoedd sydd, fel Cymru, yn dibynnu ar eu diwydiant twristiaeth.

3.25 Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar weithredu'r ardoll – gan gynnwys yr hyn y gellir gwario'r ardoll arno, y broses a'r awdurdod gwneud penderfyniadau, atebolrwydd lleol, sgôp y prosiect a'r gweithgareddau a ariennir, effaith y prosiectau a ariennir (gan nodi diffyg tystiolaeth) a'r angen am dryloywder, atebolrwydd, monitro a gwerthuso.

3.26 Nid oedd yn canolbwyntio ar effaith yr ardoll ar y sector twristiaeth yn benodol, er bod rhai casgliadau sy'n llywio ein hadroddiad:

- Mae tystiolaeth gyfyngedig ar effeithiau trethi twristiaeth: 'Mae **asesiad cynhwysfawr o effeithiau trethi twristiaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig**, er gwaethaf eu cymhellion clir dros weithredu'.
- Yn gyffredinol, mae **twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr wedi parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn** (er na allwn wybod beth fyddai'r gwrth-ffeithiol wedi bod heb ardoll).
- **Mae rhai lleoliadau yn dewis amrywio'r dreth yn ystod gwahanol dymhorau** – er enghraifft, mae'r Ynysoedd Balearaidd wedi gweithredu dwy ardoll ymwelwyr ar wahân: €0.25 - €1 y pen y noson yn y tymor isel (Tachwedd - Ebrill) a €1 - €4 y pen y noson yn y tymor uchel (Mai - Hydref).[2] **Tra nad yw eraill yn gwneud hynny:** yn Mareo a San Martin, lle mae'r tymor yn amrywio'n aruthrol (mae nifer yr ymwelwyr yn y pedwar mis prysuraf dros ddeg gwaith y nifer yn y pedwar mis tawelaf), mae ardoll ymwelwyr fflat wedi'i osod trwy gydol y flwyddyn (€1.50 - €3.50 y pen y noson).
- Mae rhai lleoliadau (Catalwnia / Barcelona a'r Ynysoedd Balearaidd) **yn amrywio yn ôl math / ansawdd y llety** (gan gynnwys gwahanol gyfraddau ar gyfer gwestai â gwahanol

[2]Llywodraeth Cymru, 2024. Adolygiad o ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang yma

ansawdd 'seren'). Tra **nid oes gan eraill gymaint o wahaniaeth**: Cyflwynodd Gwlad yr Iâ gyfradd fflat i ddechrau ac yna rhannu'r gyfradd yn dri categori eang sef gwersylla, gwestai, a llongau mordaith.

## Casgliadau a goblygiadau ar gyfer ein hastudiaeth

3.27 Mae'r gwaith a wnaed i gefnogi Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith fod bylchau yn y sail dystiolaeth ar gyfer deall effaith economaidd yr Ardoll Ymwelwyr. Mae hyn yn golygu bod yr astudiaeth effaith economaidd ar lefel Cymru o reidrwydd yn cynnwys cafeatau ac yn cynnwys amrediadau eang / pegynau ar gyfer yr effaith debygol.

3.28 Byddai defnyddio dull Llywodraeth Cymru ar lefel ardal fwy lleol yn cynnwys yr un cafeatau a materion – a byddai rhai o'r materion yn fwy amlwg mewn ardal astudiaeth lai.

3.29 Mae'r manylion wedi'u nodi uchod, ond mae'r materion allweddol yn cynnwys:

- **Tystiolaeth berthnasol gyfyngedig sydd yno ar Elastigedd Pris y Galw** – mae'r ddau arfarniad economaidd gan Lywodraeth Cymru yn defnyddio'r PEDs o'r Astudiaeth Alma sy'n astudiaethau cenedlaethol ar gyfer twristiaeth ryngwladol yn bennaf. Nid oes unrhyw astudiaethau penodol i Gymru a dim ond dwy sy'n edrych yn benodol ar lety (yn hytrach na thwristiaeth yn ei gyfanrwydd). Daw'r broblem o ddefnyddio'r elastigion hyn hyd yn oed yn fwy acíwt mewn ardal astudiaeth lai gan nad yw'n glir bod elastigion cenedlaethol yn dal dŵr ar lefel is-ranbarthol.
- Nid yw'r dadansoddiad yn **rhoi barn ar i ba raddau y caiff yr ardoll ei throsglwyddo** – mae ganddo begynau ar gyfer effaith 0% neu 100% o'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr.
- Nid yw ychwaith yn **caniatáu am newidiadau ar ochr y cyflenwad** – h.y. nid yw'n caniatáu am y posibilrwydd y bydd rhai busnesau yn gyndyn o ymuno â'r farchnad, neu y byddant yn gadael y farchnad. Yn y senario lle caiff yr ardoll cyfan ei throsglwyddo i fusnesau, tybir nad oes unrhyw golled mewn cyflogaeth (dim ond colled mewn cyflogau).
- **Ychydig iawn o dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau mwy cynnil**, gan gynnwys (i) golwg ar y pethau sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu debyg ar y galw am dwristiaeth, a (iii) sut y gall yr elastigion yr edrychwyd arnynt amrywio yn dibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e., yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig). **Golyga hyn bod y dadansoddiad yn gwneud rhagdybiaethau llinol yn bennaf yn seiliedig ar gyfartaleddau.** Mae hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cymhwyso nodweddion lleol i'r astudiaeth (ac felly addasu'r fethodoleg yn yr asesiad cenedlaethol i lefel fwy lleol).
- Nid yw'n **cynnwys costau y tu allan i'r wlad** sy'n debygol o danamcangyfrif cyfanswm cost y daith, yn enwedig ar gyfer teithiau rhyngwladol. Bydd hyn felly yn goramcangyfrif y gostyngiad mewn teithiau rhyngwladol ar ôl yr ardoll (ac felly'n cyflwyno'r senario waethaf).
- Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried beth y caiff gwariant ymwelwyr sy'n cael ei 'golli' o ganlyniad i'r ardoll ei wario arno yn lle – gallai hyn fod yn dripiau dydd (yn hytrach na thripiau dros nos) neu drigolion Cymru yn gwario arian ar bethau eraill (yn hytrach na gwyliau yng Nghymru). Mae'r dull hwn unwaith eto yn debygol o roi'r senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru. Mae hyn yn debygol o fod yn llai perthnasol ar

DRAFT

lefel Gwynedd na lefel Cymru gan fod y rhai sy'n ymweld â Gwynedd (sy'n gyndyn o dalu ardoll) yn annhebygol o fyw yng Ngwynedd hefyd (tra gall preswylydd o Gymru hefyd fynd ar wyliau yng Nghymru – er enghraifft, efallai y bydd preswylydd Caerdydd yn gwario arian yng Nghaerdydd yn hytrach na mynd ar wyliau i Wynedd).

DRAFT

# 4 Adolygiad llenyddiaeth pellach

4.1 Fe wnaethom gynnal adolygiad llenyddiaeth pellach i ddeall i ba raddau y mae tystiolaeth yn bodoli a fyddai'n

- Caniatáu addasu'r dull Cymru gyfan ar gyfer asesiad ar lefel leol.
- Llenwi'r bylchau tystiolaeth a nodwyd uchod

4.2 Ychydig iawn o dystiolaeth ychwanegol oedd yno tu hwnt i'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Ddeddf.

4.3 Roedd amryw o enghreifftiau eraill lle bu twf parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr (er, fel y nodir uchod, nid oes modd i ni wybod beth fyddai'r gwrth-ffeithiol wedi bod heb ardoll).

4.4 Y cwestiynau eraill y ceisiodd yr adolygiad llenyddiaeth eu hateb oedd:

- I ba raddau y caiff ardoll ymwelwyr ei throsglwyddo i ymwelwyr?
- Sut mae effaith ardoll ymwelwyr yn newid gyda'r tymor neu boblogrwydd cyrchfan?
- Sut mae cost llety / taith yn newid effaith yr ardoll? Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol i ateb y cwestiwn hwn.
- A yw ymwelwyr yn addasu eu gwariant ehangach ar drip os ydyn nhw'n talu cost yr ardoll?

### I ba raddau y caiff ardoll ymwelwyr ei throsglwyddo i ymwelwyr?

4.5 Bydd y graddau y mae ardoll ymwelwyr yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr yn penderfynu p'un ai defnyddwyr ynteu ddarparwyr llety fydd yn ysgwyddo cost yr ardoll. Fel y nodir uchod, nid yw arfarniad economaidd Llywodraeth Cymru yn cymryd barn ar hyn ond mae'n profi'r pegynau bod 0% neu 100% yn cael ei throsglwyddo.

4.6 Mae'r llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth gymysg ar y gyfradd pasio (sef i ba raddau y mae busnesau'n trosglwyddo newidiadau mewn treth fel newidiadau mewn pris i ddefnyddwyr) mewn ardoll ymwelwyr neu fecanweithiau treth eraill.

4.7 Fe wnaethom edrych ar wahanol fecanweithiau treth i bennu cyfraddau pasio:

- Dangosodd adolygiad o drethi llety yn ninasoedd yr Unol Daleithiau fod treth llety yn annhebygol o gael ei throsglwyddo'n llawn i'r ymwelwyr – mae tua 86% o'r dreth a delir yn cael ei thalu gan ymwelwyr ac mae'r 14% sy'n weddill yn cael ei amsugno gan ddarparwyr llety ar ffurf cyfraddau llety is neu lai o ddefnydd.[3]
- Canfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod lefel uchel o drosglwyddo'r gost yn y tymor hir ond roedd ganddo hefyd enghraifft o ble nad oedd trethi yn cael eu pasio drwodd. Er

[3]Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., & Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics, 27*(1), 205-219. Ar gael yma

enghraifft, dangosodd astudiaeth achos o Disneyland Paris eu bod yn annhebygol o drosglwyddo cynnydd mewn cyfraddau TAW yn 2014 i ymwelwyr oherwydd sensitifrwydd ymwelwyr i brisiau uchel. Roedd hyn yn golygu bod Disneyland wedi amsugno cost y cynnydd TAW i liniaru'r effaith ar nifer yr ymwelwyr a gwariant ymwelwyr.[4]

- Roedd astudiaeth a edrychai ar basio trethi teithwyr awyr i gost tocynnau awyr ledled Ewrop yn amcangyfrif cyfraddau pasio treth teithwyr awyr o rhwng 20% a 56%.[5] Mae'r un astudiaeth yn sôn bod cyfran defnyddwyr o'r baich treth yn dilyn newid i TAW yn Ffrainc rhwng 57% a 77%.

4.8 Felly, nid yw'r adolygiad llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth glir o wahanol lefel y cyfraddau pasio'r dreth y gellid eu defnyddio – ac felly rydym yn cadw'r dull yn Asesiad Llywodraeth Cymru o ddefnyddio pegynau.

### Sut mae effaith ardoll ymwelwyr yn newid gyda'r tymor neu boblogrwydd cyrchfan?

4.9 Prin yw'r astudiaethau sydd wedi meintioli PEDs ar gyfer gwahanol dymhorau, ond mae sawl astudiaeth yn nodi bod y galw am dwristiaeth yn llai elastig yn y tymhorau uchel o'i gymharu â'r tymhorau isel.[6]

- Fe wnaeth yr adroddiad ar gydbwyso refeniw a galw yn y diwydiant gwestai yn Dubai[7] ganfod bod elastigedd y galw yn llawer uwch yn y tymhorau isel (ac yn is yn y tymor uchel). Mae teithio rhyngwladol yn debygol o ddylanwadu'n drwm ar hynny – canfu'r adroddiad nad yw gwestai lleol yn profi gwahaniaethau mor fawr rhwng y tymhorau fel mae gwestai rhyngwladol yn ei brofi.
- Dangosodd yr adroddiad ar elastigedd pris gwasanaethau llety ym Mhrâg fod ymwelwyr yn llai elastig yn ystod y tymhorau uchel nag ydyn nhw trwy gydol y flwyddyn gyda PEDs o -0.22 i 0.78 yn y tymhorau uchel o gymharu â PEDs o -0.10 i -0.54 trwy gydol y flwyddyn. Mae'r PEDs positif yn y tymor uchel yn awgrymu efallai na fydd y berthynas pris-galw disgwyliedig bob amser yn dal dŵr.[8]

4.10 Canfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod elastigedd uwch yn y galw mewn cyrchfannau sydd â llefydd tebyg yn agos iddynt. Dangosodd fod gwledydd Ewropeaidd sy'n agos i'w gilydd yn dal i arddangos gwahaniaethau mewn PEDs oherwydd y math o gynnig twristiaeth tymhorol.

4.11 Ar wahân, dangosodd yr astudiaeth o gynnydd mewn treth llety ar gyrchfannau yr Unol Daleithiau fod tua 49% o deithwyr wedi newid eu cynlluniau oherwydd trethi teithio uchel trwy leihau gwariant, aros yn rhywle rhatach ac ymweld yn ystod y tymor isel.[9]

[4]Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017. The Impact of Taxes on the Competitiveness of European Tourism yma
[5]Wozny, F. (2024). *Tax incidence in heterogeneous markets: The pass-through of air passenger taxes on airfares* (No. 16783). IZA Discussion Papers. Ar gael yma
[6]Baždar Gašljević, T., Maradin, D., & Cerović, L. (2023). Price Elasticity of Demand For Hotel Services On The Business Example Of Two Hotels In The Republic Of Croatia. *Journal of accounting and management, 13*(1), 1-14. Ar gael yma
[7]Alrawabdeh, W. (2021). Seasonal balancing of revenue and demand in hotel industry: the case of Dubai City. *Journal of Revenue and Pricing Management, 21*(1), 36. Ar gael yma
[8]Petříček, M., & Chalupa, Š. (2020). PRICE ELASTICITY OF DEMAND FOR ACCOMODATION SERVICES–EMPIRICAL APPLICATION IN PRAGUE. *Ad Alta: Journal of Interdisciplinary Research, 10*(1). Ar gael yma
[9]Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., & Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics, 27*(1), 205-219. Ar gael yma

4.12 Er bod yr adolygiad llenyddiaeth wedi tynnu sylw at rywfaint o dystiolaeth bellach ar wahaniaethau tymhorol, nid yw'n ddigon i allu pennu sut y byddai Gwynedd yn wahanol i Gyfartaledd Cymru.

## A yw ymwelwyr yn addasu eu gwariant ehangach ar drip os ydyn nhw'n talu cost yr ardoll?

4.13 Er bod yr astudiaeth o gynnydd mewn treth llety ar gyrchfannau yn yr Unol Daleithiau[10] (gweler uchod) wedi dangos bod ymwelwyr wedi ymateb i ardoll trwy leihau eu gwariant, ni wnaeth yr astudiaeth feintioli i ba raddau y mae ymwelwyr yn lleihau eu gwariant. Ac ar y cyfan, nid yw'r llenyddiaeth yn glir ynghylch sut y byddai ymwelwyr yn addasu eu gwariant ehangach ar dripiau os ydyn nhw'n ysgwyddo cost yr ardoll.

DRAFT

[10] Ibid

# 5 Asesiad effaith economaidd lefel Gwynedd (gyda chafeatau)

5.1 Fel sydd wedi'i nodi yn yr adrannau blaenorol, nid oes digon o dystiolaeth i fedru modelu union effaith yr ardoll yn gywir ac yn gadarn, neu sut byddai gwahanol senarios yn effeithio ar raddfa'r effaith (er enghraifft, a yw awdurdodau lleol eraill hefyd yn gweithredu ardoll).

5.2 Felly, rydym wedi dilyn dull deuol i ddarparu'r pegynau (gan ddilyn dull Llywodraeth Cymru yn ehangach) a gwiriadau synnwyr cyffredin ar gyfer ystod tebygol yr effaith:

- Atgynhyrchu dull Llywodraeth Cymru (gyda chafeatau). Mae hyn yn cael ei nodi yn Adran 5.
- Croeswirio gyda Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan gyfrif am bwysigrwydd cymharol twristiaeth i Wynedd. Mae hyn yn cael ei nodi yn Adran 6.

## Atgynhyrchu dull Llywodraeth Cymru (gyda chafeatau)

5.3 Rydym wedi dilyn dull tebyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 er mwyn amcangyfrif yr effeithiau ar lefel Gwynedd – yn yr un modd â dull Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cynnwys 'pegynau' gyda dwy senario, un lle mae 0% o'r Ardoll yn cael ei hamsugno gan fusnesau ac un arall lle mae 100% yn cael ei hamsugno gan fusnesau.

5.4 Mae'r dull yn destun cafeat oherwydd – fel y nodir yn Adran 3, mae cafeatau o fewn adroddiad Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn berthnasol yma ac, mewn rhai achosion, sy'n fwy amlwg mewn asesiad ar lefel lleol.

5.5 Y cafeatau allweddol sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:

- Ar lefel genedlaethol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei ddal yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir mewn ardal lai – er enghraifft, gall rhywfaint o wariant rhywun sy'n ymweld â Gwynedd fod yn Ynys Môn neu Gonwy (a fel arall). I ddibenion yr asesiad hwn, rydym yn tybio bod yr holl wariant yn cael ei 'golli' o Wynedd ac felly, dyma'r senario waethaf o ran yr effaith ar yr economi leol.
- Yn yr un modd, bydd gwariant yr ardoll hefyd yn symud mwy i ardaloedd y tu allan i Wynedd, oherwydd efallai na fydd rhai busnesau sy'n elwa o gontractau drwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yng Ngwynedd.
- Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd – nodir hyn yn fanylach isod
- Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn tybio bod newid ym mhris twristiaeth (h.y. yr ardoll) yn arwain at ostyngiad yn y galw am dwristiaeth. Nid yw'n ystyried newidiadau mewn patrymau gwariant ymwelwyr o fewn y daith (er enghraifft, lleihau costau eraill y daith gan gost yr ardoll). Mae hyn yn debygol o fod y senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru (gan dybio bod y PED yn profi'r holl newid yn ymddygiad

DRAFT

ymwelwyr). Mae'r un dull yn cael ei ddilyn yn yr asesiad lleol – eto, mae hyn yn debygol o fod y senario waethaf.

- Mae ansicrwydd sylweddol yn yr elastigion – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac yn fwy gwir byth pe bai'n cael ei ddefnyddio mewn ardal astudiaeth lai. Nid oes tystiolaeth arall ar gyfer asesiad mwy cadarn ac felly, rydym wedi defnyddio'r ystod o elastigion galw a ddefnyddir yn asesiad Llywodraeth Cymru.
- Roedd yr asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gosod ar draws Cymru gyfan – bydd yna effeithiau gwahanol os bydd un awdurdod lleol yn gweithredu'r tâl, ond nid yw ei awdurdodau cyfagos yn gweithredu'r tâl, o'i gymharu â phe bai pob awdurdod cyfagos yn gweithredu'r tâl. Nid yw'n bosib asesu'n fanwl gywir beth yw effaith gwahanol gyfuniadau o awdurdodau lleol yn cyflwyno'r ardoll, ond ystyrir yr effaith ar raddfa'r effaith.
- Nid yw'r senario lle mae'r ardoll yn cael ei phasio ymlaen i fusnesau yn cyfrif ar gyfer newidiadau ar ochr y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- Hefyd, nid yw'n cyfrif ar gyfer gostyngiadau mewn cyflogaeth ac yn tybio bod modd gweld yr arbedion o fewn 'ychwanegu gwerth' gweithrediadau busnesau. Mewn gwirionedd, mae'n debygol o arwain at lai o swyddi hefyd.

5.6 Yn yr un modd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys chwyddiant (mae'n ystyried yr effaith flynyddol pe byddai'r ardoll yn ei lle yn 2024 – y flwyddyn ddiwethaf y mae data ar gael), nid yw'n cynnwys costau gweinyddu ar fusnesau, ac nid yw'n cynnwys costau sydd y tu allan i Gymru (golyga hyn ei bod yn debygol bod y dadansoddiad yn goramcangyfrif effaith yr ardoll ychydig, yn enwedig ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol – lle y byddai costau y tu allan i Gymru yn uwch ar eu cyfer).

5.7 O ystyried y diffyg tystiolaeth, mae rhagdybiaethau (megis elastigion galw) lle nad ydym wedi ceisio gwneud y rhagdybiaethau yn benodol i Wynedd – yn hytrach, rydym wedi dangos a yw'r amcangyfrifon yn debygol o danamcangyfrif neu oramcangyfrif yr effeithiau, a darparu profion sensitifrwydd fel sy'n briodol.

5.8 Tybir y bydd TAW yn cael ei gynnwys ar yr Ardoll Ymwelwyr.

## Amcangyfrif maint presennol economi ymwelwyr

5.9 Er mwyn amcangyfrif effaith yr ardoll ymwelwyr, mae angen yn gyntaf amcangyfrif maint economi'r ymwelwyr (nifer yr ymwelwyr, nifer y nosweithiau a arhosir, a'r gwariant y maent yn ei gefnogi).

5.10 Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn defnyddio Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024 – dyma hefyd y canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.

5.11 Mae hyn yn arwain at gyfartaledd o 0.87 miliwn o ymweliadau, gyda 3.6 miliwn o nosweithiau gwely, gan gefnogi £250 miliwn o wariant. Dylid nodi bod hyn yn cynnwys pob taith, gan gynnwys y rhai sy'n aros mewn llety nad yw'n dod o dan yr ardoll (er enghraifft, aros gyda ffrindiau a theulu).



DRAFT

5.12 Dylid nodi bod y set ddata hon wedi dangos gostyngiad yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant o'i chymharu â chyfartaleddau cyn-Covid (2017–2019) a'r data a ddefnyddiwyd yn Nogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gallai'r gostyngiad hwn fod yn rhannol oherwydd newid yn y fethodoleg casglu data, ond mae hefyd yn deillio o ostyngiad gwirioneddol mewn twristiaeth yng Ngwynedd

5.13 Fodd bynnag, nid yw defnyddio cyfartaledd 2022–24 yn ystyried y twf mwy diweddar (na'r twf posibl yn y dyfodol) yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant. Felly, cynhwysir prawf sensitifrwydd gan ddefnyddio data nosweithiau gwely a gwariant 2024.

5.14 Cynhwysir prawf sensitifrwydd hefyd sy'n defnyddio data STEAM, sydd â niferoedd ymwelwyr a lefelau gwariant llawer uwch – mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll, ond fe'i cynhwysir er cyflawnrwydd, ac oherwydd y nodir y gallai natur wledig Gwynedd olygu bod y GBTS a'r IPS yn tanamcangyfrif niferoedd yr ymwelwyr.

DRAFT

## Ardoll ymwelwyr yn cael ei phasio'n gyfan gwbl i dwristiaid

5.15 Mae'r adran hon yn tybio bod 100% o'r ardoll ymwelwyr yn cael ei phasio ymlaen i'r defnyddwyr. Yn gyntaf, mae'n ystyried effaith colli gwariant ymwelwyr ac yna'n ystyried i ba raddau y byddai gwariant yr ardoll ei hun yn gwrthbwyso'r golled.

Effaith y golled bosibl mewn gwariant ymwelwyr.

5.16 Yn y prif ddadansoddiad, rydym yn defnyddio'r data blynyddol cyfartalog o'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024.

5.17 Gan gynnwys twristiaid rhyngwladol a domestig sy'n aros mewn llety sy'n gymwys ar gyfer yr ardoll, amcangyfrifir bod tua 0.67 miliwn o ymwelwyr dros nos yng Ngwynedd bob blwyddyn – sy'n aros cyfartaledd o 3.9 noson ac yn gwario £307 y pen fesul taith

5.18 Sylwer, gan nad yw hyn yn cynnwys y rhai sy'n aros mewn llety a fyddai'n eithriedig o'r ardoll, fod y 0.87m o ymweliadau a nodir uchod yn lleihau i 0.87m o ymweliadau (ac mae nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant hefyd yn lleihau).

Tabl 5.1: Yr holl ymweliadau dros nos cymwys i Wynedd – wedi'u rhannu rhwng y mathau o lety a'r math o ymwelydd – senario craidd (2022 i 2024)

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf) | Ymwelwyr tramor (Band Sylfaenol) | Cyfanswm (cyfartaledd dros 2022-2024) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm o ymweliadau gan ymwelwyr dros nos ('000) | 398 | 227 | 50 | 674 |
| Cyfanswm nosweithiau gwely Gwynedd ('000) | 1,450 | 868 | 305 | 2,623 |
| Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau) | 3.6 | 3.8 | 6.2 | 3.9 |
| Cyfanswm gwariant dros nos Gwynedd (gan gynnwys TAW) | £129m | £54m | £24m | £207m |
| Cost fesul taith (gan gynnwys TAW) | £324 | £236 | £485 | £307 |
| Cost fesul noson (gan gynnwys TAW) | £89 | £62 | £79 | £79 |

Ffynhonnell: 'Great British Tourism Survey' a'r 'International Passenger Survey'

5.19 Amcangyfrifodd dadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 bod 22% o'r rheini mewn llety Band Isaf yn blant, ac felly wedi'u heithrio o'r ardoll. Tybir bod y rhagdybiaeth hon yn berthnasol ar lefel Gwynedd – pe byddai cyfran y plant yn is, byddai effaith yr ardoll yn uwch, ac i'r gwrthwyneb, pe byddai cyfran y plant yn uwch, byddai graddfa effaith yr ardoll yn llai.

5.20 Mae'r tabl isod yn cynnwys ymwelwyr cymwys yn unig (h.y. mae'n eithrio plant yn ymweld â llety band isaf).



DRAFT

5.21 Noder y tybir bod yr holl ymwelwyr rhyngwladol yn aros mewn llety sylfaenol ac felly'n talu'r ardoll – mae hyn yn cyd-fynd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru. Pe byddai plant mewn llety band isaf yn y grŵp hwn, byddai graddfa effaith yr ardoll yn llai.

Tabl 5.2: Yr holl ymweliadau dros nos cymwys i Wynedd – wedi'u rhannu rhwng y mathau o lety a'r math o ymwelydd – senario craidd

| | **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)** | **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)** | **Rhyngwladol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos cymwys ('000) | 398 | 177 | 50 | 625 |
| Nosweithiau gwely Gwynedd cymwys ('000) | 1,450 | 677 | 305 | 2,432 |
| Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau) | 3.6 | 3.8 | 6.2 | 3.9 |
| Gwariant dros nos Gwynedd cymwys (gan gynnwys TAW) | £129m | £42m | £24m | £195m |
| Cost fesul taith | £324 | £236 | £485 | £312 |
| Cost fesul noson | £89 | £62 | £79 | £80 |

5.22 Yr ardoll yw £1.30 y person, y noson ar gyfer llety sylfaenol a 75c ar gyfer llety band isaf. Tybir y caiff TAW ei godi ac felly, mae'r costau hyn yn cynyddu i £1.56 a 90c. Yn seiliedig ar gyfartaledd hyd y daith a chyfanswm cost y daith, amcangyfrifir y byddai'r ardoll ymwelwyr rhwng 1.5% a 2.0% o gost y daith yn dibynnu ar fath y daith / ymwelydd.

5.23 Tybir mai -0.74 yw'r elastigedd. Mae hyn yn unol ag arfarniad Llywodraeth Cymru (2025) (ar gyfer y senario niwtral). Rydym hefyd wedi profi'r elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) a'r elastigedd mwy optimistaidd (-0.38) o arfarniad Llywodraeth Cymru – cyflwynir yr amrediad hwn ar ddiwedd yr adran hon.

5.24 Fel sydd wedi'i nodi uchod, nid oes llawer o dystiolaeth ar elastigion lefel lleol o ganlyniad i ardollau ymwelwyr – mae'r dadansoddiad cymharol gyfyngedig sy'n bodoli yn seiliedig ar dystiolaeth genedlaethol. Yn absenoldeb tystiolaeth sy'n benodol yn fwy lleol, mae ystod o luosyddion wedi cael eu defnyddio.

5.25 Dylid hefyd nodi y bydd elastigedd y galw yng Ngwynedd (i ryw raddau) yn cael ei effeithio os bydd awdurdodau lleol cyfagos hefyd yn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr – os mai Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol i gyflwyno'r ardoll, bydd yr effaith ar ymddygiad ymwelwyr yn debygol o fod yn uwch (oherwydd gall ymwelwyr ddewis mynd i awdurdodau lleol eraill yn lle Gwynedd) ond pe byddai mwy o awdurdodau lleol yn cyflwyno tâl, mae'n debygol y bydd yr effaith yn is.

5.26 Mae defnyddio lluosydd niwtral (-0.74) yn arwain at ostyngiad o rhwng 1.1% ac 1.5% yn y galw, yn dibynnu ar fath y daith / ymwelydd.

Tabl 5.3: Newid yn y galw o ganlyniad i'r ardoll – senario craidd

DRAFT

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf) | Rhyngwladol |
|---|---|---|---|
| Yr ardoll fesul person, fesul noson (heb gynnwys TAW) | £1.30 | £0.75 | £1.30 |
| Yr ardoll fesul person, fel noson (gan gynnwys TAW) | £1.56 | £0.90 | £1.56 |
| Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau) | 3.6 | 3.8 | 6.2 |
| Cyfartaledd gwariant fesul taith (gan gynnwys TAW) | £324 | £236 | £485 |
| Ardoll Ymwelwyr fesul taith: | £5.68 | £3.45 | £9.61 |
| **a) Fel % o gost y daith** | **1.8%** | **1.5%** | **2.0%** |
| b) Elastigedd | -0.74 | -0.74 | -0.74 |
| **Newid canran yng ngalw cwsmeriaid (a x b)** | **-1.3%** | **-1.1%** | **-1.5%** |

5.27 Mae'r gostyngiad hwn yn y galw yn arwain at ostyngiad o £2.5m mewn gwariant gan ymwelwyr fesul blwyddyn (gan gynnwys TAW) a £2.1m (heb gynnwys TAW).

5.28 Ni fyddai'r holl wariant hwnnw yn cael ei wario yng Ngwynedd – byddai peth ohono wedi cael ei wario mewn awdurdodau lleol eraill (naill ai ar deithiau dydd neu ar y daith) ond, i fod yn geidwadol, tybir bod yr holl golled yn cael ei theimlo yng Ngwynedd. Bydd hyn yn goramcangyfrif yr effaith (negyddol) ar economi Gwynedd.

Tabl 5.4: Colled mewn gwariant taith – senario craidd

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf) | Ymwelwyr tramor (Band Sylfaenol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant dros nos Gwynedd cymwys (gan gynnwys TAW) | £129m | £42m | £24m | £195m |
| Newid canran yn y galw | -1.3% | -1.1% | -1.5% | |
| Gwariant Ardoll ymwelwyr ar ôl y Daith (£m) (gan gynnwys TAW) | £127 | £41 | £24m | £192 |
| Colledion Gwariant Taith Gros (uniongyrchol) (£m) – gan gynnwys TAW | -£1.7 | -£0.5 | -£0.4 | -£2.5 |
| **Colledion Gwariant Taith Gros (uniongyrchol) (£m) – heb gynnwys TAW** | **-£1.4** | **-£0.4** | **-£0.3** | **-£2.1** |



DRAFT

5.29 Yn seiliedig ar luosyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'llety a bwyd' – mae'r effeithiau anuniongyrchol a chysylltiedig hefyd wedi cael eu cynnwys. Unwaith eto, ni fyddai'r rhain i gyd wedi'u teimlo yng Ngwynedd ac felly, mae hyn yn debygol o oramcangyfrif yr effaith (negyddol) o golli gwariant o ganlyniad i'r ardoll.

5.30 Rydym yn defnyddio lluosyddion math 1 (sy'n dal effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol) a math 2 (sy'n dal effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a chysylltiedig) ar gyfer llety a bwyd[11] - defnyddir hyn fel procsi ar gyfer yr holl wariant ac mae'n debygol o ddal y rhan fwyaf o'r patrymau gwariant.

5.31 Mae hyn yn arwain at golled o rhwng £1.5m a £1.7m o GVA blynyddol fesul blwyddyn – sy'n arwain at golli rhwng 42 a 47 o swyddi FTE.

Tabl 5.5: Colled yn y GVA blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i golli gwariant ymwelwyr – senario craidd

| | **Math 1** | **Math 2** |
|---|---|---|
| Newid mewn allbwn blynyddol uniongyrchol (heb gynnwys TAW) | -£2.1m | -£2.1m |
| Lluosydd (llety a bwyd) | 1.23 | 1.39 |
| Newid yn y cyfanswm allbwn blynyddol | -£2.5m | -£2.9m |
| Cymhareb Allbwn i GVA (llety a bwyd) | 0.58 | 0.58 |
| **Newid mewn GVA blynyddol** | **-£1.5m** | **-£1.7m** |
| GVA fesul FTE (llety a bwyd) yng Ngwynedd | £35,525 | £35,525 |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-42** | **-47** |

## Effaith gwario’r Ardoll Ymwelwyr

5.32 Bydd yr ardoll ymwelwyr yn arwain at gynnydd mewn gweithgaredd economaidd. Gellir gwario'r ardoll ymwelwyr ar y canlynol:

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

5.33 At ddibenion yr asesiad hwn, tybir bod yr effaith yn cael ei theimlo’n hafal ar draws sectorau gwahanol o'r economi (ac felly, mae cyfartaledd Gwynedd wedi cael ei ddefnyddio). Gellir uwchraddio hyn pan ddaw mwy o wybodaeth ar y math o fuddsoddiad y mae'r ardoll ymwelwyr yn cael ei gwario arno ar gael.

[11]Mae hyn yn seiliedig ar luosyddion economaidd Dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019



DRAFT

5.34 Byddai'r Ardoll yn arwain at £2.8m o refeniw (gweler Tabl 5.6) – mae hyn yn cyfrif ar gyfer y lleihad mewn galw o ganlyniad i'r ardoll ac yn eithrio plant o'r llety band isaf.

5.35 Ni fyddai hyn i gyd yn cael ei wario gyda chyflogwyr Gwynedd, oherwydd:

- Bydd hyd at 10% yn mynd i Lywodraeth Cymru i dalu costau gweithredu – yn y prif ddadansoddiad tybir bod y 10% llawn yn cael ei gymryd gan Lywodraeth Cymru, ond cynhwysir prawf sensitifrwydd i leihau hyn i 0% (er mwyn dangos yr ystod lawn o 0% i 10%).
- Defnyddir gollyngiad ychwanegol o 25% i gyfrif am y posibilrwydd y bydd gwariant yr ardoll yng Ngwynedd yn cael ei wario ar gwmnïau y tu allan i Wynedd. Mae hwn yn amcangyfrif ceidwadol gan y disgwylir i'r gollyngiad fod yn isel iawn – bydd gwariant y gronfa'n cael ei gyflawni gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i egwyddorion twristiaeth gynaliadwy. Mae'n debygol y bydd y gwariant yn cynnwys buddsoddi mewn cyrchfannau a chymunedau yng Ngwynedd, gan gynnwys rheoli cyrchfannau, adfywio, prosiectau'r parth cyhoeddus, a digwyddiadau. Mae hyn yn golygu y bydd y gwariant, cyn belled ag y bo'n bosibl, gyda chontractwyr a busnesau lleol. Mae natur y gwariant (contractau cymharol fach) yn golygu ei bod yn fwy tebygol o gael ei ddarparu gan fusnesau lleol ac yn llai tebygol o ddenu busnesau o ardaloedd pellach. Efallai y bydd grantiau lleol i fusnesau hefyd (a fyddai eu hunain yn cefnogi gweithgarwch economaidd), a fyddai'n cael eu gwario'n bennaf o fewn y sir. Serch hynny, cynhwysir gollyngiad uwch o 45% fel prawf sensitifrwydd

5.36 Unwaith eto, rydym yn defnyddio lluosyddion math 1 a math 2 a chymhareb GVA i allbwn[12] - mae hyn yn arwain at gynnydd o oddeutu £1.1m i £1.3m mewn GVA blynyddol yng Ngwynedd, gan gefnogi 19 i 21 o swyddi FTE (gweler Tabl 5.7).

Tabl 5.6: Refeniw ardoll – senario craidd

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf) | Ymwelwyr tramor (Band Sylfaenol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nosweithiau gwely cymwys ar ôl yr ardoll sy'n cyfrif am lai o alw ('000) | 1,431 | 670 | 301 | 2,401 |
| Yr ardoll fesul person, fesul noson (heb gynnwys TAW) | £1.30 | £0.75 | £1.30 | |
| **Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW)** | **£1.9m** | **£0.5m** | **£0.4m** | **£2.8m** |
| Refeniw Ardoll Ymwelwyr (gan gynnwys TAW) | £2.2m | £0.6m | £0.5m | £3.3m |

[12]Lluosydd a chymhared yn seiliedig ar luosyddion economaidd Dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

Tabl 5.7: cynnydd mewn GVA blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i wario'r Ardoll Ymwelwyr – senario craidd

| | Senario Isel - Math 1 | Senario Uchel - Math 2 |
|---|---|---|
| Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) – allbwn uniongyrchol | £2.8m | £2.8m |
| Eithrio 10% sy'n mynd tuag at gostau gweithredu LlC | £2.5m | £2.5m |
| Crwydro | 25% | 25% |
| Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) yng Ngwynedd – allbwn uniongyrchol | £1.9m | £1.9m |
| Lluosydd (pob sector) | 1.21 | 1.33 |
| Newid yn y cyfanswm allbwn (gan gynnwys uniongyrchol ac ati) yng Ngwynedd | £2.2m | £2.5 m |
| Cymhareb Allbwn i GVA (pob sector) | 0.5 | 0.5 |
| **Newid mewn GVA yng Ngwynedd** | **£1.1m** | **£1.3m** |
| GVA fesul FTE ar draws pob sector (Gwynedd) | £58,615 | £58,615 |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE yng Ngwynedd** | **19** | **21** |

DRAFT

## Cyfanswm effaith yr Ardoll

5.37 Effaith gyfunol yr ardoll yw colli gwariant ymwelwyr, yn ogystal â'r cynnydd mewn gweithgaredd economaidd o ganlyniad i wario'r ardoll yng Ngwynedd.

5.38 Yn y senario craidd, rhagwelir hynny i fod yn golled o £0.3m i £0.4m o'r GVA blynyddol (sy'n ostyngiad o lai na 0.01% yn GVA blynyddol Gwynedd) a cholli 22 i 26  o swyddi (sy'n llai na 0.05% o gyflogaeth Gwynedd).

### Tabl 5.8: Effaith gyfunol y newid mewn GVA blynyddol a chyflogaeth – senario craidd

| | | Craidd (yn seiliedig ar elastigion) |
|---|---|---|
| GVA | Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -£1.5m i -1.7m |
| | Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll | +£1.18m i +£1.3m |
| | **Newid mewn GVA blynyddol** | **-£0.3m i -£0.4m** |
| | GVA Gwynedd (2023) | £2,842m |
| | Canran cyfartalog GVA Economi Gwynedd | 0.01% |
| Cyflogaeth | Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -42 i -47 o swyddi |
| | Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll | +19 i +21 o swyddi |
| | **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-22 i -26 o swyddi** |
| | **Gwynedd** Cyfanswm FTE | 48,485 |
| | Canran o gyflogaeth Gwynedd | -0.056% |

5.39 Mae'r senario craidd yn seiliedig ar elastigedd o -0.74. Mae defnyddio elastigedd optimistaidd Llywodraeth Cymru (-0.38) yn lleihau'r effaith i golli 2 i 3 o swyddi ac yn arwain at gynnydd o £0.1m o GVA blynyddol.

5.40 Mae defnyddio elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) yn arwain at fwy o golled o hyd at 56 o swyddi a hyd at £1.6m o golled blynyddol mewn GVA blynyddol.

### Tabl 5.9: Effaith gyfunol y newid mewn GVA blynyddol a chyflogaeth

| | Terfyn Is (yn seiliedig ar elastigion) | Craidd (yn seiliedig ar elastigion) | Terfyn uwch (yn seiliedig ar elastigion) |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -£2.2m i -£2.5m | -£1.5m i -£1.7m | -£0.8m i -£0.9m |
| Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll | +£1.1m to +£1.2m | +£1.1m to +£1.3m | +£1.1m to +£1.3m |
| **Newid mewn GVA blynyddol** | **-£1.1m i -£1.3m** | **-£0.3m i -£0.4m** | **£0.4m** |
| GVA Gwynedd (2023) | £2,842m | £2,842m | £2,842m |
| Canran cyfartalog GVA Economi Gwynedd | -0.04% i -0.05% | -0.02% i -0.03% | <0.01% |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -63 i -71 o swyddi | -42 i -47 o swyddi | -21 i -24 o swyddi |
| Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll | +` 19 i 21 o swyddi | + 19 i 21 o swyddi | + 20i + 22 o swyddi |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-44 i -50 o swyddi** | **-22 i -26 o swyddi** | **-2i -3 o swyddi** |
| Cyfanswm FTE Gwynedd | 48,485 | 48,485 | 48,485 |
| Canran cyfartalog cyflogaeth Gwynedd | -0.09% to -0.1% | -0.05% | -0.01% |

*Prawf sensitifrwydd ac effeithiau rhagdybiaethau*

5.41 Mae Tabl 5.10 yn nodi cyfanswm refeniw'r ardoll a gesglir ym mhob senario – nodwch fod y gweithgarwch economaidd a gefnogir gan y gweithgareddau hyn wedi'i gynnwys yn yr effeithiau GVA a nodir uchod, ond ei fod wedi'i gynnwys yma er eglurder."

5.42 Yn seiliedig ar nifer presennol yr ymwelwyr (nifer y nosweithiau gwely), byddai'r ardoll yn codi £2.8m, a byddai hyd at £2.5m o hynny'n cael ei gadw gan Gyngor Gwynedd i'w wario yn yr ardal leol (yn unol â'r Ddeddf), gan dybio bod hyd at 10% o'r refeniw yn talu costau gweithredu Llywodraeth Cymru

5.43 Mae'r dull a nodir yn y dadansoddiad blaenorol yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn y galw mewn ymateb i'r ardoll ymwelwyr – mae'r gostyngiad hwn yn arwain at ostyngiad bach yn y refeniw, ond mae'n parhau i fod rhwng £2.7m a £2.8m i gyd, ac rhwng £2.4m a £2.5m unwaith y bydd y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru wedi'i eithrio

5.44 Mewn gwirionedd, gallai'r refeniw a gesglir fod yn uwch na hyn am nifer o resymau

- Mae hyn yn tybio bod nifer yr ymwelwyr yn statig yn seiliedig ar ddata 2024 – a mai'r unig newid yw gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr (neu nifer y nosweithiau gwely) o ganlyniad i'r ardoll. Mewn gwirionedd, gallai economi'r ymwelwyr dyfu (gyda'r ardoll neu hebddi). Mae marchnad dwristiaeth Gwynedd wedi bod yn tyfu ers Covid, a gallai hyn barhau. Ceir hefyd dystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr (gweler adroddiad Prifysgol Bangor, fel y'i crynhoir yn Adran 3).

- Bydd yr ardoll yn galluogi Cyngor Gwynedd i fuddsoddi mewn gweithgareddau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth, a darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr. Mae'n debygol y bydd y buddsoddiad hwn ei hun yn sbarduno cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. I'r gwrthwyneb, gallai nifer yr ymwelwyr ostwng pe na bai'r buddsoddiad drwy'r ardoll yn digwydd



DRAFT

- Mae data STEAM yn awgrymu economi ymwelwyr gyfredol lawer mwy sylweddol yng Ngwynedd – byddai hyn yn arwain at refeniw uwch, ac mae hyn wedi'i nodi'n fanylach yn y prawf sensitifrwydd yn yr adran nesaf.

Tabl 5.10: Amcangyfrifon refeniw

| | | Ymwel-wyr sy'n preswylio yn y DU (Band Safonol) | Ymwel-wyr sy'n preswylio yn y DU (Band Is) | Ymwel-wyr tramor (Band Safonol) | Cy-fanswm | Wedi'i lei-hau 10% i Lywod-raeth Cymru ar gyfer costau gweith-redu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardoll fesul noson (heb TAW) | | £1.30 | £0.75 | £1.30 | | |
| Dim gostyng-iad yn y galw | Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas | 1.45m | 0.68m | 0.31m | 2.43m | |
| | Refeniw (heb TAW) | £1.88m | £0.51m | £0.40m | £2.79m | £2.51m |
| Craidd | Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas | 1.43m | 0.67m | 0.30m | 2.40m | |
| | Refeniw (heb TAW) | £1.86m | £0.50m | £0.39m | £2.75m | £2.48m |
| Optimistaidd | Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas | 1.44m | 0.67m | 0.30m | 2.42m | |
| | Refeniw (heb TAW) | £1.87m | £0.50m | £0.39m | £2.77m | £2.49m |
| Pesimistiadd | Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas | 1.42m | 0.67m | 0.30m | 2.39m | |
| | Refeniw (heb TAW) | £1.85m | £0.50m | £0.39m | £2.74m | £2.46m |

## Prawf sensitifrwydd ac effaith rhagdybiaethau

Gwneir nifer o ragdybiaethau uchod sy'n effeithio ar raddfa'r effaith. Nodir y rhagdybiaethau allweddol yn y tabl isod, ynghyd â'u goblygiadau ar gyfer maint yr effaith

5.45 Cynhelir profion sensitifrwydd ychwanegol isod hefyd; nodir y rhain yn nhabl 5.1 a thabl 13.

5.46 Fel y nodwyd uchod, ceir nifer o wahanol ffynonellau ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi dwristiaeth Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad a gyflwynir uchod yn defnyddio'r GBTS a'r IPS ar gyfer data cyfartalog blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024 – mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac â'r canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.



DRAFT

5.47 Mae'r ffigur blynyddol ar gyfer 2024 yn uwch na'r ffigurau cyfartalog blynyddol ar gyfer 2022–24 (gan adlewyrchu marchnad sy'n gwella yn dilyn Covid), ac felly mae'r ffigurau ar gyfer 2024 wedi'u hychwanegu fel prawf sensitifrwydd

5.48 Mae data STEAM yn amcangyfrif marchnad dwristiaeth lawer mwy yng Ngwynedd – nodir hyn yn fanylach isod, gan gynnwys prawf sensitifrwydd.

Tabl 5.11: Goblygiadau rhagdybiaethau ar raddfa debygol yr effaith

| | **Prawf sensitifrwydd** | **Goblygiad** |
|---|---|---|
| Cyfraniad at gostau gweithredu LIC wedi'i leihau i 0% | Ie – Tabl 5.12 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd – **dim llawer o newid i raddfa'r effaith** |
| Defnyddio lefel fwy (45%) o symudiad | Ie – Tabl 5.12 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **Graddfa effaith ychydig yn uwch** |
| Defnyddio data GTBS ac IPS ar gyfer 2024 (yn lle'r cyfartaledd ar gyfer 2022–2024) | Ie- Tabl 5.12 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **Graddfa Effaith ychydig yn uwch** |
| Defnyddio Data STEAM | Ie- Tabl 5.13 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **Graddfa Effaith yn uwch** |
| Cyfran y plant mewn llety sylfaenol yn uwch na 22% | Na | Llai o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr (gan fod mwy o blant sydd wedi'u heithrio) + Effaith is o ran gwario'r ardoll = **Graddfa effaith is** |
| Cyfran y plant mewn llety sylfaenol yn is na 22% | Na | Mwy o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr (gan fod mwy o blant sydd wedi'u heithrio) + Effaith uwch o ran gwario'r ardoll = **Graddfa effaith uwch** |
| Elastigedd y galw mwy pesimistaidd | Wedi'i gynnwys yn Nhabl 5.9 (terfyn is) | Wedi'i gynnwys yn y terfyn is uchod = **Graddfa effaith uwch** |
| Elastigedd y galw mwy optimistaidd | Wedi'i gynnwys yn Nhabl 5.9 (terfyn uwch) | Wedi'i gynnwys yn y terfyn uwch uchod = **Graddfa effaith is** |
| Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol i gyflwyno'r ardoll | Nid yn benodol | Nid yn benodol ond yn debygol o fod yn agosach at 'elastigedd y galw mwy pesimistaidd' = **Graddfa effaith uwch** |



DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd ac awdurdodau lleol cyfagos i gyflwyno'r ardoll | Nid yn benodol | Nid yn benodol ond yn debygol o fod yn agosach at 'elastigedd y galw mwy optimistaidd' = **Graddfa effaith is** |
| Llai na 100% o'r gwariant yn cael ei 'golli' o Wynedd | Na | Llai o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr = **Graddfa effaith is** |

Tabl 5.12: Profion sensitifrwydd

| | Craidd | Cyfraniad at gostau gweithredu LlC wedi'i leihau i 0% | Defnyddio lefel uwch (45%) o symudiad | Defnyddio data 2024 GTBS a IPS |
|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn GVA blynyddol** | **-£0.3m i -£0.4m** | **-£0.2m i -£0.3m** | **-£0.3m i -£0.4m** | **-£0.4m to -£0.5m** |
| GVA Gwynedd (2023) | £2,842m | £2,842m | £2.842m | £2,842m |
| Canran cyfartalog GVA Economi Gwynedd | -0.01% i - 0.03% | -0.01% | -0.02%-0.03 | -0.01% to -0.02% |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-22 i -26 o swyddi** | **-20 i -23 o swyddi** | **-27 i -31 o swyddi** | **-25 to -29 o swyddi** |
| Cyfanswm FTE Gwynedd | 48,485 | 48,485 | 48,485 | 48,485 |
| Canran cyfartalog cyflogaeth Gwynedd | -0.05 | -0.05% i -0.05% | -0.06% | -0.05% to -0.06% |

5.49 Mae data STEAM yn nodi sector twristiaeth llawer mwy yng Ngwynedd. Yn 2024, amcangyfrifwyd bod 4.1 miliwn o ymwelwyr, yn aros 20.4 miliwn o nosweithiau, ac yn gwario dros £1 biliwn. Mae hyn tua 4 i 5 gwaith yn fwy na maint y farchnad dwristiaeth yng Ngwynedd yn seiliedig ar ddata'r IPS a'r GTBS.

5.50 Mae'r prawf sensitifrwydd isod yn amcangyfrif effaith debygol yr ardoll ar sail data STEAM. Mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll, ond fe'i cynhwysir er mwyn bod yn gyflawn ac i gydnabod y gall natur wledig Gwynedd olygu bod y GTBS a'r IPS yn tanamcangyfrif nifer yr ymwelwyr. Mae'r dadansoddiad STEAM hwn yn darparu pwynt cymharu (bookend) o ran:

5.50.1 Yr achos gwaethaf o ran effaith ar gyflogaeth a GVA – mae hyn yn arwain at ostyngiad o rhwng 100 a 116 o swyddi (tua 0.2% o economi Gwynedd) ac at ostyngiad o hyd at £1.9 miliwn mewn GVA (hyd at 0.07%).

5.50.2 Yr achos gorau o ran y refeniw sydd ar gael i'w wario – mae hyn yn cynyddu i £11.2 miliwn (ar ôl ystyried y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn debygol o fod yn senario achos gorau eithafol o ran cyllid refeniw.

5.51 Noder fod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y senario craidd (h.y. elastigedd o -0.74). Byddai cymhwyso ystod elastigedd Llywodraeth Cymru (-0.38 i -1.12) yn arwain at ystod ehangach o effeithiau wrth ddefnyddio data STEAM.



DRAFT

5.52 Mae'r prif ddadansoddiad (yn dilyn dull a chanllawiau Llywodraeth Cymru) yn parhau i fod y dull a ffefrir, ond mae data STEAM yn dangos yr ansicrwydd (ac o bosibl pen uchaf) yr effaith debygol.

## Tabl 5.13: Newid mewn GVA blynyddol ac effaith gyfunol ar gyflogaeth

| | **Prif ddadansoddiad** Senraio Craidd (elastigedd o -0.74) | **STEAM** (elastigedd o -0.74) |
|---|---|---|
| Gostynigiad oherwydd diffyg gwariant | -£1.5m to -£1.7m | -£6.7m to -£0.6m |
| Cynydd oherwydd gwariant yr ardoll | +£1.1m to +£1.3m | +£5.2m to +£5.7m |
| **Newid blynyddol GVA** | **-£0.3m to -£0.4m** | **-£1.5m to -£1.9m** |
| Gwynedd GVA (2023) | £2,842m | £2,842m |
| Tua Canran o GVA Ecnomi Gwynedd | -0.01% | -0.05% to -0.07% |
| Gostyngiad yn sgil colli gwariant | -42 to -47 jobs | -188 to -212 |
| Cynnydd o ganlyniad i wariant yr ardoll | +19 to +21 jobs | +88 to 97 |
| **Newid mewn cyflogaeth -FTE** | **-22 to -26 jobs** | **-100 to -116** |
| Cyfanswn FTE Gwynedd | 48,485 | 48,485 |
| Canran fras o gyflogaeth Gwynedd | -0.05% | -0.2% |
| **Refeniw (heb TAW)** | **£2.8m** *£2.5m gan ystyried y cyf-raniad i Lywodraeth Cymru* | **£12.4m** *£11.2m gan ystyried y cyf-raniad i Lywodraeth Cymru* |

### Yr ardoll ymwelwyr yn cael ei thalu'n gyfan gwbl gan y darparwr llety

5.53 Mae'r senario hwn yn rhagdybio bod busnesau'n amsugno cost y Dreth Ymwelwyr, sy'n golygu nad oes unrhyw newid yn lefel yr ymwelwyr i Wynedd. Mae hyn yn golygu bod y busnesau'n amsugno £3.3m, gan gynnwys TAW (dyma'r senario waethaf, gan y bydd rhai busnesau'n trosglwyddo'r TAW ymlaen

*Tabl 5.11: Cyfanswm y gost yn cael ei amsugno gan y busnes*

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf) | Rhyngwladol | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nosweithiau gwely cymwys (dim lleihad yn y galw) ('000) | 1,450 | 677 | 305 | 2,432 |
| Yr ardoll fesul person, fel noson (gan gynnwys TAW) | £1.56 | £0.90 | £1.56 | |
| **Cyfanswm yr ardoll = cyfanswm y gost i gael ei hamsugno gan y busnes** | **£2.3m** | **£0.6m** | **£0.5m** | **£3.3m** |

5.54 Mae busnesau'n amsugno £3.3m o'r gost ychwanegol ac mae hyn yn cael ei dalu ar gyfer refeniw busnesau – mae arfarniad Llywodraeth Cymru yn tybio bod hyn yn cael ei 'ddarganfod' o'r gwerth ychwanegol ac felly yr un fath â'r GVA. Mewn gwirionedd, byddai'n debygol y byddai ychydig o ostyngiad mewn swyddi hefyd.

5.55 Mae arfarniad Llywodraeth Cymru hefyd yn tybio nad yw'r prisiau mewnbwn yn newid, na niferoedd ymwelwyr na'r raddfa economaidd. Golyga hyn nad oes effeithiau lluosydd cadwyn gyflenwi 'Math 1'. Fodd bynnag, mae yna rai effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i wasgfa'r ardoll, gan leihau incwm i'w wario (yn rhannol) ar draws economi Gwynedd ac felly, mae lluosydd o 1.2 yn cael ei ddefnyddio i gynnwys uniongyrchol a chysylltiedig, ond heb gynnwys GVA anuniongyrchol. Mae hyn yn arwain at golli £3.9m mewn GVA blynyddol.

*Tabl 5.12: Newid mewn GVA blynyddol oherwydd effaith yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes*

| | **CYFANSWM** |
|---|---|
| GVA blynyddol uniongyrchol | -£3.3m |
| Lluosydd (uniongyrchol a chysylltiedig, heb gynnwys anuniongyrchol) | 1.16 |
| Cyfanswm GVA blynyddol | -£3.9m |

5.56 Fel y nodir uchod, mae disgwyl i wariant yr ardoll arwain at gynnydd o £1.1m i £1.23 mewn GVA y flwyddyn yn y senario cradd a chynnydd o 19 i 21 o swyddi (sy'n cyfrif am y cyfraniad i gostau gweithredu LIC a cholled yr ardoll i siroedd eraill). Mae hyn yn arwain at effaith gyfunol o golli £2.7m mewn GVA blynyddol a chynnydd mewn 19-21 o swyddi.

*Tabl 5.13: Effaith gyfunol y newid mewn GVA blynyddol a chyflogaeth – senario craidd*

| | **GVA Blynyddol** | **Cyflogaeth** |
|---|---|---|
| Newid oherwydd bod effaith yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes | -£3.9m | 0 |
| Newid oherwydd gwario'r Ardoll | -£1.1m i -£1.3m | 19-21 o swyddi |
| **Newid net** | **-£3.0m** | **14-16 o swyddi** |
| Cyfran economi Gwynedd | -0.1% | 0.04% |

DRAFT

5.57 Mae'r sensitifrwydd perthnasol a nodir uchod wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gollyngiad uwch, y newid yn y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru, a'r newidiadau yn y dull o ymdrin â TAW yn arwain at effaith ar swyddi o rhwng 14 a 24 o swyddi, ac at golled o rhwng -£2.0m a -£3.0m o Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) blynyddol.

5.58 Unwaith eto, mae data STEAM yn dangos effaith lawer mwy (wedi'i yrru gan economi dwristiaeth bresennol fwy), ac yn dangos y terfynau eithaf (cadarnhaol a negyddol) o'r effeithiau posibl.

Tabl 5.14: Profion sensitifrwydd

| | GVA blynyddol | Cyflogaeth |
|---|---|---|
| Craidd | -£2.7m | 19-21 o swyddi |
| Defnyddio lefel uwch (45%) o symudiad | -£3.0m | 14-16 o swyddi |
| Cyfraniad at gostau gweithredu LlC wedi'i leihau i 0% | £25.5m | 22-24 o swyddi |
| Busnesau ddim yn 'amsugno TAW' | -£2.0m | 19-21 o swyddi |
| STEAM | -£12.0m | 88-97 o swyddi |


DRAFT

# 6 Croeswirio gyda Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan gyfrif am bwysigrwydd cymharol twristiaeth i Wynedd

6.1 Rydym wedi cynnal 'gwiriadau synnwyr cyffredin' sy'n defnyddio effaith gyffredinol yr Ardoll Ymwelwyr ar economi Cymru (o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru) er mwyn amcangyfrif yr effaith debygol ar Wynedd. Noder nad yw hyn yn ymdrin â'r cafeatau gyda dadansoddiad Llywodraeth Cymru, na'r cymhwysedd ar lefel mwy lleol, ond mae'n darparu hyder ychwanegol yn y dadansoddiad.

6.2 Yn gyntaf, dylid nodi bod gan Wynedd gyfran sylweddol o farchnad dwristiaeth Cymru ar y cyfan (ac felly cyflogaeth) ac mae'r economi yn dibynnu'n anghymesur arni. Gwelir hyn yn Ffigwr 6.1 sy'n dangos bod gan Wynedd ychydig o dan 14% o gyfanswm cyflogaeth Cymru mewn Llety, ond bod ganddo gyniferydd lleoliad o 3.0 sy'n golygu bod llety yn anghymesur o bwysig i'r economi leol.

Ffigwr 6.1: Cyflogaeth llety yng Nghymru – Cyniferydd Lleoliad a chyfran cyflogaeth yng Nghymru




6.3 Mae'r tabl isod yn dangos, yn seiliedig ar nifer o wahanol fesurau (cyflogaeth, nosweithiau ymwelwyr a gwariant); bod sector twristiaeth Gwynedd yn cyfrif am rhwng 7% a 15% o economi twristiaeth Cymru.

Tabl 6.1: Sector twristiaeth Gwynedd fel cyfran o gyfanswm Cymru

| | Cyfran o gyfanswm sector twristiaeth Cymru |
|---|---|
| Cyflogaeth mewn Llety (BRES 2024) | 14% |
| Cyflogaeth mewn Llety a Bwyd (BRES 2024) | 7% |
| Domestig – nosweithiau (pob math o deithiau) | 15% |
| Domestig – gwario (pob math o deithiau) | 11% |
| Rhyngwladol – nosweithiau (heb gynnwys eu cartref eu hunain a theulu a ffrindiau) | 10% |
| Rhyngwladol – gwario (heb gynnwys eu cartref eu hunain a theulu a ffrindiau) | 8% |

6.4 Fel gwiriad synnwyr cyffredin, rydym wedi cymhwyso hyn i ganfyddiadau Arfarniad Llywodraeth Cymru 2024. Yn yr arfarniad a basiodd 100% o'r ardoll i'r cwsmer, cafodd y canlynol ei ganfod:

- Ar draws Cymru, byddai'r Ardoll yn arwain at golled o rhwng 100 a -400 o swyddi
- A newid mewn GVA blynyddol o rhwng -£7.5m a chynnydd o £11.1m

6.5 Pe byddem yn defnyddio'r ystod uchod (7% i 15%), byddem yn disgwyl effaith rhwng -60 a +15 o swyddi a newid yn y GVA sy'n amrywio o golled o £1.1m i ennill £1.7m. Mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrifon yn Adran 5 o -2 i -50 FTEs[13] a rhwng colli £1.3m i ennill £0.4m mewn GVA blynyddol.

6.6 Byddai disgwyl i'r dull hwn o rannu dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn gyfartal fod yn uwch na'r dadansoddiad a nodir yn Adran 5 gan fod rhannu dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn gyfartal yn tybio bod Gwynedd yn hawlio ei gyfran (cymharol) o wario'r ardoll ymwelwyr (unwaith mae gwariant nad yw'n rhanbarthol wedi'i gyfrif).

6.7 Mae'r dadansoddiad yn Adran 5 yn tybio bod rhywfaint o wariant yr ardoll yng Ngwynedd yn digwydd y tu allan i Wynedd ac nid yw'n cyfrif am fusnesau Gwynedd 'yn ennill' o ganlyniad i'r ardoll o awdurdodau lleol eraill (er enghraifft, busnes yng Ngwynedd yn cael ei gyflogi ar brosiect yn Sir Fôn neu Gonwy, a'i dalu gan yr ardoll).

6.8 Dylid nodi mai dangosol yn unig yw'r amcangyfrifon hyn – nid yw'r dull ar sail tebyg am debyg. Serch hynny, mae tebygrwydd y ffigyrau yn rhoi hyder yn y dadansoddiad a nodir yn Adran 5.

[13]Noder bod hyn yn cymharu swyddi a FTEs, felly nid yw'n cymharu ar sail tebyg am debyg

Tabl 6.2: Croeswirio o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – pasio 100% o'r Ardoll ymlaen

| | | **Pesimistaidd** | **Craidd** | **Optimistaidd** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | *Dull LIC – Lefel Cymru* | *-400* | *-140* | *100* |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 7% | -28 | -10 | 7 |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 15% | -60 | -21 | 15 |
| | Dull Gwynedd gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr) – Adran 5 | **-44 i -50 o swyddi** | **-22 i -26 o swyddi** | **-2 i -3 o swyddi** |
| GVA Blynyddol (£m) | *Dull LIC – Lefel Cymru* | *-7.5* | *2.1* | *11.1* |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 7% | -0.5 | 0.1 | 0.8 |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 15% | -1.1 | 0.3 | 1.7 |
| | Dull Gwynedd gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr) – Adran 5 | **-£1.1m i -£1.3m** | **-£0.3m i -£0.3m** | **£0.4m** |

6.9 Byddai defnyddio'r un dull ar gyfer y senario lle mae busnesau yn amsugno'r ardoll, yna defnyddio'r ystod 7% i 15% yn arwain at 25-54 o swyddi ychwanegol (o gymharu â 19-21 yn Adran 5) a rhwng -£2.3m a -£4.8m (o gymharu â -£2.7m yn Adran 5).

Tabl 6.3: Croeswirio o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – pasio 0% o'r ardoll ymlaen

| | | | **Craidd** |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Dull LIC – Lefel Cymru | Swyddi | 360 |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 7% | Swyddi | 25 |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 15% | Swyddi | 54 |
| | Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno) – Adran 5 | FTEs | **19-21 o swyddi** |
| GVA blynyddol | Dull LIC – Lefel Cymru | | -£32.3m |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 7% | | -£2.3m |
| | Dull LIC – lefel Gwynedd 15% | | -£4.8m |
| | Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno) – Adran 5 | | **-£2.7m** |

DRAFT

# 7 Casgliad

7.1 Mae tystiolaeth effaith yr ardollau ymwelwyr ar economïau lleol yn weddol gyfyngedig, ac mae yna rai bylchau ystyrlon a ansicr o fewn data, ac felly dylid ystyried hynny wrth ddarllen yr arfarniad hwn.

7.2 Rydym wedi ceisio efelychu dulliau'r arfarniad a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan eu gwneud yn berthnasol ar lefel lleol pan fo'n bosib, a chynnwys cafeatau a rhagdybiaethau yn dryloyw. Rydym hefyd wedi ychwanegu profion sensitifrwydd a gwiriadau synnwyr cyffredin er mwyn ychwanegu cadernid i'r arfarniad.

7.3 Er gwaethaf y rhybuddion sy'n gysylltiedig â'r sylfaen dystiolaeth a'r fethodoleg, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar economi Gwynedd yn gymharol fach, o ran yr effaith ar gyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) blynyddol. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r ystod debygol gan ddefnyddio'r IPS a'r GTBS (yn unol â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru).

7.4 Mae'r dadansoddiad hwn yn gymharol geidwadol gan ei fod yn rhagdybio nad oes unrhyw dwf yn yr economi ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad mewn ymateb i'r ardoll. Yn ymarferol, os bydd yr economi ymwelwyr yn tyfu, bydd y cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu, ac yn wir gallai gwariant yr ardoll ysgogi mwy o dwristiaeth drwy wella profiad yr ymwelwyr. Ceir tystiolaeth o dwf o flwyddyn i flwyddyn mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno

7.5 Byddai unrhyw dwf yn yr economi ymwelwyr hefyd yn gwrthbwyso unrhyw golledion i'r economi (o ran swyddi a GVA) o ganlyniad i'r ymwelwyr nad ydynt yn dod oherwydd yr ardoll, ac yn arwain at gynnydd yn y refeniw a godir drwy'r ardoll.

DRAFT

Tabl 7.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol

| | | | **Prif ddandansod-diad Senario graidd** | **Amrediad Teby-gol[14]** |
|---|---|---|---|---|
| Cyyflogaeth | Dull gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr) | FTEs | -22 i -26 Swyddi | -50 i -2 Swyddi |
| | Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno) | FTEs | 19 i 21 Swyddi | 19 i 21 Swyddi |
| | **Ystod gyfunol** | FTEs | **-26 i 21** Swyddi | **-50 i 21** Swyddi |
| GVA Blynyddol (£m) | Dull gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr) | | -£0.3m i -£0.4m | -£1.3m i £0.4m |
| | Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno) | | -£2.7m | -£2.7m |

[14] Mae hyn yn cynnwys ystod o senarios o besimistaidd i optimistaidd, yn seiliedig ar yr elastigeddau yn dadansoddiad Llywodraeth Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ystod gyfunol** | **-£2.7m i -£0.3m** | **-£2.7m i +£0.4m** |
| Refeniw Ardoll Ymwelwyr | **Ystod gyfunol** | | **£2.4m to £2.8m** |

7.6 Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi ymwelwyr bresennol Gwynedd rhwng 4 a 5 gwaith yn fwy na'r data IPS / GBTS – felly mae defnyddio data STEAM yn arwain at effeithiau sylweddol uwch. Er enghraifft, mae'r newid mewn swyddi yn amrywio o -26 i +21 yn senario graidd y prif ddadansoddiad, ac mae hyn yn cynyddu i rhwng -116 a +97 wrth ddefnyddio data STEAM. Yn yr un modd, mae'r refeniw yn cynyddu i £11.2m (er y dylid nodi bod hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif). Mae hyn yn tynnu sylw at yr ansicrwydd yn y data, ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragfynegi effaith yr ardoll.

DRAFT

DRAFT